Department for
Science, Innovation
& Technology

# Tyfu fyny yn y byd ar-lein: sgwrs genedlaethol

CP 1528

Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Yr Adran Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg

# Tyfu fyny yn y byd ar-lein: sgwrs genedlaethol

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Mawrth 2026

CP 1528

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored Fersiwn 3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, rhaid i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael o www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn OSA_consultation@dsit.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-6278-9

E03557625 03/26

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


Gwybodaeth Gyffredinol ..... 5

Pam ein bod yn ymgynghori ..... 5

Manylion yr ymgynghoriad ..... 5

Sut i ymateb ..... 5

Cyfrinachedd a diogelu data ..... 6

Sicrhau ansawdd ..... 6

Rhagair yr Ysgrifennydd Gwladol ..... 7

Rhagarweiniad ..... 9

Pennod 1: Deall sut y mae plant yn defnyddio technoleg ..... 13

Pennod 2: Ymyriadau ar gyfer profiadau mwy diogel a phositif ..... 17

Cyfyngu gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn ôl oed ..... 17

Oed caniatâd digidol ..... 20

Cyfyngu mynediad at wasanaethau ar sail nodweddion a gweithrediadau ..... 23

‘Natur gaethiwus’, dylunio cymhellol a dadleoli ..... 27

Pa fath o wasanaethau ddylai fod â chyfyngiadau arnynt ..... 32

Botiau sgwrsio ac AI ..... 35

Pennod 3: Cydymffurfio a gorfodaeth effeithiol o reolau diogelwch ar-lein ..... 38

Gwella sicrhau oed ..... 38

Osgoi cyfyngiadau oed ..... 41

Gorfodi polisïau ffonau symudol mewn ysgolion ..... 43

Pennod 4: Paratoi plant ar gyfer dyfodol digidol a chyfoethogi eu profiadau ar-lein ..... 46

Adeiladu llythrennedd cyfryngau a sgiliau digidol hanfodol ..... 46

Cefnogi plant yn yr ysgol ..... 48

Eu cefnogi yn y gymuned ac mewn lleoliadau eraill ..... 48

Prosiectau diwydiant a chymdeithas sifil ..... 49

Cefnogi oedolion, gan gynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd ..... 50

Hyrwyddo mynediad at gynnwys ansawdd uchel ..... 53

Pennod 5: Cefnogi teuluoedd ..... 56

Gosodiadau rhiant ..... 56

Canllawiau amser sgrîn i rieni a gofalwyr ..... 57

Cynlluniau peilot ........................................................................................ 59
Cwestiynau'r Ymgynghoriad ......................................................................... 60

# Gwybodaeth Gyffredinol

## Pam ein bod yn ymgynghori

Mae'r llywodraeth eisiau holi barn am ei chynigion i sicrhau bod gan blant fywydau digidol cyfoethog.

Mae hyn yn cynnwys pum maes craidd: deall sut y mae plant yn defnyddio technoleg; ymyriadau i roi profiadau mwy diogel a phositif; cydymffurfio a gorfodaeth effeithiol o reolau diogelwch ar-lein; paratoi plant ar gyfer dyfodol digidol a chyfoethogi eu profiadau ar-lein; a chefnogi teuluoedd.

## Manylion yr ymgynghoriad

**Cyhoeddwyd ar:** 2 Mawrth 2026

**Ymatebion erbyn:** 26 Mai 2026

**Ymholiadau at:**
Y Gyfarwyddiaeth Diogelwch a Niwed Ar-lein
Yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg
2il Lawr, Ystafell 2/14
22-26 Whitehall
Llundain
SW1A 2EG

E-bost: OSA_consultation@dsit.gov.uk
**Cyfeirnod yr ymgynghoriad:** Tyfu fyny yn y byd ar-lein: sgwrs genedlaethol

**Cynulleidfaoedd:**
Mae hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus.

**Ehangder tiriogaethol:**
Sgôp daearyddol yr ymgynghoriad hwn yw'r Deyrnas Unedig. Mae polisi rhyngrwyd yn fater wedi'i gadw'n ôl. Mae polisi addysg yn fater wedi'i ddatganoli.

## Sut i ymateb

Dylid ymateb ar-lein yn: https://www.smartsurvey.co.uk/s/growinguponline/
Neu, os hoffech gyflwyno gwybodaeth na ellir ei darparu drwy ffurflen ar y we, neu os byddai'n well gennych ymateb drwy e-bost, anfonwch eich ymateb at OSA_consultation@dsit.gov.uk.

Wrth ymateb, dylech ddweud a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n rhoi barn sefydliad.

Bydd eich ymateb yn fwyaf defnyddiol os atebwch y cwestiynau'n uniongyrchol, er bod croeso i chi hefyd gyflwyno sylwadau a thystiolaeth bellach.

Cofiwch na fyddwn yn gallu derbyn cyflwyniadau fideo na sain.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Gallai'r wybodaeth a roddwch mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei datgelu'n unol â deddfwriaeth y DU (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2008 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych eisiau i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch ddweud wrthym, ond dylech wybod na allwn warantu cyfrinachedd ym mhob sefyllfa. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais am gyfrinachedd.

Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol ar ddiogelu data. Bydd eich ymateb efallai'n cael ei ddadansoddi a'i grynhoi'n defnyddio technoleg fel deallusrwydd artiffisial (AI), i'n helpu i drin ymatebion i'r ymgynghoriad yn effeithiol a chywir. Wele ein polisi preifatrwydd.

Byddwn yn crynhoi'r holl ymatebion a chyhoeddi'r crynodeb hwn ar GOV.UK. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r enwau neu sefydliadau wnaeth ymateb, ond nid enwau, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt personol pobl.

## Sicrhau ansawdd

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori y llywodraeth.

Os oes gennych unrhyw gŵyn am sut y cafodd yr ymgynghoriad hwn ei gynnal, dylech e-bostio: OSA_consultation@dsit.gov.uk.

# Rhagair yr Ysgrifennydd Gwladol



**Y Gwir Anrhydeddus Liz Kendall AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Wyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg**

Mae pob plentyn yn haeddu cael y cychwyn cryfaf posib mewn bywyd. O ble bynnag y dowch, beth bynnag a wna eich rhieni, neu unrhyw ddamwain enedigol arall – y llwybr gorau i fywyd da yw plentyndod gwych.  Bywyd llawn ffrindiau, teulu, cariad, dysgu, chwarae ac antur.

Mae hyn yr un mor berthnasol i'r byd ar-lein ag ydyw i'r byd go iawn. Gwyddom y gall technoleg agor drysau cyfle anferth i bobl ifanc. Rwyf eisiau gweld plant yn byw bywydau hapus, iach ac yn cael profiadau digidol cyfoethog – yn defnyddio technoleg i ddysgu, creu a chysylltu gyda rhai sy'n hoffi'r un pethau, ac yn eu caru yn yr un ffordd. Yn aml iawn, cymuned ar-lein yw'r lle cyntaf y mae plant yn dechrau teimlo cysylltiad â rhywbeth mwy na nhw eu hunain.

Ond eto, mewn oes o ffonau clyfar, mae bywydau plant yn newid yn gyflym – weithiau'n gynt nag y gall teuluoedd, ysgolion neu wasanaethau cymorth ymateb iddo. Gwyddom fod rhieni ym mhob man yn ceisio ymgodymu â faint o amser sgrîn y dylai eu plant ei gael, pryd i roi ffôn iddynt, beth y maen nhw'n ei weld ar-lein, ac effaith hyn i gyd arnynt. Maen nhw'n poeni am AI ac am eu plant yn siarad â botiau sgwrsio fel pe baent yn bobl go iawn. Ond eto, yn y dyfodol bydd angen sgiliau digidol bron ar bob plentyn sy'n tyfu fyny heddiw, ar gyfer eu bywyd cymdeithasol, ysgol neu swydd sydd heb ei dyfeisio eto. Rydym yn benderfynol o helpu teuluoedd i

ddelio â'r pethau hyn – fel y gallwn gadw plant yn ddiogel, rhoi'r plentyndod y maen nhw'n ei haeddu iddynt, a'u paratoi am y dyfodol.

Dyna pam ein bod yn lansio'r ymgynghoriad hwn. Bydd eich ymatebion yn goleuo'r camau nesaf a gymrwn fel llywodraeth. Gwyddom fod gwahaniaeth barn am waharddiad posib ar y cyfryngau cymdeithasol, cyrffyws dros nos, a mesurau eraill i warchod lles plant. Dyna pam ein bod eisiau casglu'r holl dystiolaeth – gan rieni, gofalwyr, arbenigwyr, pobl heb arbenigedd, cwmnïau technoleg, a gan blant a phobl ifanc eu hunain. Felly da chi rhowch eich barn i ni.

Mae cadw plant yn ddiogel ar-lein yn gyfrifoldeb gan bawb. Ond mae hefyd yn flaenoriaeth bersonol i mi. Y peth cyntaf a wnes i fel Ysgrifennydd Gwladol oedd cryfhau Deddf Diogelwch Ar-lein y DU gan wthio i barhau i'w gwella byth ers hynny. Rydym yn benderfynol i ddilyn yr holl dystiolaeth. Mis diwethaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod y llywodraeth yn cymryd pwerau cyfreithiol newydd fel y gallwn ymateb yn syth i weithredu canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn – mewn misoedd, nid blynyddoedd.

Nid dyma ddiwedd y daith o gwbl. Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam nesaf, ond byddwn yn parhau i adolygu'r rheolau ar gyfer cwmnïau technoleg ac ni fyddwn yn petruso i wneud ba bynnag newidiadau sydd eu hangen i gadw ein plant yn ddiogel. Gyda'n gilydd rydym yn creu byd digidol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd, gwarchod ein plant a'u helpu i dyfu, dysgu, canfod llawenydd a chyfranogi'n llawn mewn bywyd modern.

# Rhagarweiniad

Ein huchelgais yw creu gwlad lle y gall pob plentyn ddechrau eu bywydau gyda’r cyfleoedd y maen nhw’n eu haeddu. Fel cymdeithas, mae consensws cyffredinol o ran beth yw hanfodion plentyndod da; cariad, chwarae, ffrindiau, chwilfrydedd, cefnogaeth rhieni ac anwyliaid eraill, addysg, a chyfle i ffynnu. Mae strategaeth blynyddoedd cynnar y llynedd, Rhoi’r Dechrau Gorau i Bob Plentyn, yn disgrifio sut y byddwn yn creu cymdeithas gryfach a thecach drwy ganolbwyntio ar flynyddoedd cynharaf ein plant, pan osodir sylfeini lles a chyfle gyntaf. Fel y disgrifia’r Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol, byddwn yn parhau i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt dyfu. Beth bynnag eu cefndir, dylai fod gan bob un o’n plant y sgiliau, cyfleoedd a’r cysylltiadau i ffynnu a chael eu grymuso i ddylanwadu ar eu bywydau eu hunain a’r gymuned o’u cwmpas.

Fodd bynnag, fel gwlad, nid ydym eto wedi llawn ddeall sut i roi’r plentyndod y mae plant a phobl ifanc yn ei haeddu a’u paratoi ar gyfer y dyfodol mewn oes o newid technolegol diatal. Dyna’r sgwrs y mae’r llywodraeth yma’n ei lansio, drwy’r ymgynghoriad hwn a thrwy gyfres o ymgysylltiadau strwythuredig gyda rhieni, plant ac arbenigwyr dros y tri mis nesaf. Ein nod yw cyfoethogi bywydau plant, drwy annog treulio amser i ffwrdd o sgrîns mewn amgylcheddau iach, byd go iawn, a thrwy sicrhau eu bod yn treulio eu hamser ar-lein yn datblygu eu creadigrwydd, sgiliau ac yn ymgysylltu’n gymdeithasol.

Mewn byd lle y mae technoleg heddiw’n cyffwrdd â bywydau gymaint o deuluoedd o’r dechrau, rhaid sicrhau’r cychwyn gorau posib ar-lein. Yr ymgynghoriad hwn yw’r cam nesaf mewn gwireddu’r addewid hwn ac mae’r llywodraeth yn ymrwymedig i gymryd camau penderfynol a chwim, ar sail ei ganfyddiadau.

Nid yw’n gywir nac ystyrlon mwyach cyflwyno bywydau plant fel rhai wedi eu rhannu’n rhai ar-lein ac all-lein. Rydym yn byw gymaint o’n bywyd ar-lein a rhaid sicrhau bod hynny’n ddiogel i’n plant ac yn cyfoethogi eu bywydau, fel y gwnawn yn y byd go iawn. Gall technolegau digidol gyfoethogi ac ehangu cyfleoedd i blant gael dysgu, cyfathrebu a chreu, ond daw hefyd â risg a heriau. Mae hefyd angen i ni baratoi ac arfogi ein plant i wneud synnwyr o ddyfodol wedi’i lywio gan arloesi technolegol diatal, yn barod am weithleoedd a chymdeithasau fydd yn ddigidol o raid.

Drwy Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, mae Senedd y DU wedi cyflwyno un o’r systemau cryfaf yn y byd i warchod plant rhag cynnwys a gweithgareddau anghyfreithlon a niweidiol. Ers i’r gyfundrefn ddod i rym, mae Ofcom – rheoleiddiwr annibynnol y Ddeddf – eisoes wedi agor ymchwiliadau i gwmnïau sy’n gyfrifol am dros 90 o wasanaethau, gan gynnwys i lwyfan cyfryngau cymdeithasol mawr i benderfynu a fethodd gydymffurfio â’r dyletswyddau cynnwys anghyfreithlon; gwasanaethau rhannu ffeiliau ar gyfer mesurau i atal rhannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM); a fforwm pro hunan-laddiad drwg-enwog.

Bydd y ddeddfwriaeth hon yn parhau i fod yn sylfaen i'n gwaith diogelwch ar-lein; gan greu man cychwyn cryf i'r llywodraeth bresennol adeiladu arno a bydd unrhyw fesurau newydd yn cysylltu i'r fframwaith presennol hwn. Bydd hefyd yn parhau i esblygu a rhaid iddo wneud hynny. Mae angen i bob cyfundrefn reoleiddio aros yn hyblyg ac mae'n bwysicach nag erioed i ni weithredu'n ddioed mewn byd technolegol carlamus. Mae'r llywodraeth yn parhau, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, i gymryd camau pellach i warchod defnyddwyr ar-lein. Rydym wedi cyhoeddi y bwriadwn ddeddfu fel bod llwyfannau'n dileu delweddau personol sy'n cael eu rhannu heb ganiatâd o fewn 48 awr ar y mwyaf, gan roi mwy o warchodaeth i ferched a genethod ar-lein. Mae hyn ar ben newidiadau a gyhoeddwyd eisoes, fel gwneud cynnwys ar-lein sy'n hyrwyddo hunan-niwed a hunan-laddiad yn 'drosedd flaenoriaeth' o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein fel bod yn rhaid i lwyfannau gymryd camau rhagweithiol i atal defnyddwyr rhag gweld y deunydd hwn yn y lle cyntaf, a'i dynnu lawr yn ddioed os yw'n ymddangos. Rydym hefyd wedi gwneud cam-drin yn defnyddio delweddau personol a seiber-fflachio'n droseddau blaenoraeth ac wedi cyflwyno trosedd yn y Bil Troseddu a Phlismona i wneud modelau AI a optimeiddiwyd i greu deunydd cam-drin plant yn rhywiol yn droseddau. Yn olaf, byddwn yn gwneud apiau 'noethni' yn drosedd fel y byddai'n anghyfreithlon i gwmnïau ddarparu dulliau a ddyfeisiwyd i greu delweddau personol heb ganiatâd, gan dargedu'r broblem yn ei gwraidd.

Er ei bod yn hanfodol i Ofcom ymateb yn ddioed i weithredu unrhyw newid i'r drefn reoleiddio, yn y pen draw rhaid i'r cyfrifoldeb orwedd gyda llwyfannau ar-lein i greu amgylcheddau ar-lein diogel i blant y DU, sy'n adlewyrchu gwerthoedd y DU a chydymffurfio â chyfraith y DU.

Ochr yn ochr â'r Ddeddf, yr ymgynghoriad hwn fydd y cam rheoleiddio ar-lein nesaf; gan fynd yn bellach na chynnwys anghyfreithlon a niweidiol i ystyried effaith technoleg ar fywydau plant o ddydd i ddydd. Rydym eisiau deall sut y mae defnyddio technoleg yn cefnogi ac atal creu sylfeini cryf ar gyfer ein plant, a sut y mae'r amgylcheddau y mae plant yn canfod eu hunain ynddynt ar-lein yn gadael iddynt gysylltu'n ddiogel ag eraill, yn treulio amser â ffrindiau a chyfoedion sydd â diddordebau tebyg neu mewn sefyllfaoedd tebyg. Rydym eisiau i blant fod yn gallu mynegi eu hunain yn rhydd ymhlith y ffrindiau hynny heb unrhyw berygl o gael niwed.

Clywsom yn glir am y pryderon sydd gan rieni, athrawon, pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, ac – yn anad dim – gan blant eu hunain, nad yw'r sefyllfa bresennol yn llwyddo i wneud hyn. Mae'r pryderon hyn yn fwy nag am y cynnwys y mae plant yn ei weld; mae pobl yn poeni am faint o amser sy'n cael ei dreulio ar ddyfeisiau, a'r math o weithgareddau y mae amser sgrîn yn eu dadleoli. Mae plant yn haeddu gofod ar-lein sy'n cryfhau eu lles a chefnogi eu twf.

Gwyddom fod rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn gwneud eu gorau i dywys plant drwy fyd ar-lein sy'n teimlo'n gynyddol anoddach gwneud synnwyr ohono. Maen nhw'n

haeddu gwarchodaeth gliriach, gwybodaeth well a llwyfannau sy'n gweithio gyda nhw – nid yn eu herbyn – i gadw plant yn ddiogel. Dyna pam y byddwn yn ystyried opsiynau i ateb pryderon bod modelau busnes rhai apiau, gwasanaethau a llwyfannau wedi eu dyfeisio i gadw defnyddwyr, gan gynnwys plant, ar-lein am hirach. Rydym eisiau rhoi sicrwydd i rieni, gofalwyr a theuluoedd y gall plant fwynhau'r gorau o'r hyn sydd gan y byd digidol i'w gynnig: gofod sy'n tanio dychymyg, adeiladu sgiliau a helpu plant i ffynnu. Dylai profiadau ar-lein diogel a llawen sy'n helpu plant i wneud ffrindiau mewn cymunedau cyfoedion sydd o'r un anian fod yn rhan o bob plentyndod.

Mae llawer o'r sgwrs yn y misoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar wahardd y cyfryngau cymdeithasol i rai dan 16 oed. Mae hyn yn ffocws pwysig gan yr ymgynghoriad hwn, ynghyd ag opsiynau eraill a gynigiwyd i wella diogelwch plant a chryfhau'r ddeddfwriaeth mewn meysydd lle y mae'r pwerau presennol yn fwy gwan. Nod yr ymgynghoriad hwn yw deall haeddiannau cymharol y gwahanol opsiynau hyn, gan gynnwys i ba oed y dylai cyfyngiadau fod yn berthnasol. Rydym hefyd eisiau deall mwy am ganlyniadau anfwriadol cyfyngiadau; mae'n hanfodol bod unrhyw ddull newydd yn lleihau niwed i blant yn gyffredinol, yn lle annog plant i ymweld â gwefannau llai gweladwy neu sy'n cael eu rheoleiddio'n anfoddhaol. Yn ganolog i hyn fydd penderfynu pa wasanaethau neu weithrediadau y dylai unrhyw gyfyngiadau fod yn berthnasol iddynt.

**Blwch 0.** Mae plant yn dweud wrthym eu bod yn cael manteision sylweddol o fod ar-lein. Yn ôl Adroddiad Ofcom Rhieni a Phlant: Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau (2025)[1] dywedodd pob (99%) person ifanc 13–17 oed bron eu bod yn cael manteision o fod ar-lein, gan gynnwys:

helpu gyda gwaith ysgol neu waith cartref (78%)

helpu i wneud neu gynnal ffrindiau (65%)

dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol am broblemau (59%)

dysgu sgil newydd (55%).

Mae'n ddyletswydd arnom ddod o hyd i atebion i blant a theuluoedd sy'n cadw ar y blaen i dechnoleg, y gellir eu gorfodi'n iawn, lle y mae canlyniadau a goblygiadau'n cael eu hystyried yn drylwyr a lle'r ydym yn ffyddiog eu bod yn cwrdd â gofynion ein holl blant, gan gynnwys y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas. Mae angen atebion sy'n ychwanegu at, yn lle niweidio, eu plentyndod.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar dri pheth. Yn gyntaf, bydd yn edrych i weld a allai'r mesurau newydd, gan gynnwys cyfyngiadau ar sail oed, helpu i gadw plant yn fwy diogel ar-lein. Yn ail, bydd yn ystyried rôl gorfodaeth, o ran cymhwyso unrhyw reolau newydd a chryfhau'r rheolau sy'n bodoli'n barod. Ac yn drydydd, bydd yn

[1] Plant a Rhieni: Adroddiad Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau

edrych ar yr ecosystem ehangach: sut y gellir helpu plant a rhieni orau i ddysgu mwy am aros yn ddiogel ar-lein a datblygu sgiliau fydd yn eu paratoi'n dda ar gyfer y dyfodol.

Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, rydym hefyd yn cynnal cynlluniau peilot siarp, byr i brofi gwahanol ymyriadau i'w hanelu at blant 13-15 oed, gan gynnwys gwaharddiad cyfryngau cymdeithasol, cyrffyws a chyfyngiadau dyddiol penodol ar gyfryngau cymdeithasol. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn goleuo ein penderfyniadau drwy ddangos heriau gweithredu'r mesurau hyn a dweud mwy wrthym am eu heffaith bosib. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y cyflwynwn gyfyngiadau fydd yn gweithio i blant a'u teuluoedd.

Ar yr un pryd, pa bynnag ateb y penderfynwn arno, mae angen i ni sicrhau bod addysg effeithiol a chymorth ac arweiniad iawn yn mynd law yn llaw ag unrhyw reoleiddio. Dyna pam fydd yr Adran Addysg yn cyhoeddi galwad ar wahân am dystiolaeth ar ganllawiau amser sgrîn i blant 5-16 oed, i ategu'r canllawiau sydd eisoes ar ganol cael eu datblygu ar gyfer plant dan 5 oed. Dyna pam hefyd ein bod yn ymgynghori ar sut i'w gwneud yn haws i riant mewn oes ddigidol, ac ar y camau y gallwn eu cymryd i arfogi plant â'r sgiliau a'r wybodaeth fydd ei angen arnynt i'w dyfodol. Mae hyn yn rhan o'n hymdrechion ehangach i sicrhau nad yw ymyrraeth â sylw, gan gynnwys 'sŵn ffôn', yn effeithio'n negyddol ar ddysgu a chanolbwyntio plant.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn para tri mis, ar ôl hynny mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i ymateb yn ddioed i weithredu ar ei gasgliadau. Dyna pam, ar 16 Chwefror 2026, y cyhoeddodd y Prif Weinidog y byddai'r llywodraeth yn defnyddio pwerau cyfreithiol newydd i baratoi ar gyfer gweithredu'n syth ar ôl yr ymgynghoriad hwn. Rydym yn ymrwymedig i ddilyn y dystiolaeth, a gyda'r pwerau hyn gallwn weithredu'n gyflym ar ei chanfyddiadau, yn lle aros blynyddoedd am ddeddfwriaeth sylfaenol newydd.

Rydym yn croesawu cyfraniadau gan bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, oherwydd mae eu lleisiau hwy'n hanfodol i'r drafodaeth, drwy fersiwn blant neilltuol yr ymgynghoriad hwn a'r sgwrs uniongyrchol a'r ymgysylltu a wnawn â phlant. Bydd arolwg tebyg hefyd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer rhieni. Ar yr un pryd, byddwn yn parhau i asesu'r dystiolaeth a gasglwn, gan ddefnyddio arbenigedd panel academaidd yn ogystal â phrofiadau rhyngwladol.

Wrth galon ein gwaith diogelwch ar-lein y mae uchelgais syml: sicrhau bod bywydau ar-lein ein plant mor ddiogel ac iach ag y maen nhw all-lein, a'u harfogi â'r hyder, sgiliau a'r cymorth i ffynnu mewn byw wedi'i drawsnewid gan newid technolegol carlamus.

# Pennod 1: Deall sut y mae plant yn defnyddio technoleg

Mae twf sydyn y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn aruthrol dros y degawd diwethaf ac mae eu defnydd bellach yn rhan annatod o fywyd pobl, gan gynnwys plant. Mae deall sut a phryd y mae plant yn defnyddio technoleg ddigidol yn gynyddol bwysig.

Yn yr ymgynghoriad hwn, gofynnwn beth ym marn rhieni, gofalwyr, athrawon a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yw'r prif fanteision a phryderon am blant yn treulio mwy o amser mewn gofodau digidol. Gobeithiwn ddyfnhau ein dealltwriaeth o sut y mae plant yn ymgysylltu â thechnoleg ddigidol yn eu bywydau, er mwyn goleuo gwaith y llywodraeth ar hyn i'r dyfodol fel bod rhieni a gofalwyr yn deall mwy a chael eu cefnogi'n well gyda dealltwriaeth sy'n adlewyrchu patrymau defnydd go iawn.

Gall gweithgareddau a chymunedau ar-lein gyfoethogi addysg plant. I lawer o blant, rhaglenni fel Numberblocks, cyfres deledu a gemâu ansawdd uchel a ddefnyddir ar-lein ac yn y dosbarth yw eu cyflwyniad cyntaf i fathemateg cynnar, gan danio eu chwilfrydedd a datblygu sgiliau sylfaenol hanfodol. Bydd llawer o bobl ifanc yn parhau i gryfhau'r sgiliau hyn drwy chwarae ar-lein yn ystod eu plentyndod. Er enghraifft, dangosodd astudiaethau fod cysylltiadau mesuradwy rhwng defnydd penodedig o Minecraft ac elfennau o addysg STEM sy'n berthnasol yn fwy cyffredinol i gemâu fel Rapid Router, llwyfan yn y DU sy'n cyflwyno plant i gysyniadau rhaglennu.[2]

Mae rhanddeiliaid allweddol sy'n gweithio ar ddiogelwch ar-lein yn cydnabod pwysigrwydd technoleg a gêmio i bobl ifanc. Er enghraifft, yn ôl Sefydliad Breck, sy'n gweithio i sicrhau y gall pobl ifanc fwynhau gofodau digidol yn ddiogel ac elwa ar yr un pryd o botensial positif technoleg, "gall technoleg a gêmio fod yn bwerau llesol grymus. Gan gefnogi addysg, creadigrwydd, cyswllt cymdeithasol a datblygu sgiliau'.[3]

Dywedodd blant eu bod yn defnyddio llwyfannau ar-lein i fynegi eu hunain yn greadigol, i rannu lluniau, celf, ysgrifennu a fideos, i ddysgu am ddiddordebau newydd neu ymuno â chymunedau newydd sy'n cefnogi eu hobis a sgiliau. Er enghraifft, mae rhai plant yn dylunio gemâu neu brosiectau rhyngweithiol yn defnyddio dulliau fel Scratch neu'n gwneud a dylunio comics ar Pixton. Mae eraill yn rhannu ffotograffiaeth, perfformiadau miwsig, adolygiadau llyfrau neu fideos addysgol i helpu eu cyfoedion i ddysgu neu i'w difyrru. Drwy'r gweithgareddau hyn, mae plant yn datblygu creadigrwydd, hyder a sgiliau digidol gwerthfawr a chysylltu ag eraill sy'n rhannu'r un diddordebau.

---

[2] Tablatin et al. (2023), Using Minecraft to cultivate student interest in STEM
[3] www.breckfoundation.org

**Blwch 1.1** Enghraifft: Mae LEGO® Play yn llwyfan digidol am ddim i blant gael creu, darganfod a chwarae. Mae'r ap yn cynnwys nodweddion fel adeiladwr brics 3D, canfas greadigol, afatariaid Mini-ffigwr personol, creu fideos stop-symud, gemâu un chwaraewr, a fideos wedi eu cynhyrchu gan y LEGO Group, i gyd wedi eu dyfeisio i ysbrydoli plant wrth iddynt chwarae.

Mae'r LEGO Group yn ymrwymedig i ddylunio profiadau digidol fel y gall plant chwarae a chysylltu mewn amgylchedd diogel, gyda dewisiadau dylunio bwriadol sy'n dileu niweidiau sy'n gyffredin i brofiadau cyfryngau cymdeithasol. Mae LEGO® Play yn gadael i blant greu a rhannu eu cynnwys, sy'n cael ei adolygu gan ei wasanaeth cymedroli cyn iddo fynd yn fyw. Yn defnyddio Caniatâd Rhieni a Wiriwyd, mae rhieni'n rhoi caniatâd i beth all eu plentyn ei wneud yn yr ap, o rannu creu i ysgrifennu sylwadau. Nid oes gan LEGO® Play negeseua uniongyrchol (DM), dim hysbysebu masnachol na thrydydd parti a dim prynu yn-yr-ap, gyda gwybodaeth bersonol ond yn cael ei chasglu wrth gofrestru i reoli'r cyfrif, gan roi profiad cymdeithasol diogel i bawb.

Ochr yn ochr â'r nodweddion diogelwch ac atal risg hyn , mae LEGO® Play yn defnyddio arferion dylunio bwriadol a phriodol i oed i wella'r profiad yn gyson mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo canlyniadau dysgu, creadigrwydd a lles yn weithredol.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan fawr o ble y mae plant yn treulio eu hamser ar-lein ac mae llawer o blant yn credu eu bod yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'w bywydau. Mae'r dystiolaeth yn parhau i esblygu ond gwyddom erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd bod pob plentyn bron yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Er bod gan y rhan fwyaf o lwyfannau isafswm oed o 13, dywedodd dros 81% o blant 10-12 oed eu bod yn defnyddio o leiaf un ap neu wefan cyfryngau cymdeithasol.[4] Wrth i blant fynd yn hŷn, mae'r defnydd yn cynyddu ac erbyn canol yr arddegau mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi gwreiddio'n ddwfn yn eu bywydau. Maen nhw'n gallu helpu plant i aros mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, cynnal perthynas os na fedrant gyfarfod wyneb yn wyneb, a chanfod gofod sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn.

Mae enghreifftiau o blant yn defnyddio gwasanaethau ar-lein i chwarae, bod yn greadigol ac i gysylltu ag eraill yn cynnwys:

- Postio gwaith celf neu ddyluniadau digidol ar **Instagram**
- Rhannu clipiau dawns neu fiwsig byr ar **TikTok**
- Lanlwytho cynnwys gêmio neu grefftau DIY ar **YouTube**
- Fideo-sgwrsio gyda nain a thaid ar **WhatsApp**
- Recordio caneuon gwreiddiol a'u rhannu ar **SoundCloud**
- Dylunio bydoedd unigryw yn **Minecraft** a phostio 'cerdded trwodd'
- Dysgu ieithoedd drwy fersiynau plant o apiau fel **Duolingo ABC**

[4] Adroddiad Llythrennedd Cyfryngau Plant 2025

Mae'r llywodraeth eisiau cefnogi plant i ddefnyddio gofodau digidol yn bositif, drwy gryfhau eu hyder a'u dysgu, a'u helpu i deimlo'n rhan o rywbeth mwy.

Ond gwyddom hefyd y gall rhai patrymau defnydd gael canlyniadau ac effeithiau ar blant. Yn ôl yr ymchwil, defnyddiodd dros 60% o blant 8-14 oed eu ffôn clyfar, dyfais llaw a / neu gyfrifiadur rhwng 11pm a 5am o leiaf unwaith dros gyfnod o bedair wythnos.[5] Mae'r arferion hyn yn gysylltiedig â cholli cwsg sylweddol dros amser, a thrafodwn hyn yn fwy manwl ym Mhennod 2.[6] Mae cwestiwn hefyd yn codi ynghylch beth y mae'r amser ar-lein efallai'n ei ddadleoli i blant – darllen, gweithgareddau corfforol neu gymdeithasu wyneb yn wyneb – a'i effaith bosib ar dwf a datblygiad pobl ifanc. Mae'r pethau hyn yn rhan hollbwysig o blentyndod iach a hapus sy'n cyfrannu at ffyniant a chyflawniad plant.

Clywsom bryderon hefyd y gall rhai nodweddion a gweithrediadau ar lwyfannau waethygu'r niwed i blant. Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein eisoes yn gwarchod plant rhag cynnwys anghyfreithlon a niweidiol ac yn galw ar wasanaethau i ymarfer dull diogel-drwy-ddyluniad i warchod plant. Fodd bynnag, dywedodd randdeiliaid wrthym fod dyluniad gwasanaethau gyda rhai pethau – drwy nodweddion a gweithrediadau – yn gallu gwaethygu risg gan alw felly am gyfyngiadau. Mae rhai nodweddion eu hunain yn ei gwneud yn anoddach i lwyfannau gyfyngu cysylltiad plant â deunydd niweidiol, er enghraifft cynnwys 'amser real' na ellir ei hidlo'n hawdd, neu systemau argymhellion sy'n codi cynnwys camarweiniol neu gynhennus. Hefyd, clywsom bryderon am fodelau busnes sy'n dal i gael eu creu o gwmpas gyrru ymgysylltiad, sy'n gallu annog gor-ddefnydd, rhywbeth arbennig o bryderus i ymennydd sy'n datblygu – gan effeithio ar gwsg, ffocws a dadleoli gweithgareddau pwysig eraill. Trafodwn hyn ymhellach ym Mhennod 2.

Ein nod drwy'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys y fersiwn i blant a rhieni, ynghyd â'r sgwrs genedlaethol, yw holi barn am sut i daro cydbwysedd i sicrhau bod gan blant y bywydau digidol llawn a chyfoethog y maen nhw'n haeddu eu cael.

Bwriadwn ofyn i rieni a phlant sut y mae plant yn defnyddio technoleg, gwasanaethau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Byddwn hefyd yn gofyn pa ymyriadau fyddai fwyaf defnyddiol ac effeithiol i helpu rhieni i warchod eu plant ar-lein yn well, a pha fesurau pellach allai helpu i reoli amser sgrîn a hyrwyddo llythrennedd cyfryngau.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

1. Beth yw manteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a bod ar-lein, i blant?
2. Beth yw'r niwed neu risg o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a bod ar-lein, i blant?
3. Ydych chi'n meddwl bod manteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a bod ar-lein i blant yn troi'r fantol yn erbyn y risgiau, neu fel arall?

[5] Ofcom (2025), Adroddiad Gwledydd Ar-lein, t.94
[6] Ofcom (2025), Adroddiad Gwledydd Ar-lein, t.90

a. Mae’r manteision yn troi’r fantol yn gryf yn erbyn y risgiau
b. Mae’r manteision yn troi’r fantol i raddau yn erbyn y risgiau
c. Mae’r manteision a’r risgiau fwy neu lai’n gyfartal
d. Mae’r risgiau’n troi’r fantol i raddau yn erbyn y manteision
e. Mae’r risgiau’n troi’r fantol yn gryf yn erbyn y manteision
f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

# Pennod 2: Ymyriadau ar gyfer profiadau mwy diogel a phositif

Nid ceisio cael un esgid i ffitio pawb yw cefnogi lles plant ar-lein. Bydd nodweddion, cynnwys a rhagofalon sy'n addas i blant iau'n wahanol i'r rhai sydd eu hangen ar rai yn eu harddegau. Wrth i blant dyfu fyny, mae'r cydbwysedd rhwng mantais a risg treulio amser ar-lein yn fwy aml-ochrog. Wrth fynd yn hŷn, mae pobl ifanc yn eu harddegau'n dod yn fwy annibynnol ym mhob rhan o'u bywydau a dylai eu hymgysylltiad â thechnoleg adlewyrchu hynny. Mae'r bennod yma'n ystyried gwahanol ymyriadau i geisio helpu plant i fwynhau profiadau ar-lein diogel a chyfoethog. Mae rhai'n ymyriadau hollol ar wahân ac eraill a allai weithio ochr yn ochr â'i gilydd. Ar draws y cwbl, holwn farn am yr oed priodol pe byddent yn cael eu gweithredu.

Ar draws yr ymyriadau a drafodwn yn y bennod hon, codir y cwestiwn hefyd i bwy y dylent fod yn berthnasol. Nid oes diffiniad clir o 'gyfryngau cymdeithasol' ac mae llawer o'r pethau y mae plant, rhieni a gofalwyr yn poeni amdanynt hefyd yn ymddangos ar wasanaethau eraill gan gynnwys, ond nid yn unig, gêmio, botiau sgwrsio a gwasanaethau negeseua. Ar yr un pryd, rydym eisiau i unrhyw reoleiddio fod yn gymesur ac wedi'i dargedu'n effeithiol i daro'r cydbwysedd iawn.

Bydd angen penderfynu pa ddarparwyr i'w cynnwys mewn unrhyw reolau newydd a sut i gadw'r rhestr yma'n glir a diweddar. Holwn farn felly am ba mor eang y gallai'r ymyriadau hyn gael eu cymhwyso, y meini prawf a'r diffiniadau y dylid eu defnyddio pe bai unrhyw opsiwn yn cael ei weithredu ac unrhyw eithriadau a allai fod yn briodol. Bydd y dystiolaeth a dderbyniwn yn goleuo sut efallai i gyfyngu gwasanaethau ar-lein i fod er lles plant, gan gynnwys ond nid o reidrwydd wedi'i gyfyngu i gyfryngau cymdeithasol.

Byddwn yn ystyried effeithiau posib unrhyw gyfyngiadau ar blant bregus, gan gynnwys rhai ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND). Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallai unrhyw drefniadau pontio weithio gyda chyfyngiadau newydd, er enghraifft ar gyfer y cyfrifon presennol.

## Cyfyngu gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn ôl oed

Ar hyn o bryd nid oes isafswm oed cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Er bod y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn warchodaeth ar gyfer pob plentyn ar wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, dim ond mynnu cysondeb gyda gorfodi isafswm oed y gwasanaethau eu hunain y mae'r Ddeddf, nid sicrhau oed tra-effeithiol.

Fodd bynnag, o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, mae eisoes yn ofynnol i lwyfannau sy'n caniatáu cynnwys pornograffi, hunan-laddiad ac anhwylderau bwyta ddefnyddio sicrhau oed tra-effeithiol i atal plant dan 18 oed rhag gweld y math yma o gynnwys.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cyfryngau cymdeithasol gydag isafswm oed yn nodi 13. Mae hyn yn cyd-fynd ag oed caniatâd digidol – yr oed pryd y gall plentyn gytuno i'w data gael ei brosesu. Trafodwn yr oed caniatâd digidol a'i rôl mewn cefnogi gwarchod plant ar-lein nes ymlaen yn y bennod hon.

Er bod gan lawer o'r gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaeth isafswm oed o 13, mae tystiolaeth helaeth fod plant llawer iau'n eu defnyddio'n rheolaidd. Yn ôl adroddiad 2025 Ofcom, Rhieni a Phlant: Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau, mae 81% o blant 10-12 oed yn defnyddio o leiaf un ap neu wefan cyfryngau cymdeithasol a 86% gyda chyfrif eu hunain ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol, negeseua neu rannu fideos.[7] Ym Mhennod 3, ystyriwn sut i wella dulliau gorfodaeth ond byddai deddfwriaeth yn gorfodi isafswm oed o 13 o leiaf ar gyfer defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a fyddai'n ofynnol i'w gorfodi'n effeithiol, yn un ffordd o wneud hyn. Byddai'n golygu gwahardd unrhyw un iau na'r isafswm oed. Mae'n bwysig nodi y gallai olygu y byddai angen i oedolion sicrhau oed i ddefnyddio'r gwasanaethau hyn, er mwyn gallu gorfodi'r isafswm oed yn effeithiol (mwy am hyn ym Mhennod 3), gan efallai olygu aberthu preifatrwydd y defnyddiwr a chreu mwy o wrthdaro gyda phrofiadau ar-lein defnyddwyr sy'n oedolion.

Fodd bynnag, gan ddibynnu ar sut y byddai'n cael ei ddiffinio, gallai isafswm oed – hyd yn oed 13 - ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol gyflwyno risg o ganlyniadau anfwriadol. Mae rhai gwasanaethau ar-lein sy'n debyg i gyfryngau cymdeithasol ond a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer plant iau, gyda nodweddion a rhyngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr wedi eu cymedroli'n ofalus. Fel rhan o weithgareddau cytbwys, gall y rhain gynnig manteision i blant. Er enghraifft, yn ôl *Internet Matters*, ar gyfer plant rhwng 6-10 oed, gall defnyddio technoleg ddigidol roi hwb i sgiliau iaith, datblygiad cymdeithasol a chreadigrwydd plant.[8]

**Blwch 2.1. Enghraifft:** Gall defnydd plant o dechnoleg ddigidol roi hwb sylweddol i'w sgiliau iaith mewn ffyrdd creadigol ac ymgysylltiol. Drwy wylio fideos addysgol ar lwyfannau fel **YouTube Kids,** mae plant yn dod i gysylltiad â geirfa newydd, ynganu cywir a strwythurau brawddegu amrywiol. Mae dulliau rhyngweithiol fel **Scratch** yn annog ysgrifennu deialog a chyfarwyddiadau gan gryfhau sgiliau darllen ac ysgrifennu plant.

Mae pryderon cynyddol gan rieni, gofalwyr a sefydliadau cymdeithasau sifil am blant hŷn hefyd. Mae dros 180,000 o deuluoedd wedi llofnodi'r Ymrwymiad Rhieni dros Blentyndod Heb Ffonau Clyfar i ohirio rhoi ffôn clyfar i blant tan eu bod yn 14 oed o

[7] Dadansoddiad y DSIT o ddata rhyngweithiol cyhoeddedig
[8] Cyngor diogelwch ar-lein i blant 6-10 oed (2023)

leiaf, a chyfryngau cymdeithasol tan eu bod yn 16 oed.[9] Dim ond mewn dwy flynedd, mae'r sefydliad llawr gwlad hwn wedi esblygu'n fudiad cenedlaethol gan ddangos yn glir pa mor ddwfn y mae rhieni ar draws y DU yn poeni am natur gaethiwus technoleg a bod angen diogelu plant. Dywedodd rai pobl ifanc yn eu harddegau eu hunain eu bod yn poeni am effaith treulio gormod o amser ar-lein a theimlo na fedrant reoli eu hamser sgrîn eu hunain. Hefyd, dangosodd ymchwil gan Ofcom yn 2025 fod traean (33%) o rai 8-17 oed yn dweud eu bod wedi gweld rhywbeth ar-lein oedd yn 'annifyr neu'n eu poeni' yn y 12 mis diwethaf. Nid yw hyn wedi newid ers 2023.[10]

Mae'r momentwm y tu ôl i waharddiad yn ddealladwy: mae'n cynnig ffordd syml, hawdd ei chyfathrebu i rieni, plant, athrawon, pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, a diwydiant. Clywsom fod rhieni yn Awstralia'n frwd o blaid gwaharddiad gan gytuno y byddai'n helpu i warchod iechyd meddwl a lles plant.[11] Lleisiodd athrawon gefnogaeth gref hefyd gydag Undeb yr Athrawon (NASUWT) yn galw ar y llywodraeth i dynhau'r ddeddfwriaeth er mwyn dirwyo cwmnïau technoleg sy'n caniatáu i blant dan 16 oed fynd ar eu llwyfannau.

Deallwn fod rhieni eisiau gweld gweithredu i gefnogi lles eu plant heddiw ac ymddengys bod gwaharddiad yn ffordd syml o wneud hyn. Wedi dweud hynny, mae sefydliadau cymdeithas sifil, gan gynnwys yr NSPCC, Sefydliad Molly Rose a Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd wedi codi pryderon nad dyma'r ateb iawn ac y byddai perygl iddo wneud mwy o ddrwg na da. Mae eu pryderon yn cynnwys creu 'ymyl dibyn' i'r arddegau hŷn wrth fynd ar-lein a gyrru plant i ddefnyddio llwyfannau peryclach. Mae pryder hefyd y gallai gwaharddiad i ran dan 16 oed wneud plant yn llai tebygol o ofyn am gymorth rhieni pe baent yn gweld rhywbeth sy'n eu poeni ar-lein, yn enwedig pe byddent wedi cymryd mesurau i osgoi'r isafswm oed.

Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn nodi'n glir bod gan y cyfryngau cymdeithasol rôl bwysig i'w chwarae o ran ffynonellau cymorth ac arweiniad i blant, yn enwedig plant bregus neu rai sydd efallai gyda llai o fynediad at oedolion ymddiriedol sy'n barod i helpu. Mae'n iawn i ni ofyn cwestiynau am isafswm oed, er enghraifft 13 neu 16, fel bod penderfyniadau polisi'n llifo o'r dystiolaeth a gasglwn. Cefnogir y dull hwn o werthuso unrhyw waharddiad posib, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan randdeiliaid allweddol fel Sefydliad Breck.[12]

Byddwn yn ystyried yr ymatebion hyn ynghyd â'r atebion i gwestiynau am ba fath o wasanaethau a ddylai wynebu unrhyw gyfyngiadau, a drafodir yn fwy manwl nes ymlaen yn y bennod hon.

---

[9] Plentyndod Heb Ffonau Clyfar (2026)
[10] Adroddiad Llythrennedd Cyfryngau Plant 2025, p.56
[11] Sefydliad Diogelwch Ar-lein Teuluoedd (2025), Argraff Plant a Rhieni o Wahardd y Cyfryngau Cymdeithasol a Ffonau Clyfar o'r Ystafell Ddosbarth yn UDA ac Awstralia
[12] www.breckfoundation.org

Mae’r drafodaeth am isafswm oed ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol wedi codi cwestiynau am y goblygiadau posib i rieni a gofalwyr pe bai plant yn osgoi rheolau newydd. Mae’r llywodraeth yn glir: ni fydd unrhyw riant, gofalwr na phlentyn yn cael dirwy na chosb os bydd plant yn osgoi’r rhagofalon hyn.

**Cwestiynau’r Ymgynghoriad**

4. A fyddech yn cefnogi gofynion cyfreithiol i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol fod ag isafswm oed i’w defnyddio?
    a. Byddwn
    b. Na fyddwn
    c. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
5. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiad canlynol: “Dylai fod gan wasanaethau cyfryngau cymdeithasol isafswm oed o <u>16 o leiaf</u> i’w defnyddio ac ni ddylai fod ar gael i blant iau”
    a. Cytuno’n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na’n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno’n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
6. A fyddech yn cefnogi gofyniad cyfreithiol i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol fod ag isafswm oed <u>iau na 16</u> i’w defnyddio? Os felly, pa oed?
    a. Byddwn - 13
    b. Byddwn - 14
    c. Byddwn - 15
    d. Na – dim iau na 16
    e. Ateb arall (rhowch fanylion)
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

Rhowch resymau dros eich atebion ynghylch gofynion isafswm oed.

*7.* Beth yn eich barn chi fyddai effaith gorfodi isafswm oed uwch na 13 ar gyfer gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol? *Er enghraifft, effeithiau ar ddiogelwch a lles plant neu effaith ar rieni a gofalwyr, yn ogystal ag ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

## Oed caniatâd digidol

Gallai fod gan wahanol lwyfannau ar-lein wahanol resymau dros gasglu data personol. Er enghraifft, gallai fod angen i fanwerthwyr ar-lein gasglu data personol i gofio pa eitemau a roddwyd mewn basged siopa ar-lein, neu gasglu manylion danfon a rhifau cerdyn credyd i ddanfon eitemau a brynwyd. Gall injans chwilio a chwmnïau cyfryngau cymdeithasol gasglu data ymddygiad gan eu defnyddwyr i bersonoli a theilwrio eu profiadau ar-lein, gan gynnwys gwneud argymhellion neu dargedu hysbysebion. Dengys ymchwil *Children’s Data Lives* Swyddfa Comisiynydd

Gwybodaeth (ICO) y DU fod plant yn aml yn rhannu data drwy apiau a dyfeisiau, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, postio diweddariadau a rhyngweithio ag algorithmau.[13]

Dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU), pan fydd llwyfan ar-lein yn defnyddio data personol, rhaid iddo adnabod sail gyfreithiol dros wneud. Gan ddibynnu ar bwrpas a natur y data sy'n cael ei gasglu, gall gwahanol seiliau cyfreithiol fod ar gael. Er enghraifft, gallai rhai gwasanaethau ar-lein ddibynnu ar seiliau 'buddiannau cyfreithlon' neu reidrwydd cytundebol i ddarparu gwasanaeth craidd y gofynnodd gwsmer amdano. Fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau di-graidd neu ecstras dewisol, fel proffilio arferion defnydd defnyddiwr i dargedu hysbysebion, y sail gyfreithiol fwyaf priodol yw caniatâd. Mae canllawiau'r ICO ar hyn yn argymell bod gwasanaethau ar-lein yn rhoi gymaint o ddewis i'r plentyn (a'r rhiant lle bo'n briodol) dros yr elfennau hyn o'r gwasanaeth â phosib. [14]

O dan GDPR y DU, gall plant ond rhoi eu caniatâd eu hunain i 'Wasanaeth Cymdeithas Wybodaeth'[15] brosesu eu data – fel cyfryngau cymdeithasol, gêmio ar-lein neu lwyfannau manwerthu ar-lein – ar ôl dod yn 13 oed.

I blant iau na'r oed caniatâd digidol, rhaid i sefydliadau wneud ymdrechion rhesymol i ofyn i rai gyda chyfrifoldeb rhiant am y caniatâd hwn. Gallai enghreifftiau gynnwys dilysu drwy gerdyn credyd cofrestredig neu gyfeirio at gyfeiriad e-bost rhiant yn gofyn iddynt awdurdodi caniatâd.

Ni fyddai newid yr oed caniatâd yn effeithio ar wasanaethau ar-lein sydd ddim yn dibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol i brosesu. Er y byddai dal angen i wasanaethau o'r fath brosesu data plant yn unol ag egwyddorion cyffredinol y gyfraith diogelu data, ni fyddai angen iddynt ofyn yn awtomatig am awdurdod rhiant i wneud hynny ar gyfer plant dan yr oed caniatâd. Fodd bynnag, ar gyfer gwasanaethau sy'n dibynnu ar hyn o bryd ar ganiatâd fel sail i brosesu, gallai fod yn bwynt ymyrryd arall sy'n rhoi mwy o reolaeth i rieni a gofalwyr dros sut y mae llwyfannau'n defnyddio eu data personol.

Mae opsiwn i godi'r oed hwn o 13. Dengys ymchwil fod dealltwriaeth plant o sut y mae eu data personol yn cael ei gasglu, tracio, proffilio a'i 'arianeiddio' yn tyfu'n raddol dros flynyddoedd y glasoed, ac nad oes carreg filltir ddatblygu glir yn 13 oed i gyfiawnhau'r trothwy presennol.[16] Gallai ychwanegu gwiriad rhiant ychwanegol i blant rhwng 13 a 15 oed leihau'r risg o ddata personol yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd na fyddai plant yn y grŵp oed hwn efallai'n ei ddeall.

---

[13] Adroddiad Bywydau Data Plant (2024)
[14] Atodiad C: Sail gyfreithiol dros brosesu
[15] Mae hwn yn ddiffiniad eang ac, yn ymarferol, yn cynnwys y rhan fwyaf o wasanaethau ar-lein sy'n cael eu darparu i bwrpas masnachol, nid dim ond cyfryngau cymdeithasol
[16] Sonia Livingstone et al (2018), Adolygiad tystiolaeth o ddata a phreifatrwydd plant ar-lein, pg. 17

Ar draws Ewrop, mae gan nifer o wledydd drothwyon uwch yn barod: 14 yn Awstria, yr Eidal a Sbaen; 15 yn Ffrainc a 16 yn yr Almaen ac Iwerddon. Yn y gwledydd hynny, rhaid i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau ar-lein eraill sy'n dibynnu ar ganiatâd i brosesu data personol ofyn am awdurdod gan rywun gyda chyfrifoldeb rhiant cyn gallu prosesu data plant o dan yr oed penodedig.

Fodd bynnag, unwaith y rhoddir caniatâd naill ai gan blentyn a gyrhaeddodd yr oed penodedig neu gan riant neu ofalwr yn achos plentyn iau, mae gan y llwyfan ar-lein ryddid i brosesu data'r plentyn. Byddai dal yn ofynnol i'r llwyfan brosesu'r data personol yn deg, cyfreithlon a thryloyw'n unol â deddfwriaeth diogelu data, ond yn ymarferol ni all newid sut y mae rhai nodweddion a gweithrediadau'n gweithio, a byddai rhai gwasanaethau dal yn ceisio arianeiddio data'r plentyn drwy algorithmau wedi eu personoli. Trafodir yr opsiynau i newid amgylcheddau ar-lein fel y rhain yn y rhan o'r ymgynghoriad isod sy'n trafod nodweddion a gweithrediadau.

Hefyd, dengys ymchwil nad yw codi'r oed o reidrwydd yn atal rhai yn eu harddegau sydd dan yr oed caniatâd rhag defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol.[17] Ar hyn o bryd mae llawer o wasanaethau'n diofynnu at ddulliau hunan-ardystio fel blychau ticio, sydd ddim yn gwirio oed yn ddibynadwy na'n cynnwys rhieni neu ofalwyr.[18] Gallai newid yr oed caniatâd digidol fod yn effeithiol dim ond pe bai sefydliadau'n sicrhau bod eu prosesau gwirhau mor gadarn ac ystyrlon â phosib pan fydd plentyn yn rhoi eu caniatâd eu hunain neu pan ofynnir am awdurdod rhiant ar gyfer plant dan oed. Mae hyn yn ymwneud â'r materion a drafodir ym Mhennod 3 ar sicrhau oed.

Gall fod gan rieni a gofalwyr wahanol agweddau at faint o ddata personol eu plant y dylai gwasanaethau ar-lein gael ei gasglu. Gallent hefyd fod â gwahanol lefel o lythrennedd digidol a gallu ymateb i gais i wirhau oed. Mae'n golygu llai o fynediad i blant rhieni neu ofalwyr sy'n llai hyderus neu ddim yn gallu ymgysylltu cystal â phrosesau digidol, gan efallai waethygu'r anghydraddoldeb digidol presennol. Gallai hyn arwain at brofiadau ar-lein anghyson i wahanol grwpiau o blant.

Pe bai'r DU yn codi'r oed caniatâd, gallai hefyd gyfyngu mynediad at wasanaethau a dulliau defnyddiol – fel technoleg addysgol – sy'n dibynnu ar ganiatâd i brosesu data plant, oni bai fod rhai gwasanaethau wedi eu heithrio. Byddai angen i unrhyw newid gydbwyso mwy o warchodaeth i blant a sicrhau hefyd bod ganddynt dal fynediad at adnoddau ar-lein llesol.

Nod yr ymgynghoriad hwn yw deall faint o alw sydd am godi'r oed caniatâd digidol, effaith bosib newid lefel y caniatâd hwn a sut i sicrhau bod unrhyw newidiadau'n effeithiol ac ymarferol.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

8. Ym mha oed y dylid gosod yr oed caniatâd digidol yn y DU ar gyfer gwasanaethau cymdeithas wybodaeth?

---

17 Ofcom (2025), Plant a Rhieni: Adroddiad Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau, tudalen 23.

18 ICO (2025), Diweddariad ar gynnydd y Strategaeth Cod Plant

    a. 13
    b. 14
    c. 15
    d. 16
    e. Arall (nodwch ba un)
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
9. Pa risgiau neu feichiau allai fod yn gysylltiedig â chodi'r isafswm oed ar gyfer caniatâd digidol? Er enghraifft, sicrhau caniatâd rhiant, cost i'r diwydiant, mynediad at wasanaethau, nifer y ceisiadau, ayyb.
10. Beth ddylai gael ei ystyried i sicrhau bod codi'r oed caniatâd digidol yn effeithiol ac ymarferol? Er enghraifft, dulliau addas o wirhau oed defnyddwyr (gan gynnwys lle y byddai angen caniatâd rhiant) neu ddulliau addas o wirhau hunaniaeth rhiant neu ofalwr, eu hoed a'u perthynas â'r plentyn.
11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol: "Mae dadl dros newid yr oed caniatâd digidol ar gyfer rhai gwasanaethau ar-lein ond nid eraill"
    a. Cytuno'n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno'n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

    Rhowch resymau am eich ateb os gwelwch yn dda.

## Cyfyngu mynediad at wasanaethau ar sail nodweddion a gweithrediadau

Mae rhai gweithrediadau a nodweddion yn cynyddu'r risg o blant yn dod i gysylltiad â chynnwys niweidiol neu amhriodol. Gallai hyn fod oherwydd eu bod wedi eu dylunio i'r cynnwys gael ei weld mewn 'amser reall' neu dros dro, gan ei gwneud yn llawer haws i wasanaethau warchod plant. Er enghraifft, ffrydio byw neu negeseuon sy'n diflannu. Ffordd arall o gyfyngu cyfryngau cymdeithasol i rai oedrannau fyddai drwy adnabod gweithrediadau a nodweddion sy'n amhriodol neu'n gymaint o risg i blant fel eu bod yn troi'r fantol yn erbyn y manteision.

O dan y gyfraith diogelu data, rhaid i sefydliadau sy'n defnyddio gwybodaeth bersonol, gan gynnwys data plant, lynu wrth nifer o egwyddorion – gan gynnwys defnyddio'r data mewn ffyrdd teg, cyfreithlon a thryloyw'n unig. Mae Cod Dylunio Priodol i Oed yr ICO yn disgrifio sut y dylai gwasanaethau ar-lein ddarparu'r gwasanaethau hynny a defnyddio data plant mewn ffordd briodol i oed, gan gynnwys sicrhau bod gosodiadau preifatrwydd ar gyfer plant yn uchel o raid.

O dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, rhaid i wasanaethau ar-lein atal plant yn barod rhag gweld cynnwys anghyfreithlon a'r cynnwys mwyaf niweidiol – gan gynnwys

pornograffi a chynnwys sy'n hyrwyddo, annog neu'n rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer anhwylderau bwyta, hunan-niwed a hunan-laddiad. Rhaid i wasanaethau hefyd ddarparu profiad priodol i oed i blant – gan gynnwys sicrhau bod mesurau gwarchod priodol i oed yn eu lle ar gyfer cynnwys fel bwlio, trais a heriau peryglus.

Fel rhan o hyn, rhaid i wasanaethau edrych i weld ydy rhai nodweddion ar eu llwyfannau'n ei gwneud yn fwy tebygol bod plant yn dod ar draws cynnwys anghyfreithlon neu niweidiol a lliniaru'r risg os felly. Er enghraifft, rhaid i gwmnïau bellach yn gyfreithiol roi sylw i algorithmau sy'n gwthio cynnwys niweidiol fel hunan-laddiad neu hunan-niwed i blant a chymryd camau i atal oedolion anhysbys rhag cysylltu gyda phlant. Mae Ofcom yn ystyried cyfyngiadau pellach ar nodweddion a gweithrediadau, er enghraifft mae'r rheoleiddiwr wedi ymgynghori ar warchodaeth i blant ar gyfer ffrydio byw.

Wrth gwrs, dylid nodi bod gan rai o'r nodweddion a'r gweithrediadau hyn fanteision i blant. Er enghraifft, gall cynnal sesiwn gelf fyw, perfformiad cerddorol neu ddweud stori drwy ffrydio byw annog plant i fynegi eu hunain yn greadigol. Hefyd, gallai negeseuon yn diflannu wneud i blant deimlo'n llai pryderus am rannu diweddariad neu sgwrs ysgafn, fel siarad wyneb yn wyneb. Gall hyn hyrwyddo cyfathrebu naturiol ac anffurfiol.

Fodd bynnag, gallai'r risgiau droi'r fantol yn erbyn y manteision hyn. Mae'r Llywodraeth yn holi barn ynghylch a oes gymaint o risg gyda rhai nodweddion neu weithrediadau fel y dylid eu gwahardd i blant, yn llwyr neu o dan oed penodol, hyd yn oed gyda lliniaru.

Gallai hyn greu, er enghraifft, cyfres o wasanaethau gyda gweithrediadau addas i blant dan 16 oed, a chyfres o wasanaethau gyda gweithrediadau a fyddai ond ar gael i blant 16+ oed. Byddai hyn yn creu byd ar-lein haws i rieni a phlant ei ddeall a'i ddefnyddio. Byddai'n sicrhau llawer mwy o dryloywder gydag addasrwydd gwahanol wasanaethau i wahanol oedrannau. Byddai hyn yn rhoi canlyniadau tebyg i'r system 'dosbarthiad oed' sydd gan sectorau eraill ar hyn o bryd, mewn ffordd sy'n ystyried deinameg a lefel y gweithgarwch ar-lein.

Mae rhai gwasanaethau ar-lein yn defnyddio amgryptio deuben. Nid yw'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn gwahardd defnyddio amgryptio deuben. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol yn barod i wasanaethau sy'n defnyddio amgryptio deuben asesu risg eu gwasanaeth i blant a chymryd camau cymesur i liniaru'r risg, gan gynnwys wrth gyfathrebu'n breifat. Byddem yn disgwyl i'r un egwyddorion gael eu dilyn gyda mesurau y mae'r ymgynghoriad hwn yn eu trafod. Ni fyddai bod gan gwmni wasanaeth amgryptio deuben yn rheswm derbyniol i lwyfan beidio â chydymffurfio.

Gallai'r nodweddion a'r gweithrediadau hyn gynnwys, er enghraifft:

- **Ffrydio byw:** Yn ôl arolwg yr NSPCC o 40,000 o blant 7-16 oed, roedd 24% wedi ffrydio'n fyw ac roedd 6% ohonynt wedi derbyn ceisiadau i dynnu neu

newid eu dillad.[19] Dywedodd y Sefydliad Gwylio'r Rhyngrwyd (IWF) hefyd eu bod wedi ymdrin â dros 2,000 o achosion lle'r oedd plant o bosib wedi cael eu grŵmio neu hudo dan bwysau i ffrydio cynnwys anghyfreithlon yn fyw – a llawer wedi cael ei recordio i bob golwg gan y troseddwyr. [20] Yn wirfoddol yn barod, mae rhai gwasanaethau'n atal defnyddwyr y maen nhw'n gwybod eu bod dan oed penodol rhag defnyddio'r nodweddion hyn, er enghraifft rhaid bod yn 18 oed o leiaf i gynnal ffrwd fyw ar TikTok.

- **Gallu anfon a derbyn delweddau a fideos yn cynnwys noethni:** Mae creu, bod ym meddiant a rhannu delweddau anweddus o blant yn anghyfreithlon dan gyfraith y DU. Roedd dros 92% o achosion blacmel rhywiol yn cynnwys recordio neu rannu cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol,[21] gyda risg benodol i fechgyn 14-17 oed.[22] Mae llawer o lwyfannau eisoes yn defnyddio technoleg i ganfod anfon a derbyn delweddau a allai gynnwys noethni. Yn ymarferol, defnyddir y dechnoleg yn aml i 'bylu' neu rybuddio yn lle atal trawsyrru cynnwys anghyfreithlon. Gall neges gael ei chanfod cyn ei hanfon ac nid oes angen mynediad at gynnwys y neges, gan gynnwys gyda gwasanaethau amgryptio deuben. Mae'r ymgynghoriad hwn felly'n holi barn ynghylch a ddylai cwmnïau orfod atal plant rhag defnyddio gwasanaethau sy'n caniatáu trawsyrru delweddau noeth, yn hytrach na dibynnu ar fesurau gwirfoddol neu rannol.
- **Rhannu lleoliad:** Mae llawer o blant, rhieni a gofalwyr yn ystyried y nodweddion hyn i fod yn ddefnyddiol gyda rhai gwasanaethau, gan adael i blant fod yn fwy annibynnol ond hefyd i rieni a gofalwyr wybod ble maen nhw. Fodd bynnag, maen nhw'n gallu hwyluso niwed anghyfreithlon ar wasanaethau eraill gan gynnwys grŵmio, harasio, stelcian ac ymddygiad hudo dan bwysau neu reolgar. Oherwydd bod gwybodaeth am leoliad plentyn yn ddata personol, dylai gwasanaethau fod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data'r DU. O dan eu Codau Ymarfer Cynnwys Anghyfreithlon, mae Ofcom yn disgwyl i wasanaethau sy'n gadael i ddefnyddwyr ryngweithio, sy'n asesu eu hunain i fod gyda risg uchel i ganolig o grŵmio, sicrhau na all plant rannu eu lleoliad.
- **Paru â dieithryn:** Dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, rhaid i rai llwyfannau droi gweithrediadau i ffwrdd yn ddiofyn os ydynt yn cynorthwyo plant i siarad neu gysylltu â dieithriaid. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n gadael i ddefnyddwyr ryngweithio neu bostio'n gyhoeddus (defnyddiwr-i-ddefnyddiwr) a gyda risg uchel o grŵmio. Mae Ofcom yn adnabod nodweddion paru â dieithryn fel rhai risg uchel oherwydd y cysylltiad uwch â niwed fel grŵmio, harasio, pornograffi, cynnwys hunan-laddiad a hunan-niwed, casineb, a bwlio.

[19] Ffrydio byw a fideo-sgwrsio, Ciplun 2
[20] Ein hadroddiad ffrydio byw: Astudiaethau achos (2018)
[21] Canolfan Rhyngrwyd Mwy Diogel y DU (2024), Adroddiad ar Flacmel Rhywiol, t.18
[22] NCA (2025), Cam-drin Plant yn Rhywiol.

Mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw neilltuol at risg ar lwyfannau gêmio, lle y mae paru â defnyddwyr anhysbys yn aml yn rhan normal o gêmio.[23]

- **Negeseuon sy'n diflannu:** Mae negeseuon sy'n diflannu yn nodwedd gyffredin o wahanol gyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau negeseua. Er mai'r bwriad yw hyrwyddo preifatrwydd a chyfathrebu anffurfiol, gall y negeseuon dros dro hyn ei gwneud yn anoddach adrodd neu gasglu tystiolaeth o gynnwys niweidiol a chreu mwy o gyfle i hudo dan bwysau, grŵmio neu ddod dan bwysau oddi wrth gyfoedion. O dan Godau Cynnwys Anghyfreithlon Ofcom, rhaid i wasanaethau gyda negeseua uniongyrchol ystyried risgiau ychwanegol a gyflwynir gan negeseuon sy'n diflannu i dawelu meddwl defnyddwyr nad oes cofnod parhaol o'r cynnwys a anfonir ganddynt. Mae Codau Plant Ofcom yn adnabod negeseuon sy'n diflannu fel risg ychwanegol ar gyfer plant sy'n rhannu cynnwys treisgar neu fwlio.

Nid yw'r rhestr yma'n gyflawn a byddem yn croesawu awgrymiadau ar gyfer nodweddion neu weithrediadau eraill lle y mae'r risg i blant, hyd yn oed gyda lliniaru, yn troi'r fantol yn erbyn y manteision, a'r oed priodol ar gyfer unrhyw gyfyngiadau.

Byddem yn croesawu barn a thystiolaeth drwy'r ymgynghoriad hwn a'r sgwrs genedlaethol o enghreifftiau ymarfer gorau yn y diwydiant, i'n helpu i adnabod sut y gallai arloesi gwirfoddol gan gwmnïau yrru newid traws-ddiwydiant.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

12. Mae rhai gwasanaethau ar-lein yn gadael i'w defnyddwyr ymgysylltu â'r gweithrediadau canlynol: Ydych chi'n meddwl y dylai fod cyfyngiadau oed ar gyfer y gweithrediadau hyn fel na all plant dan oed penodol eu defnyddio? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Ffrydio byw
    b. Gallu anfon delweddau neu fideos noeth
    c. Cynnwys sy'n diflannu
    d. Rhannu lleoliad
    e. Cysylltu neu siarad gyda dieithriaid
    f. Yr un o'r uchod
    g. Ateb arall (rhowch fanylion)
    h. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
13. Ar sail eich atebion blaenorol, nodwch yr isafswm oed a fyddai'n well gennych ar gyfer pob un o'r gweithrediadau isod:
    a. Ffrydio byw
    b. Gallu anfon delweddau neu fideos noeth
    c. Cynnwys sy'n diflannu
    d. Rhannu lleoliad
    e. Cysylltu neu siarad gyda dieithriaid
    f. Yr un o'r uchod

[23] Ofcom, Gwarchod Pobl rhag Niwed Anghyfreithlon Ar-lein, 2024, t. 71

g. Ateb arall (rhowch fanylion)

14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "Byddai cyfyngu mynediad plant at y nodweddion / gweithrediadau hyn yn creu profiad ar-lein mwy diogel i blant". *Mae nodweddion / gweithrediadau'n cynnwys ffrydio byw, gallu anfon delweddau neu fideos noeth, cynnwys sy'n diflannu, rhannu lleoliad a chysylltu neu siarad â dieithriaid.*
    a. Cytuno'n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno'n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
15. Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau pe bai'n ofynnol i rai gwasanaethau ar-lein gyflwyno cyfyngiadau oed ar gyfer rhai nodweddion a gweithrediadau? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

## 'Natur gaethiwus', dylunio cymhellol a dadleoli

Awgryma'r ymchwil y gall lefel uchel o dechnoleg ymyrryd â gallu plant i ganolbwyntio ac ymgysylltu'n effeithiol yn yr ysgol,[24] aflonyddu ar batrymau cysgu iach,[25] a chyfrannu at heriau ehangach yn ymwneud â hwyliau, ymddygiad a lles yn gyffredinol.[26] Mae ffonau'n broblem sy'n ymyrryd â sylw plant y tu allan i'r ysgol hefyd, p'un ai pan fydd pobl ifanc yn gwneud gwaith cartref, wrth fwyta fel teulu neu dreulio amser gyda ffrindiau. Gall cyfyngu ar ddefnyddio ffonau yn yr ysgol fod yn ffordd dda o greu arferion iach i'w dilyn yn fwy cyffredinol ym mywydau plant.

Yn ôl offeryn Mesur Ar-lein Cefndirol Plant Ofcom, ar gyfartaledd mae plant 8-14 oed yn treulio bron i dair awr y dydd ar-lein ar ffôn symudol, dyfeisiau llaw a chyfrifiaduron.[27] Yn ôl adroddiad gan Ofcom, dywedodd 99% o blant 13-17 oed eu bod yn gweld o leiaf un fantais i fod ar-lein, fel eu helpu gyda gwaith ysgol a gwaith cartref neu i gynnal perthynas gyda ffrindiau.[28] Casglodd yr un adroddiad fod 33% o blant 8-17 oed yn cytuno bod eu hamser sgrîn yn ormodol.[29] Casglodd adroddiad gan Ofcom fod pedwar allan o 10 (39%) rhiant yn cytuno eu bod yn cael trafferth

---

[24] Cyngor Llawfeddyg Cyffredinol UDA (2023), Y Cyfryngau Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl Ieuenctid, tud. 10

[25] CMO (2019), Sylwebaeth ar weithgareddau sgrîn ac iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc, tud. 7

[26] Cyngor Llawfeddyg Cyffredinol UDA (2023), Y Cyfryngau Cymdeithasol ac Iechyd Meddwl Ieuenctid, tud. 10

[27] https://www.ofcom.org.uk/media-use-and-attitudes/media-habits-children/top-trends-from-our-latest-look-at-uk-childrens-online-livesChildren's Passive Online Measurement study (2025), roedd pob panelwr wedi cwblhau 28 diwrnod o astudiaeth yn olynol, gwaith maes, Tachwedd 2024 – Mawrth 2025. Nifer sylfaen: 692

[28] Plant a Rhieni: Adroddiad Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau (2025), t.26

[29] Plant a Rhieni: Adroddiad Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau (2025), t.37

rheoli amser sgrîn eu plant, ac yn anoddach fyth wrth gyrraedd yr arddegau.[30] Yn ôl adroddiad cryno gan y Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol, mae angen cymorth ar bobl ifanc ar gyfer eu hiechyd meddwl a chorfforol gan adnabod bod pobl ifanc yn teimlo 'wedi ymlâdd' gyda'r byd digidol.

Yn y rhan yma o'r ymgynghoriad, gofynnwn am farn am sut y gallai nodweddion dylunio llwyfannau fod yn annog plant i aros ar-lein yn hirach. Rydym hefyd yn holi barn am effaith y rhain ar les plant, yn enwedig os ydynt yn cyfrannu at ddadleoli iechyd meddwl da, canolbwyntio, cwsg a hunan-werth – sydd i gyd yn bethau y gwyddom sy'n bwysig ar gyfer plentyndod iach a chytbwys.

*Blwch 2.2 Tystiolaeth o amser sgrîn a'r effaith ar iechyd meddwl plant*

| |
|---|
| Mae'r dystiolaeth o amser sgrîn a'r effaith ar iechyd meddwl plant yn gymysg ac ni ddaethpwyd o hyd i gysylltiad achosol. Yn 2025, cynhaliodd gonsortiwm o bobl academaidd o brifysgolion yn y DU, dan arweiniad yr Athro Amy Orben, adolygiad o ymchwil wyddonol i ddeall effaith ffonau clyfar a'r cyfryngau cymdeithasol ar blant a phobl ifanc.[31] Tynnodd yr adolygiad sylw at ddiffyg tystiolaeth achosol dda'n cysylltu iechyd meddwl a lles plant a defnyddio technolegau digidol, yn enwedig y cyfryngau cymdeithasol, ffonau clyfar a botiau sgwrsio AI. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad hefyd nad yw hyn yn golygu nad oes cysylltiad achosol gan nodi bod tystiolaeth o gysylltiad rhwng y pethau hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau astudiaeth 2019 Prif Swyddogion Meddygol y DU a gasglodd hefyd fod cysylltiad rhwng gweithgareddau sgrîn plant ac effeithiau negyddol fel risg uwch o orbryderu neu iselder.[32] |

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos pa mor bwysig yw sicrhau bod profiadau ar-lein plant yn gytbwys a ddim yn digwydd ar draul eu datblygiad corfforol, gwybyddol neu emosiynol. Mae astudiaeth Bywydau Cyfryngau Plant gan Ofcom, prosiect ymchwil ansoddol hydredol, yn dilyn grŵp o 21 o blant 8-18 oed, yn nodi rhai o'r teimladau negyddol y gall plant yn y sampl eu teimlo am dreulio cyfnodau hir o amser ar ddyfeisiau.[33] Mae hyn yn cynnwys cael trafferth talu sylw a theimlo wedi gor-gynhyrfu. Awgrymodd Brif Swyddogion Meddygol y DU y gall amser sgrîn ddadleoli gweithgareddau iach, fel cwsg.[34] Gall cael digon o gwsg wella cofio, perfformiad yn yr ysgol a hefyd rhoi hwb i hwyliau. I rai yn eu harddegau a phlant iau, mae cwsg yn hanfodol i'w datblygiad. Os yw plant ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar sgrîn wedi nos, yn lle cysgu, gallai fod yn cael effaith negyddol ar eu datblygiad.

[30] Plant a Rhieni: Adroddiad Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau (2025), t.37
[31] Astudiaeth Ymarferoldeb o Ddulliau a Data i Ddeall Effaith Ffonau Clyfar a'r Cyfryngau Cymdeithasol ar Blant a Phobl Ifanc
[32] Sylwebaeth ar weithgareddau sgrîn ac iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc
[33] Bywydau Cyfryngau Plant (2025)
[34] Sylwebaeth ar weithgareddau sgrîn ac iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc, tud. 7

Gall nodweddion a dulliau technolegol fod yn arbennig o bwerus yn dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr ifanc, gan hyrwyddo defnydd hir ac ailadroddus. Mae ymchwil Ofcom yn awgrymu bod hyn yn cynnwys:

- **Sgrolio diddiwedd:** Mae sgrolio diddiwedd yn golygu bod cynnwys newydd yn llwytho'n awtomatig wrth sgrolio lawr, a'r dudalen byth yn dod i ddiwedd.
- **Nodweddion awto-chwarae:** Mae hyn yn nodwedd system sy'n dechrau'r darn cynnwys nesaf yn awtomatig heb fod angen i'r defnyddiwr wneud dim, ar ôl i'r cynnwys presennol orffen neu ymddangos ar y sgrîn.
- **Dulliau cadarnhau:** Mae'r rhain wedi eu dylunio i roi adborth positif, dilysu neu anogaeth i ddefnyddwyr. Maen nhw'n cynnwys hoffiadau ac ymatebion, sylwadau ac atebion, rhannu ac ail-bostio, nifer dilynwyr a thanysgrifwyr, storïau ac ymatebion, dilyniannau, cyflawniadau ac adborth personol (e.e. "mae pobl yn caru dy bost").
- **Neges-rybuddion a hysbysiadau gwthio:** Neges-rybudd yw neges sy'n codi mewn ap neu wefan i dynnu sylw'n syth. Hysbysiad gwthio yw neges a anfonir i'ch ffôn neu ddyfais drwy ap, hyd yn oed os nad ydych yn ei ddefnyddio, i'ch diweddaru neu ddod â chi nôl i'r ap.[35]

Mae **algorithmau personol** hefyd yn gallu chwarae rôl mewn achosi plant i dreulio mwy o amser ar-lein. Mae systemau argymell cynnwys yn chwarae rôl bwysig yn y cyfryngau cymdeithasol, ac i lawer o wasanaethau eraill. Nid ydynt yn gynhenid 'gaethiwus' a gellir eu defnyddio i wneud profiadau ar-lein yn fwy positif ac ymgysylltiol.

Fodd bynnag, fel y dangosodd brofiad erchyll Molly Russell, gall algorithmau hefyd achosi niwed aruthrol os anfonir y math anghywir o gynnwys at blant, yn aml iawn heb iddynt fod yn chwilio'n rhagweithiol amdano, neu os yw'r algorithmau'n gyrru defnydd cymhellol. Fel y nododd Bwyllgor Dethol y DSIT yn ei adroddiad diweddar, 'Cyfryngau cymdeithasol, camwybodaeth ac algorithmau niweidiol', gall fod yn ddefnyddiol meddwl am y cwestiynau hyn drwy lens y model busnes.[36] Un ffordd o ateb hyn fyddai rhoi cyfyngiadau oed ar wasanaethau gydag algorithmau sy'n personoli, neu dargedu modelau busnes sy'n dibynnu ar gadw plant ar-lein am hirach, er enghraifft drwy gyfyngu ar hysbysebu i blant neu gyflwyno cyfyngiadau oed ar gyfer nodweddion a gweithrediadau sy'n gadael i blant brynu pethau drwy'r gwasanaeth, fel siopau neu flychau trysor. Gall rhieni sy'n gwneud eu gorau i gefnogi eu plant i gael perthynas gytbwys gyda thechnoleg deimlo'n hollol ddryslyd gyda'r personoli a'r nodweddion soffistigedig a ddyluniwyd i gadw defnyddwyr – gan gynnwys plant a phobl ifanc – ar-lein.

Nid yw'r holl weithrediadau hyn yn gynhenid niweidiol ond mae rhan yma'r ymgynghoriad yn ceisio deall beth yn fwy y gellir ei wneud i warchod rhai yn eu

[35] Ofcom (2025), Canllawiau Asesu Risg Plant a Phroffiliau Risg Plant, tud. 48.
[36] Cyfryngau cymdeithasol, camwybodaeth ac algorithmau niweidiol (2025)

harddegau rhag y nodweddion a ddefnyddir gan lwyfannau ar-lein i ddal eu sylw am hirach, gan gynnwys:

- **Cyfyngu mynediad at weithrediadau penodol i blant 13-15 oed:** Byddai hyn yn cynnwys y nodweddion neu'r gweithrediadau y mae Ofcom wedi eu hadnabod ac yn cael eu diweddaru ar sail ymchwil barhaus. Os na fyddai'n dechnegol ymarferol i lwyfannau atal mynediad at rai gweithrediadau, gallent yn lle hynny ddewis gwahardd plant dan oed penodol rhag defnyddio eu llwyfan yn llwyr.
- **Cyfyngiadau ar yr amser y gall plant ei wario ar rai gwasanaethau gyda'r nodweddion hyn – "cyrffyws".** Byddai hyn yn cyfyngu'r amser sy'n cael ei dreulio ar gyfryngau cymdeithasol, gosod cyfyngiadau amser sgrîn dyddiol ar gyfer apiau unigol a / neu'n cynnwys cyrffyw wedi nos. Byddai hyn yn adeiladu ar fesurau sydd gan rai gwasanaethau fel TikTok neu Instagram yn eu lle'n wirfoddol ond yn eu gwneud yn orfodol ac yn atal plant rhag anwybyddu neu ddiystyru cyfyngiadau amser sgrîn. Mae Instagram eisoes yn gadael i rieni osod oriau penodol sy'n atal eu plentyn rhag defnyddio'r llwyfan, a hefyd i wneud cyfyngiadau amser dyddiol yn orfodol, gan atal rhai yn eu harddegau rhag eu diystyru os yw goruchwylio eu cyfrif wedi'i alluogi.
- **Technegau procio i annog gor-ddefnydd:** Gall llwyfannau ddefnyddio technegau procio'n wirfoddol i gymell plant i gymryd seibiant. Roedd astudiaeth ddiweddar o Ddenmarc yn awgrymu canlyniadau addawol – gw. Blwch 2.3.

| |
|---|
| Edrychodd astudiaeth yn 2025 gan Awdurdod Cystadleuaeth a Defnyddwyr Denmarc ar leihau'r amser y gellir ei dreulio ar-lein ar TikTok, Snapchat ac Instagram i 269 o bobl ifanc 13-17 oed yn eu harddegau, yn defnyddio technegau 'procio'. [37]Roedd y technegau hyn yn cynnwys gorfodi seibiant o 6 eiliad cyn defnyddio llwyfan a gofyn i blant am faint o amser yr oeddent yn bwriadu bod ar y llwyfan bob tro yr oeddent yn ei ddefnyddio. Arweiniodd y technegau hyn at 31%-36% yn llai o ddefnydd – tua awr y dydd yn llai i blentyn oedd yn treulio 3 awr y dydd ar gyfryngau cymdeithasol cyn dechrau'r astudiaeth. |

Mae rhai gwasanaethau, yn wirfoddol, wedi defnyddio dulliau i gyfyngu ar amser plant a phobl ifanc ar-lein. Mae hyn yn cynnwys YouTube, lle y gall rhieni a gofalwyr reoli faint o amser y gall eu plant ei dreulio ar YouTube Shorts, gan gynnwys gosod yr amserydd i sero. Gall rhieni hefyd osod negeseuon atgoffa amser gwely a seibiant penodol. Bydd yr ymgynghoriad yn ystyried a ddylid cyflwyno'r math yma o nodweddion yn ehangach ar draws y diwydiant.

[37] Ymyrryd mewn Arferion Cyfryngau Cymdeithasol: Arbrawf Maes gyda Defnyddwyr Ifanc o Ddenmarc (2025)

16. Gelwir y nodweddion dylunio canlynol weithiau'n rhai 'perswadiol', sy'n golygu y gallent annog plant i aros ar-lein am hirach. O'r rhestr ganlynol, dewiswch y rhai y teimlwch sy'n arbennig o 'berswadiol' i blant: (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Sgrolio diddiwedd

    Awto-chwarae

    b. Nodweddion cadarnhau (e.e. 'hoffiadau', sylwadau)
    c. Neges-rybuddion a hysbysiadau gwthio
    d. Algorithmau argymell cynnwys (sy'n cynnig argymhellion personol ar lif data defnyddiwr)
    e. Yr un o'r uchod
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    g. Ateb arall (rhowch fanylion)
17. Pa rai o'r nodweddion hyn ddylai fod â chyfyngiadau oed? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Sgrolio diddiwedd
    b. Awto-chwarae
    c. Nodweddion cadarnhau (e.e. 'hoffiadau', sylwadau)
    d. Neges-rybuddion a hysbysiadau gwthio
    e. Algorithmau argymell cynnwys (sy'n cynnig argymhellion personol ar lif data defnyddiwr)
    f. Yr un o'r uchod – ni ddylent fod â chyfyngiadau oed
    g. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    h. Ateb arall (rhowch fanylion)
18. Ar sail eich atebion blaenorol, nodwch yr isafswm oed a fyddai'n well gennych ar gyfer pob un o'r nodweddion isod:
    a. Sgrolio diddiwedd
    b. Awto-chwarae
    c. Nodweddion cadarnhau (e.e. 'hoffiadau', sylwadau)
    d. Neges-rybuddion a hysbysiadau gwthio
    e. Algorithmau argymell cynnwys (sy'n cynnig argymhellion personol ar lif data defnyddiwr)
    f. Yr un o'r uchod – ni ddylent fod â chyfyngiadau oed
    g. Ateb arall (rhowch fanylion)
19. A fyddech yn cefnogi'r cyfyngiadau canlynol ar fynediad plant at wasanaethau ar-lein? (Dewiswch un)
    a. Cyfyngiadau amser sgrîn dyddiol ar gyfer apiau unigol
    b. Cyfyngu defnydd dros nos o apiau unigol
    c. Y ddau – cyfyngiadau amser sgrîn dyddiol a defnydd dros nos o apiau unigol
    d. Ni fyddwn o blaid yr un o'r ddau

   e. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

*20.* Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau pe bai'n ofynnol i rai gwasanaethau ar-lein gyfyngu nodweddion neu weithrediadau penodol, neu gyflwyno cyfyngiadau amser? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

## Pa fath o wasanaethau ddylai fod â chyfyngiadau arnynt

Bydd penderfynu ar sgôp unrhyw reoleiddio bob amser yn golygu aberthu rhai pethau. Er enghraifft, lleisiodd sefydliadau fel yr NSPCC a Sefydliad Molly Rose bryderon pe cyflwynid cyfyngiadau isafswm oed ar gyfer nifer fach o'r gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr mwyaf poblogaidd yn unig, y gallai ddadleoli plant i ofodau ar-lein eraill, gan gynnwys rhai gyda llai o reoleiddio arnynt.

Mae sgôp rheoleiddio wedi bod yn bwnc trafod amlwg gyda chyflwyno cyfyngiadau yn Awstralia – rhoddir eglurhad pellach ym Mlwch 2.5.

Mae ffocws y drafodaeth gyhoeddus am gyfyngiadau oed wedi bod ar gyfryngau cymdeithasol ond nid oes diffiniad clir o beth y mae hyn yn ei gynnwys. Mae dyletswyddau'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn berthnasol i wasanaethau chwilio a rhai sy'n gadael i ddefnyddwyr bostio cynnwys ar-lein neu ryngweithio â'i gilydd (rhai defnyddiwr-i-ddefnyddiwr). Mae hyn yn cynnwys ystod o wefannau, apiau a gwasanaethau eraill gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, gwefannau rhannu a storio ffeiliau defnyddwyr yn y cwmwl, llwyfannau rhannu fideos, fforymau ar-lein, gwasanaethau dêtio a negeseua gwib ar-lein. Mae sgôp y Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn adlewyrchu y gall plant brofi niwed ar draws ystod ehangach o wasanaethau nag y mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych arnynt ac yn dibynnu ar asesiadau risg i adnabod lefel briodol o warchodaeth.

Mae'r Ddeddf eisoes yn eang ac wrth ystyried sut i greu gwarchodaeth ychwanegol ar gyfer cyfres benodol o risgiau, byddwn yn gwneud mwy i dargedu'r warchodaeth. Ein nod yw sicrhau bod plant wedi eu gwarchod ar wasanaethau gyda'r nodweddion gweithrediadau sydd fwyaf tebygol o gynyddu eu risg o ddod i gysylltiad â chynnwys niweidiol, neu a ddyluniwyd i'w cadw ar-lein am hirach. Gallai hyn gynnwys gwefannau ac apiau na fyddai plant efallai'n eu gweld fel 'cyfryngau cymdeithasol' traddodiadol, er enghraifft lle y gallent chwarae, creu neu rannu gemâu. I dargedu'r gwasanaethau iawn, bydd angen i ni osod diffiniad culach o ba rai i'w cynnwys. Ein man cychwyn yw y dylai hyn fod yn is-set o wasanaethau 'defnyddiwr-i-ddefnyddiwr' gyda nifer o amodau i benderfynu a fyddent mewn sgôp.

Wrth i ni ystyried cyfyngiadau pellach, i'w cymhwyso i wasanaethau cyfan neu nodweddion penodol ar lwyfannau, bydd angen i ni gwrdd â phlant lle y maen nhw. Ni fwriadwn i'r mesurau hyn gymhwyso i wefannau a llwyfannau gyda defnydd neu risg isel i blant, er enghraifft llwyfannau e-fasnach neu gemâu ar-lein caeedig sy'n

gwreiddio gwarchodaeth 'diogel-drwy-ddyluniad' yn barod. Dyna pam y byddwn hefyd yn gofyn am ba fath o wefannau a llwyfannau sy'n dod o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a ddylai gael eu heithrio o gyfyngiadau newydd pellach. Fodd bynnag, rydym yn glir na fydd gwasanaethau amgryptio deuben wedi eu heithrio.

Yn anad dim, yr hyn sy'n bwysig yw sicrhau bod sgôp unrhyw newidiadau newydd yn glir i rieni, plant, diwydiant a'r rheoleiddiwr. Ac o ystyried natur esblygol ddi-baid technoleg a gwasanaethau, bydd hefyd yn hollbwysig sicrhau bod unrhyw sgôp yn ddeinamig a pharod am y dyfodol, i gynnwys gwasanaethau newydd ac esblygol.

Rydym yn ymgynghori i ofyn a ddylai'r diffiniad:

- cyd-fynd â'r diffiniad yn Awstralia
- cynnwys amodau ychwanegol ar sail gweithrediad neu bwrpas
- cynnwys gwasanaethau fel rhai gwefannau gêmio a gwasanaethau negeseua a allai fod â phroffiliau risg a gweithrediadau tebyg iawn i rai a ystyrir yn draddodiadol i fod yn 'gyfryngau cymdeithasol'
- cynnwys eithriadau i osgoi targedu gwasanaethau risg isel ac addysgol

Byddwn hefyd yn trafod materion penodol i fotiau sgwrsio AI a Rhwydweithiau Preifat Rhithwir (VPN) nes ymlaen yn yr ymgynghoriad.

**Blwch 2.4.** Sut y mae'r gwaharddiad yn Awstralia'n gweithio a phwy sydd mewn sgôp?

Ers 10 Rhagfyr 2025, rhaid i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda chyfyngiadau oed gymryd 'camau rhesymol' i atal plant dan 16 oed yn Awstralia rhag cael cyfrifon ar eu gwasanaeth. Mae'r cyfyngiadau'n berthnasol i gael cyfrif, a heb atal plant dan 16 yn Awstralia rhag defnyddio cynnwys ar y gwasanaethau hyn os ydynt wedi allgofnodi, lle bo hyn yn bosib.

Mae rheoleiddiwr Awstralia, y Comisiynydd eDdiogelwch (eDdiogelwch), yn monitro cydymffurfio â'r isafswm oed hwn. Gall llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda chyfyngiadau oed gael cosb o hyd at $49.5m AUD os nad ydynt yn cydymffurfio.

Yn arferol, gorfodir cyfyngiadau oed ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol sy'n cwrdd â phedwar amod penodol. Hynny yw:

lle bo unig bwrpas neu brif bwrpas y gwasanaeth yw galluogi rhyngweithio cymdeithasol ar-lein rhwng dau neu fwy o ddefnyddwyr

os yw'r gwasanaeth yn gadael i ddefnyddwyr gysylltu i, neu ryngweithio â defnyddwyr eraill.

os yw'r gwasanaeth yn gadael i ddefnyddwyr bostio deunydd ar y gwasanaeth, a

nid yw'r gwasanaeth wedi'i eithrio o dan reolau deddfwriaeth.

Mae llwyfannau gyda'r unig neu'r prif bwrpas o alluogi negeseua neu gêmio ar-lein ymhlith nifer o fathau o wasanaethau sydd wedi cael eu heithrio dan y rheolau deddfwriaethol.

I hyrwyddo cydymffurfio â'r isafswm oed cyfryngau cymdeithasol, mae eDdiogelwch wedi argymell bod gwasanaethau'n hunan-asesu a ydynt yn cwrdd â'r amodau, gan gyhoeddi rhestr o 10 gwasanaeth a aseswyd ganddo'n ffurfiol i fod yn llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda chyfyngiadau oed, a 10 arall a ystyrir i fod y tu allan i sgôp. O ystyried faint o wasanaethau a allai fod mewn sgôp, nid yw eDdiogelwch wedi cyhoeddi rhestr gyflawn o bob gwasanaeth mewn sgôp neu a eithriwyd. Yn y pen draw, mater i lysoedd Awstralia yw penderfynu a yw gwasanaeth yn llwyfan cyfryngau cymdeithasol gyda chyfyngiadau oed neu beidio.

Mae angen i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ddefnyddio dulliau sicrhau oed i gydymffurfio â rhwymedigaeth isafswm oed Awstralia. Mae eDdiogelwch wedi cyhoeddi canllawiau rheoleiddio i helpu llwyfannau i ddeall pa 'gamau rhesymol' i'w cymryd. Mae'r canllawiau hyn yn seiliedig ar egwyddor yn hytrach na'n rhagnodi defnyddio mathau penodol o sicrhau oed. Fodd bynnag, mae'r canllawiau'n glir na fydd hunan-dystio (a elwir hefyd yn 'oed-borthori') yn cwrdd â'r trothwy cyfreithiol, na dulliau sicrhau oed sy'n dibynnu ar ofyn i ddefnyddwyr gyflwyno swm anghymesur o wybodaeth.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

21. Pa ffactorau sy'n bwysig wrth benderfynu pa apiau, gwefannau neu wasanaethau i gyflwyno'r **cyfyngiadau isafswm oed** ar eu cyfer? *Er enghraifft, rhyngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gallu postio deunydd, nodweddion dylunio perswadiol, gweithrediadau ag elfen o risg, gallu creu cyfryngau di-destun fel fideo neu ddelweddau, y grŵp oed targed, maint y gwasanaeth.*
22. A oes unrhyw fathau o apiau, gwefannau neu wasanaethau y teimlwch y dylid eu cynnwys ar gyfer **cyfyngiadau isafswm oed?**
23. Pa ffactorau sy'n bwysig wrth benderfynu pa apiau, gwefannau neu wasanaethau y dylai **cyfyngiadau oed fod ar eu nodweddion neu weithrediadau penodol?** *Er enghraifft, rhyngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gallu postio deunydd, nodweddion dylunio perswadiol, gweithrediadau ag elfen o risg, gallu creu cyfryngau di-destun fel fideo neu ddelweddau, y grŵp oed targed, maint y gwasanaeth.*
24. A oes unrhyw fathau o apiau, gwefannau neu wasanaethau y teimlwch y dylid eu cynnwys ar gyfer **cyfyngiadau oed ar nodweddion / gweithrediadau?**
25. Mae rhai gwasanaethau wedi eu heithrio'n barod o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Er enghraifft gwasanaethau busnes mewnol, rhai gyda gweithrediadau cyfyngedig neu sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr addysg neu ofal plant. A oes unrhyw fathau eraill o wasanaeth y teimlwch y byddai'n briodol eu heithrio o gyfyngiadau oed? *Gallent gynnwys gwasanaethau gyda'r prif bwrpas o ddarparu cynnwys addysgol sy'n cynnig cyfrifon neu fersiynau penodol i blant neu rai yn eu harddegau, neu wasanaethau'n cynnig gosodiadau rhiant.*

## Botiau sgwrsio ac AI

Mae AI Cynhyrchiol yn rhoi cyfle i wella bywydau plant a'u haddysg drwy gefnogi dysgu wedi'i bersonoli, gan helpu pob plentyn i ennill y wybodaeth a'r sgiliau sydd ei angen arnynt a lleihau'r baich gweinyddol ar athrawon. Gall AI hefyd helpu i danio dychymyg a chreadigrwydd plant, er enghraifft drwy gyd-greu straeon neu ddyfeisio cymeriadau neu fydoedd. Gallai plant eu defnyddio fel injans chwilio manwl, i ymchwilio i hobis neu sgiliau, yn enwedig ar bynciau arbenigol neu neilltuol.

**Blwch 2.5:** Cyhoeddodd yr Adran Addysg raglen yn ddiweddar i ddatblygu dulliau tiwtora AI i helpu i wella dysgu a chefnogi'r plant mwyaf difreintiedig. Mae Safonau Diogelwch Cynnyrch newydd ar gyfer addysg yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer dylunio diogel, gan gynnwys: dim anthropomorffeiddio (fel iaith person cyntaf neu efelychu emosiwn); dim dyluniad perswadiol neu gam-ddylanwadu; dim patrymau tywyll; a phrotocolau iechyd meddwl a diogelu cadarn sy'n osgoi iaith sy'n annog ynysu neu 'beidio dweud'. Nod y dulliau gwarchod hyn yw sicrhau bod rhyngweithio plant ag AI yn iach, tryloyw a datblygiadol gywir.

Ar yr un pryd, mae tystiolaeth o'r risgiau a'r heriau o blant yn defnyddio AI cynhyrchiol yn dal i dyfu. Mae'n hanfodol sicrhau bod dulliau AI yn ddiogel, dibynadwy a phriodol i blant.

Mae tystiolaeth gynyddol fod plant y DU yn defnyddio AI yn ddyddiol yn barod. Yn ôl arolwg gan Nominet yn 2026, dywedodd 58% o bobl ifanc (8-17 oed) fod AI yn gwneud eu bywydau'n well, roedd 12% yn anghytuno a bron i hanner (48%) yn dweud bod AI yn rhan bwysig o'u bywyd pob dydd.[38] Meddai Barry Laker, pennaeth gwasanaeth Childline yr NSPCC: "Mae AI yn dod yn rhan reolaidd o brofiadau ar-lein plant. O'i ddefnyddio'n ddiogel a chyfrifol, gall greu cyfleoedd ond hefyd risg, yn enwedig os yw plant yn ansicr beth sy'n real, neu sut y mae AI yn gweithio". Bydd digwyddiad ar-y-cyd rhwng y DSIT a'r NSPCC ym mis Ebrill yn trafod, gan gynnwys gyda phlant, y cwestiwn o effaith AI ar blentyndod ymhellach a sut i'w harneisio fel grym er lles.

System deallusrwydd artiffisial gyda rhyngwyneb iaith naturiol yw botiau sgwrsio AI, sy'n gallu efelychu sgyrsiau 'cig a gwaed' gyda defnyddwyr. Maen nhw'n gallu creu delweddau, fideos, testun a sain ar gais defnyddwyr mewn amser real. Maen nhw hefyd yn gallu cofio cyd-destun a phersonoli atebion i'r unigolyn. Gall y gwasanaethau hyn alw ar amrywiaeth o ddatasetiau gan gynnwys canlyniadau chwilio byw a modelau iaith mawr. Gall bot sgwrsio AI fod yn wasanaeth annibynnol neu wedi'i wreiddio mewn gwasanaeth arall.

Wrth i fotiau sgwrsio ddod yn rhan annatod o fywydau plant, mae'n hanfodol deall y risgiau hyn a sicrhau bod eu rhyngweithio'n parhau i fod yn iach a datblygiadol briodol. Yn ôl arolwg diweddar gan *Internet Matters* mae 64% o blant 9-17 oed yn

[38] Diwrnod Rhyngrwyd Mwy Diogel 2026: Trafod defnydd diogel a chyfrifol o AI

defnyddio botiau sgwrsio AI. O’r rhain, mae 23% wedi troi at fotiau am gyngor ac un o bob wyth (12%) oherwydd nad oes ganddynt neb arall i siarad gyda nhw.[39]

Mae’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn gwarchod plant rhag cynnwys niweidiol neu anghyfreithiol ar fotiau sgwrsio. Mae botiau sgwrsio o fewn sgôp y Ddeddf os gellir naill ai (a) rhannu rhwng defnyddwyr neu (b) chwilio’r we fyw. Mae rhai botiau sgwrsio AI yn ‘galw ar’ ymatebion o fodel sylfaenol yn unig a heb unrhyw weithrediadau rhannu – mae’r rhain allan o sgôp y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ac eithrio os ydynt yn gallu creu cynnwys pornograffig; os felly byddai angen iddynt gydymffurfio â’r ddyletswydd i ddefnyddio dull sicrhau oed tra-effeithiol i sicrhau na fyddai plant fel arfer yn gallu ei ddefnyddio.

Mae’r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi’n glir y byddai’n cymryd camau pellach, gan gynnwys i warchod plant, lle bo angen. Fel y cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 16 Chwefror 2026, bydd y llywodraeth yn cyflwyno pwerau newydd i sicrhau bod gan fotiau sgwrsio sydd y tu allan i sgôp y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar hyn o bryd ddyletswydd i warchod pob defnyddiwr rhag cynnwys anghyfreithlon. Bydd hyn yn sicrhau bod y Ddeddf yn cadw ar y blaen i niweidiau newydd.

Ond daw rhai risgiau o ryngweithio â nodweddion yn hytrach na chynnwys. Er enghraifft, mae dibyniaeth emosiynol yn niwed newydd oddi wrth fotiau sgwrsio ac yn un y gallai plant fod yn arbennig o agored iddo. Awgryma ymchwil i ddefnyddwyr yn UDA ei fod yn risg sylweddol a gwaethygol: gall sesiynau hir, dyluniad anthropomorffig a pharhaus wneud i blant ffurfio ymlyniad para-gymdeithasol gyda botiau sgwrsio, gan eu trin weithiau fel ffrind neu bartner rhamantus.[40]

Mae pryderon ac adroddiadau am blant yn cael niwed difrifol wedi ysgogi rhai gwasanaethau i gyfyngu gweithrediadau i blant.

Rydym eisiau deall pa rai o’r mesurau lliniaru i blant a gynigir yn y bennod hon, er enghraifft isafswm oed, cyfyngu nodweddion a gweithrediadau, neu gyfyngiadau amser, fyddai’n briodol ar gyfer rhai botiau sgwrsio ac, os felly, sut orau i ddiffinio’r is-set yma o wasanaethau.

**Cwestiynau’r Ymgynghoriad**

26. Beth yw’r manteision i blant o ddefnyddio botiau sgwrsio AI? *Er enghraifft gweithrediad chwilio i bwrpas addysgol, ar gyfer creadigrwydd.*
27. Pa nodweddion botiau sgwrsio AI sydd fwyaf o risg i blant? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Realaeth y rhyngweithio, gan gynnwys realaeth y cynnwys a gynhyrchir
    b. Personoli’r rhyngweithio
    c. Sut y maen nhw’n efelychu perthynas (ffrind)

---

[39] Fi, Fy Hun ac AI: Ymchwil Botiau Sgwrsio (2025)
[40] Maples et al. (2024), Lliniaru unigrwydd a hunan-laddiad i fyfyrwyr yn defnyddio botiau sgwrsio GPT3

    d. Sut y maen nhw'n efelychu perthynas (ramantus)
    e. Sut y maen nhw'n efelychu empathi
    f. Iaith ffafriol / ganmol
    g. Nodweddion i annog mwy o gwestiynau / ceisiadau (e.e. gofyn cwestiynau'n ôl)
    h. Gallu cofio'r sgwrs ryngweithio o sesiwn i sesiwn
    i. Y math o gynnwys a gynhyrchir – a) fideo, b) testun, c) sain, ch) delwedd
    j. Gadael i blant gael cyfrifon
    k. Rhith-hunllefau neu atebion ffug, camarweiniol
    l. Gallu ymgysylltu gyda, a chreu, cynnwys aeddfed (e.e. chwarae rôl rywiol / ramantus)
    m. Ateb arall (rhowch fanylion)
    n. Yr un o'r uchod / nid yw nodweddion botiau sgwrsio AI yn risg i blant
    o. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

28. Pa weithrediadau botiau sgwrsio AI y dylid cyflwyno cyfyngiadau isafswm oed ar eu cyfer?
29. A ddylai fod gan fotiau sgwrsio AI gyfyngiadau isafswm oed?
    a. Dylai – gofynion isafswm oed ar gyfer botiau sgwrsio AI
    b. Dylai – cyfyngu mynediad at rai nodweddion a gweithrediadau
    c. Dylai – gofynion isafswm oed a chyfyngu mynediad at rai nodweddion a gweithrediadau
    d. Na ddylai
    e. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

    Rhowch resymau am eich ateb os gwelwch yn dda.

*30.* Beth yn eich barn chi fyddai effaith cyflwyno cyfyngiadau oed ar gyfer botiau sgwrsio AI neu rai nodweddion a gweithrediadau? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

# Pennod 3: Cydymffurfio a gorfodaeth effeithiol o reolau diogelwch ar-lein

Bydd rheolau ond yn gweithio os ydynt yn glir ac yn cael eu gorfodi'n iawn. Rydym eisiau sicrhau bod gan rieni a gofalwyr wybodaeth glir am sut y mae mesurau gorfodaeth yn gweithio, i'w helpu i deimlo'n hyderus bod y rheolau a ddyfeisiwyd i warchod plant ar-lein yn ystyrlon a chadarn.

Mae angen ffordd ddibynadwy o ddweud ai plentyn neu beidio yw defnyddiwr wrth gyflwyno gwahanol warchodaeth ar-lein i blant. Rhaid i ddulliau sicrhau oed fod yn gywir, dibynadwy, hawdd i'w defnyddio ac anodd i'w hosgoi. Mae hyn yn bwysig i'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'r ddeddfwriaeth diogelu data, ac ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau rheoleiddio newydd a drafodir yn y bennod flaenorol. Bydd unrhyw ddulliau gorfodaeth newydd yn adeiladu ar, ac ategu'r dulliau presennol o gadw plant yn ddiogel ar-lein, gan gynnwys y dyletswyddau diogelu-drwy-ddyluniad a'r Codau Ymarfer presennol ar gyfer Gwarchod Plant. Dylai gwella technolegau gorfodaeth, gan gynnwys ar gyfer sicrhau oed, adeiladu ar ofynion y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ar hyn, yn lle ei ystyried fel gorfodaeth ar wahân.

Mae'r ICO yn chwarae rôl orfodaeth weithredol yn erbyn llwyfannau sy'n gosod gofynion isafswm oed ond yn methu ag atal plant dan yr oed hwnnw rhag eu defnyddio ac felly'n prosesu data plant heb sail gyfreithlon. Roedd hyn yn cynnwys dirwyon o dros £14m i un gwasanaeth ar-lein adnabyddus. Mae'r ICO hefyd yn monitro defnyddio hunan-ddatganiad fel y prif ddull o sicrhau oed gan wasanaethau sydd ag isafswm oed o 13, a hyrwyddo dulliau cryfach, fel rhan o'i Strategaeth Plant ehangach.

Mae'r bennod hon yn edrych ar y sefyllfa bresennol gyda sicrhau oed gan holi barn am ba welliannau i'w gwneud, yn enwedig rhai a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer unrhyw gyfundrefn seiliedig ar oed penodol. Mae hefyd yn gofyn cwestiynau am ba fath o dechnolegau sicrhau oed sy'n debygol o fod yn ffordd briodol o orfodi gwahanol fathau o gyfyngiadau oed. Mae hefyd yn edrych ar orfodi unrhyw ofynion rheoleiddio newydd a'r canllawiau i ysgolion ar ddefnyddio ffonau symudol.

## Gwella sicrhau oed

Ynghyd â rhoi'r rheolau iawn yn eu lle, rhaid i ni sicrhau eu bod yn cael eu gorfodi'n effeithiol. Os yw gwarchodaeth yn dibynnu ar gyfyngiadau oed, rhaid i wasanaethau fod yn gallu gwirio oed defnyddiwr.

Er mai technolegau sicrhau oed tra-effeithiol yw'r ateb mwyaf cynhwysfawr i wirio oed, maen nhw hefyd yn cyflwyno gofynion ar gyfer defnyddwyr. Yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, penderfynwyd bod hyn yn briodol i atal plant rhag cael mynediad at y llwyfannau neu gynnwys mwyaf anaddas, fel pornograffi neu gynnwys hunan-

laddiad. Bydd yn bwysig i unrhyw ddulliau sicrhau oed fel rhan o fesurau i'w cymryd gan y llywodraeth yn y dyfodol fod yn gymesur ac effeithiol. Pe baem yn cyflwyno cyfyngiadau oed graddol ar gyfer gwahanol weithrediadau, gallai mathau eraill o sicrhau oed daro'r cydbwysedd gorau rhwng bod yn gyfeillgar i ddefnyddwyr, effeithiol, cymesur a diogelu preifatrwydd. Mae goblygiadau bod gan blant 13 oed gyfyngiadau amser sgrîn a ddyluniwyd ar gyfer rhai 15 oed yn wahanol i oblygiadau bod plant 13 oed yn gallu mynd ar wefannau porn, er enghraifft.

Rydym eisiau deall sut y gallai'r llywodraeth orau gefnogi gwasanaethau i fabwysiadu sicrhau oed a thechnolegau oed, gan gynnwys eu gwneud yn haws i ddefnyddwyr eu defnyddio, a sicrhau bod teuluoedd yn teimlo'n hyderus a diogel am eu plant yn eu defnyddio. Gallai olygu gwella sut y mae gwirio oed yn gweithio ar draws gwahanol wasanaethau, eu gwneud yn fwy rhyngweithredol er enghraifft, neu gynnig opsiynau lefel-dyfais, fel bo'n haws cymhwyso mesurau gwarchod ac i rieni a gofalwyr ymddiried ynddynt.

Gweithredir sicrhau oed ar draws y DU yn barod. Yn ôl Ofcom, mae 7.8m o ymwelwyr y dydd o'r DU yn defnyddio gwasanaethau oedolion sy'n gwirio oed.[41] Ar y cyfan mae'r technegau presennol yn effeithiol i wahaniaethu rhwng oedolion a rhai dan 18 oed.

**Blwch 3.1.** Beth yw sicrhau oed? Mae sicrhau oed yn cyfeirio at wirio oed ac amcangyfrif oed, yn ôl y diffiniad yn adran 230 y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. I'r pwrpasau hyn, ni ystyrir bod hunan-ddatgan oed yn ddull o sicrhau oed.

Mae heriau o ran mabwysiadu sicrhau oed yn ehangach yn y DU. Ar hyn o bryd mae llai o ddulliau ar gael i wahaniaethu rhwng plentyn 14 a 16 oed, er bod y perfformiad ar hyn yn gwella. Nod yr ymgynghoriad hwn yw sefydlu sut i sicrhau bod y technolegau'n parhau i ddatblygu a dod yn fwy cywir.

Roedd hyn yn fater a ystyriwyd yn fanwl gan y Treial Technoleg Sicrhau Oed yn Awstralia, a barodd flwyddyn ac a gynhaliwyd gan gwmni o'r DU. Cyflwynir y canlyniadau lefel-uchel ym Mlwch 3.2.

**Blwch 3.2:** Penderfynodd Lywodraeth Awstralia dalu i gwmni o'r DU, *Age Check Certification Scheme* (ACCS) i gynnal Treial Technoleg Sicrhau Oed, i edrych ar opsiynau ar gyfer gwarchod plant rhag niwed ar-lein, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol a chynnwys gyda chyfyngiadau oed fel pornograffi. Prif ganfyddiad y treial hwnnw yw, er nad oes un esgid i ffitio pawb o ran ateb, ei bod yn bosib gweithredu sicrhau oed yn Awstralia'n breifat, effeithlon ac effeithiol. Fodd bynnag, cododd y treial ystyriaethau eraill, pwysig wrth ddefnyddio sicrhau oed ar gyfer defnyddwyr iau. Er enghraifft, gall gwirio oed fod yn heriol i blant oherwydd eu mynediad cyfyngedig at brawf adnabod caled. Hefyd, noda'r adroddiad bod y technolegau amcangyfrif oed wyneb a brofwyd yn llai cywir ar gyfer defnyddwyr iau,

[41] Adroddiad gwledydd ar-lein 2025, p.44

a bod ganddynt lefelau uwch o ansicrwydd yn enwedig wrth benderfynu oed defnyddwyr sy'n agos i'r trothwy 16+ neu 18+ oed. Mae'r canfyddiadau hyn yn nodi'n glir yr amgylchiadau pryd y gallai fod angen dull mwy haenog o sicrhau oed. Hynny yw, pe gofynnid i ddefnyddiwr gymryd camau ychwanegol i wirio eu hoed – gan ofyn am fwy neu wahanol fath o wybodaeth dim ond pe bai'r dulliau blaenorol yn ddigon neu'n amhendant.

Mae pryderon preifatrwydd hefyd yn codi, yn enwedig lle bo rhai dulliau'n golygu plant yn rhannu data personol. Mae hyn yn aml oherwydd bod yn rhaid i ddefnyddwyr wirio eu hoed gyda nifer o wasanaethau ar-lein, drwy wahanol ddarparwyr sicrhau oed trydydd parti, wrth symud drwy'r we. Mae ymddiried mewn arferion preifatrwydd dulliau sicrhau oed yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio'r mesurau hyn.

Yn olaf, mae cwestiwn o fod yn gymesur i'w ystyried. Un ffordd o sicrhau'r dull cryfaf posib o gyflwyno unrhyw gyfyngiadau oed newydd fyddai ei gwneud yn ofynnol i bob defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol yn y DU wirio eu hoed ar-lein, er enghraifft pe bai gwahardd plant o bob cyfryngau cymdeithasol yn dod i rym. Nid dyma'r llwybr a gymrodd Awstralia – gall llwyfannau ddefnyddio ystod o fesurau sicrhau oed fel gwirio oed, amcangyfrif oed a dod i gasgliad am oed drwy bwyntiau data defnyddwyr. Mae canllawiau rheoleiddio Comisiynydd eDdiogelwch Awstralia'n nodi'r egwyddorion y dylai llwyfannau eu dilyn i atal defnyddwyr a gyfyngir gan oed rhag cael cyfrif. Noda'r canllawiau y dylai'r camau a gymerir fod yn ddibynadwy, cywir, cadarn ac effeithiol; diogelu preifatrwydd a lleihau data; yn hygyrch, cynhwysol a theg; yn dryloyw; yn gymesur; yn seiliedig ar dystiolaeth; ac yn ymatebol i dechnoleg a risgiau newydd.

Mae'r canllawiau eDdiogelwch hefyd yn annog llwyfannau i ddefnyddio 'dilysu olynol' neu ddull haenog o sicrhau oed. Mae hyn yn golygu defnyddio nifer o ddulliau sicrhau oed yn olynol i roi mwy o sicrwydd ynghylch oed defnyddiwr drwy greu darlun o oed y defnyddiwr o wahanol fewnbwn. Er enghraifft, gallai llwyfan cyfryngau cymdeithasol amcangyfrif oed wyneb i asesu oed i ddechrau. Pe bai hyn yn rhoi sgôr hyder isel ar gyfer oed y defnyddiwr, gallai'r llwyfan yna gynnig dull gwirio oed i'r defnyddiwr, fel cyfateb i lun ID. Mae defnyddio dulliau dilysu olynol yn cydnabod na fydd un dull sicrhau oed yn unig yn gweithio'n berffaith i bawb, ym mhob cyd-destun.

O ran sicrhau oed yn benodol, mae canllawiau Ofcom ar sicrhau oed tra-effeithiol yn cynnwys yr egwyddor o gadernid ac mae'n ofynnol i wasanaethau gymryd camau priodol i liniaru yn erbyn dulliau osgoi sy'n hawdd i blant gael gafael arnynt. Mae gan Ofcom hefyd ddyletswydd statudol i gyhoeddi adroddiad ar sut y defnyddir sicrhau oed i gydymffurfio â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein erbyn Gorffennaf 2026. Mae hyn yn debygol o fod yn gyfle i asesu effeithiolrwydd dulliau sicrhau oed ac unrhyw dechnegau neu atebion osgoi sy'n bygwth eu gwneud yn llai effeithiol.

Rydym yn croesawu barn drwy'r ymgynghoriad hwn a'r sgwrs genedlaethol ehangach am ba ddulliau rhyngwladol sy'n gosod safonau priodol i'w dilyn.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

31. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiad hwn: "Dylai oedolion gwblhau gwiriadau oed yn amlach, os yw'n golygu bod plant yn fwy diogel ar-lein"?
    a. Cytuno'n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno'n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
32. Beth sydd angen ei ystyried i wneud cyfyngiadau isafswm oed yn effeithiol ac ymarferol? *Gallai olygu naill ai cyfyngiadau oed i ddefnyddio gwasanaethau cyfan, neu nodweddion neu weithrediadau 'caethiwus' neu gyda risg.*
33. Beth yw eich barn am effeithiau posib gwneud sicrhau oed yn ofynnol ar gyfer nifer fwy o lwyfannau ar-lein? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*
34. Sut, os o gwbl, y gellid gwneud sicrhau oed yn fwy effeithiol?
35. Beth ddylid ei ystyried wrth asesu effeithiolrwydd technolegau gwirio oed a sicrhau oed?

## Osgoi cyfyngiadau oed

Wrth ddatblygu ein dull newydd, rhaid ystyried sut i ddelio gyda dulliau osgoi. Mae llawer o blant yn dechnolegol ddeallus ac yn debygol o fod yn ymwybodol o ffyrdd technegol a annhechnegol posib o osgoi rheolau neu gyfyngiadau newydd. Mae angen dod o hyd i atebion cadarn. Ar yr un pryd, rhaid bod yn gymesur ac ni ddylai ein dulliau gyfyngu mynediad plant yn anfwriadol at gynnwys ar-lein llesol, na chyfyngu ar ddefnydd cyfreithlon a chyfreithiol oedolion o ddulliau fel Rhwydweithiau Preifat Rhithwir (VPN) neu dechnolegau rhwydweithiau preifat tebyg.

**Blwch 3.3:** Beth yw rhwydwaith VPN? Dulliau yw rhwydweithiau VPN sy'n cuddio eich gweithgareddau a'ch lleoliad ar y we drwy greu cysylltiad preifat sicr rhwng eich dyfais a'r we. Defnyddir VPN am resymau cyfreithlon, er enghraifft ar gyfer gweithio o bell a mynediad busnes, diogelu cyfathrebiadau sensitif a gwarchod preifatrwydd.

Ar ôl i ofynion sicrhau oed tra-effeithiol ddod yn orfodol yn y DU, dyblodd y defnydd o rwydweithiau VPN o tua 650,000 o ddefnyddwyr dyddiol cyn 25 Gorffennaf 2025 i frig o dros 1.4 miliwn o ddefnyddwyr erbyn canol Awst 2025. Roedd hyn wedi gostwng yn raddol i tua 980,000 o ddefnyddwyr erbyn diwedd 2025.[42]

[42] Ofcom (2025), Adroddiad gwledydd ar-lein 2025, p.5

Oherwydd natur y VPN, mae'n amhosib gwybod faint o'r defnyddwyr hyn oedd yn blant. Fodd bynnag, nid yw'r dystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y cynnydd mewn defnyddwyr VPN wedi'i yrru gan blant yn ceisio osgoi prosesau sicrhau oed.

Mae nifer o resymau pam y gallai plant fod eisiau defnyddio VPN, ond y prif reswm, fel yn achos oedolion, yw er mwyn y preifatrwydd a'r manteision diogelu data a gynigir. Er enghraifft, gall VPN ddiogelu data ar lefel uwch wrth gysylltu i WiFi cyhoeddus ac ychwanegu lefel ychwanegol o ddiogelwch wrth fancio ar-lein.

**Blwch 3.4.** Yn ôl *Internet Matters,* defnyddiodd 8% o blant VPN yn y 12 mis diwethaf a 66% o'r rhai sy'n ei ddefnyddio'n gwneud hynny i ddiogelu eu data personol.[43] Yn ôl 38% o blant sy'n defnyddio VPN a holwyd gan Childnet, aros yn ddiogel ar-lein a gwarchod eu preifatrwydd oedd eu rhesymau.[44]

Mae ffyrdd eraill annhechnegol y gall plant osgoi rheolau diogelwch ar-lein, er enghraifft defnyddio cyfrif rhywun arall, neu newid neu rannu dyfeisiau gyda brodyr a chwiorydd ac oedolion.

Er yn cydnabod wrth gwrs nad oes unrhyw ddull yn ateb perffaith – ni fydd yr un rheol reoleiddio'n atal brawd neu chwaer rhag rhannu dyfais – mae'r ymgynghoriad hwn yn holi barn am sut i wneud y darpariaethau diogelwch ar-lein presennol a newydd i blant mor gryf â phosib, er mwyn lleihau cyfraddau osgoi. Dyna pam fod angen deall sut y mae plant yn defnyddio rhwydweithiau VPN, a dulliau eraill o osgoi sicrhau oed, a'r opsiynau sydd ar gael i adnabod ac atal hynny. Holwn hefyd am y goblygiadau pellach pe bai'r llywodraeth yn cyfyngu defnyddio rhwydweithiau VPN i blant.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

36. Pa ddulliau osgoi rheolau diogelwch ar-lein ydych yn meddwl y mae plant yn y DU yn eu defnyddio ar wahân i Rwydweithiau Preifat Rhithwir (VPN) neu dechnolegau tebyg?
37. Pa opsiynau isod y teimlwch ddylai'r llywodraeth eu blaenoriaethu i leihau osgoi rheolau diogelwch ar-lein yn y DU? (Dewiswch yr un sydd bwysicaf i chi)
    a. Mwy o addysg i blant
    b. Cyfyngu mynediad plant at rwydweithiau VPN
    c. Yr un o'r uchod
    d. Ateb arall (rhowch fanylion)
    e. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
38. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "Dylai pawb orfod gwirio eu hoed i ddefnyddio VPN pe bai'n atal plant rhag eu defnyddio"
    a. Cytuno'n gryf

[43] Plant ddim yn defnyddio rhwydweithiau VPN i osgoi gwarchodaeth (2025)
[44] Defnydd pobl ifanc o rwydweithiau VPN (2025)

    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno'n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

39. Beth y teimlwch fyddai'r effeithiau pe bai cyfyngiadau oed ar rwydweithiau VPN? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*
40. Beth ddylid ei ystyried i wneud rhwydweithiau VPN gyda chyfyngiadau oed yn effeithiol ac ymarferol? *Er enghraifft, hyder ac ymgysylltiad y cyhoedd â gofynion sicrhau oed pellach, hygyrchedd dulliau sicrhau oed a dulliau sicrhau oed amrywiol ar draws gwasanaethau, rhyngweithio gyda defnyddiau cyfreithlon o rwydweithiau VPN.*

## Gorfodi polisïau ffonau symudol mewn ysgolion

Mae tystiolaeth gynyddol fod ffonau symudol yn effeithio ar amgylchedd ysgolion drwy gyfrannu at golli ffocws ac aflonyddwch mewn gwersi.[45] Gall bod â ffôn symudol yn eu meddiant dynnu sylw disgyblion o'u gwersi a gall gymryd hyd at 20 munud iddynt adnewyddu eu ffocws ar ôl colli sylw.[46] Mae ysgolion sy'n cyfyngu neu'n gwahardd ffonau symudol yn aml yn adrodd ystod o fanteision, gan gynnwys canolbwyntio gwell, llai o gyfle i fwlio – ar-lein ac all-lein – ac weithiau rhywfaint o welliant mewn perfformiad academaidd.[47]

Fodd bynnag, er bod gan y mwyafrif helaeth o ysgolion bolisïau ar ffonau symudol, maen nhw'n dal i achosi aflonyddwch mewn gwersi. Yn ôl y Comisiynydd Plant, roedd gan 99.8% o ysgolion cynradd a 90% o ysgolion uwchradd bolisi ffonau symudol oedd yn cyfyngu ar ddefnydd disgyblion o'u ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol.[48] Er hyn, dengys data gan yr Adran Addysg fod 58% o ddisgyblion ysgolion uwchradd wedi adrodd y defnyddiwyd dyfeisiau symudol pryd na ddylent gael eu defnyddio mewn rhai gwersi o leiaf.[49] Dengys data NASUWT fod dros 50% o athrawon ysgol uwchradd yn dweud mai ffonau symudol (e.e. tecstio, camerâu) yn tynnu sylw oedd un o'r prif bryderon ymddygiad o ddydd i ddydd.[50]

I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod pob ysgol yn amgylchedd di-ffôn symudol fel disgwyliad diofyn, ac y gall pob ysgol orfodi eu

---

[45] Canllawiau i rieni ar gyfathrebu polisïau ar wahardd defnyddio ffonau symudol mewn ysgolion (2026)
[46] G Hirata (2022), Chwarae i Ddysgu: Effaith Technoleg ar Berfformiad Mathemateg Myfyrwyr, Journal of Human Capital: Cyfrol 16, Rhif 3
[47] Mansfield et al. (2024), O Blaid Gwahardd Ffonau Symudol mewn Ysgolion
[48] Polisïau ffonau symudol yn Lloegr (2025)
[49] Cyfathrebu polisïau ar wahardd ffonau symudol mewn ysgolion i rieni (2026)
[50] NASUWT (2024), Arolwg y Cwestiwn Mawr.

polisi. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau cryfach sy'n glir y dylai pob ysgol fod yn amgylchedd di-ffôn symudol. Mae hyn yn golygu dim ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol gan gynnwys yn y wers, yr amser rhwng gwersi, amseroedd egwyl a chinio. O fis Ebrill ymlaen, bydd Ofsted hefyd yn edrych ar bolisïau ffonau symudol ysgolion a pha mor effeithiol y gweithredir y polisi wrth farnu ymddygiad mewn arolygiad. Hefyd, gall ysgolion sydd angen help arnynt dderbyn cymorth un-i-un gan ysgolion arweiniol Hỳb Presenoldeb ac Ymddygiad yr Adran Addysg, sydd wedi eu gwasgaru ar draws pob rhan o'r wlad ac eisoes yn gweithredu dulliau di-ffôn symudol yn effeithiol.

Rydym yn holi barn i weld a oes angen gwneud mwy i gefnogi ysgolion i fod yn ddi-ffôn symudol, gan gynnwys a ddylid cyflwyno rhwymedigaeth statudol newydd ar ysgolion i ystyried canllawiau ar ffonau symudol mewn ysgolion. Byddai hyn yn golygu bod gan ysgolion ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn y canllawiau (oni bai fod ganddynt resymau da dros beidio).

Byddai penaethiaid yn parhau i benderfynu sut i wneud eu hysgol yn ddi-ffôn symudol. Byddai hyn yn parhau i roi hyblygrwydd i blant a allai fod ag anghenion ychwanegol, er enghraifft gyda chyflyrau meddygol penodol, gan hefyd greu sefyllfa gyfreithiol newydd i ysgolion, rhieni a gofalwyr.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

*41.* I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "I fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebir gan ysgolion gyda ffonau symudol, dylid gwneud canllawiau anstatudol yr Adran Addysg ar 'ffonau symudol mewn ysgolion' yn statudol." *Byddai hyn yn golygu bod gan ysgolion ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn y canllawiau, sy'n egluro i ysgolion ac ymddiriedolaethau unigol sut i weithredu polisi sy'n gwahardd defnyddio ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol, a rhoi rhesymau da dros beidio. Mae hyn yn cynnwys yn y wers, yr amser rhwng gwersi, amseroedd egwyl a chinio.*

   a. Cytuno'n gryf
   b. Cytuno i raddau
   c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
   d. Anghytuno i raddau
   e. Anghytuno'n gryf
   f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

*42.* Pa effeithiau fyddai pe bai'r canllawiau hyn yn dod yn statudol a pham? *Er enghraifft, effaith ar aflonyddu ar wersi, bwlio neu harasio, barn rhieni am bolisïau ffonau symudol, staff, ayyb.*

43. A oes amgylchiadau penodol pryd y dylai plant gael ffôn symudol neu ddefnyddio ffôn symudol yn ystod y diwrnod ysgol? (Dewiswch bob un perthnasol)

   a. Anghenion meddygol
   b. Gofynion Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND)

c. Pryderon diogelu unigol
d. Cyfrifoldebau gofalu
e. Pwrpasau addysgol neu ddysgu
f. Teithio i ac o'r ysgol
g. Yr un o'r uchod, ni ddylai plant gael ffôn symudol neu ddefnyddio ffôn symudol yn ystod y diwrnod ysgol o gwbl.
h. Yr un o'r uchod, dylai plant bob amser gael ffôn symudol neu ddefnyddio ffôn symudol yn ystod y diwrnod ysgol.
i. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
j. Ateb arall (rhowch fanylion)

# Pennod 4: Paratoi plant ar gyfer dyfodol digidol a chyfoethogi eu profiadau ar-lein

Fel y noda'r Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol, pobl ifanc heddiw yw'r genhedlaeth gyntaf i dyfu fyny'n llwyr mewn byd digidol, gan ddylanwadu ar bob agwedd ar eu bywydau.

Rhaid i blentyndod da mewn oes ddigidol fod yn un lle y mae plant yn cael profiadau positif a chyfoethog – ar-lein ac all-lein – ac un sy'n eu paratoi i wneud y mwyaf o gyfleoedd y dyfodol digidol.

Mae'r bennod hon yn trafod sut orau i gefnogi plant i ennill sgiliau llythrennedd cyfryngau a digidol hanfodol i'w helpu i ddeall a defnyddio gofodau digidol yn hyderus a chreu arferion iach. Bydd hyn yn arbennig o allweddol i gyd-fynd ag unrhyw un o'r newidiadau – a drafodir ym Mhennod 3 – i sicrhau nad oes yr un plentyn yn wynebu 'ymyl dibyn' neu'n amharod i ymdopi â'r risgiau a'r heriau wrth ymuno â chyfryngau cymdeithasol neu ar ôl tyfu'n oedolyn.

Trafodwn hefyd beth yn fwy y gellir ei wneud i sicrhau bod cynnwys o ansawdd uchel ar gael i blant sy'n cefnogi eu twf a'u datblygiad.

## Adeiladu llythrennedd cyfryngau a sgiliau digidol hanfodol

Mae plant yn defnyddio gofodau digidol i ddysgu, cymdeithasol a darganfod y byd. Mae llythrennedd cyfryngau a digidol da'n helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel a'u helpu i wneud synnwyr o'r hyn a welant. Mae addysgu plant yn gynnar sut i ddefnyddio'r we'n ddiogel a hyderus yn hollbwysig i sicrhau bod y wybodaeth ganddynt i fwynhau'r pethau da am fod ar-lein: yn eu helpu i wneud dewisiadau da, meddwl yn ofalus am wybodaeth, a defnyddio technoleg yn bositif a chreadigol. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn eu helpu yn yr ysgol ac mewn swydd.

**Blwch 4.1: Llythrennedd cyfryngau** yw deall, cwestiynu a gwneud synnwyr o'r cynnwys a welwch ar-lein. Mae'n helpu plant i wahaniaethu rhwng ffaith a barn, gwirio ffynonellau ac asesu a fedrant ymddiried ynddynt, ac i adnabod sut y gall cynnwys ar-lein effeithio ar feddyliau, teimladau ac ymddygiad.

**Llythrennedd digidol** yw bod â'r sgiliau ymarferol i ddefnyddio dyfeisiau a gwasanaethau ar-lein yn ddiogel, hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i sefydlu a defnyddio dyfeisiau, adnabod sgamiau, diogelu gwybodaeth bersonol a rheoli tasgau digidol pob dydd.

Mae angen gwahanol lefel o gymorth ar blant, ar wahanol adegau yn eu datblygiad. Mae hefyd angen cymorth arnynt ar yr amser iawn, i'w cynorthwyo i

ddeall ac ymateb yn briodol i risgiau cyn dod i gysylltiad â nhw. Mae'r adegau allweddol hyn yn cynnwys wrth gael eu ffôn symudol cyntaf, fel arfer erbyn 11 oed heddiw, a hefyd wrth ymuno â'r cyfryngau cymdeithasol. Os yw isafswm oed i'w gyflwyno ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol neu wasanaethau gyda gweithrediadau penodol, rhaid ystyried yr amseru a natur y cymorth a roddir i blant.

Fel y noda **Blwch 4.1**, mae llythrennedd digidol a chyfryngau'n cynnwys cyfres eang ac amrywiol o gymwyseddau. Er mwyn gwella profiadau plant ar-lein, canolbwyntiwn ar eu helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd ei angen arnynt i adnabod ac ymateb yn briodol i gynnwys anghyfreithlon a niweidiol, a hefyd i ddeunydd camarweiniol a chynhennus. Rydym hefyd yn blaenoriaethu sut orau i arfogi plant i reoli ac ymwrthod â defnydd gormodol o lwyfannau ar-lein i bwrpas adloniant. Bydd angen trin pob un o'r pethau hyn drwy eu teilwrio ar gyfer oed a chynnwys.

Mae hyrwyddo a gwella llythrennedd digidol a chyfryngau'n dasg gymhleth a hirdymor sydd angen ymdrech gan gymdeithas gyfan a'r llywodraeth gyfan. Daw ein dull ni â'r ystod lawn o bwerau dylanwadu ar draws adrannau canolog, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr a sefydliadau cyhoeddus at ei gilydd. Er bod gan bob sefydliad – adrannau'r llywodraeth, cynghorau, Ofcom, ysgolion, prifysgolion, llyfrgelloedd, elusennau, sefydliadau newyddion neu lwyfannau ar-lein – rôl benodol i'w chwarae, credwn fod eu heffaith yn gryfach wrth weithio mewn partneriaeth, fel y gwelwn o'r enghreifftiau isod. Drwy gydlynu mewnwelediad a gweithredu ar draws y partneriaid oll, gall y llywodraeth ddarparu canlyniadau llythrennedd cyfryngau cryfach, mwy cyson a gwydn. Wrth galon y dull hwn y mae'r egwyddorion canlynol: cefnogi pobl lle y maen nhw, gan gynnwys drwy ysgolion, yn y gymuned ac ar-lein, gwneud defnydd o'r holl bwerau dylanwadu, partneriaethau a sianeli darparu; a rhannu a defnyddio beth sy'n gweithio, ar draws llywodraeth, diwydiant a rheoleiddwyr.

Mae'r rhan yma'n trafod gwaith sydd eisoes ar y gweill gan holi barn am beth yn fwy y gellir ei wneud i helpu i arfogi ein plant gyda'r sgiliau a'r gwydnwch sydd ei angen arnynt i ffynnu mewn byd digidol.

Mae strategaeth llythrennedd cyfryngau Ofcom wedi'i hangori yn Neddf Cyfathrebu 2003, gyda dyletswydd i hyrwyddo llythrennedd cyfryngau. Cyflwynodd Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 (OSA) amcanion llythrennedd cyfryngau newydd gyda ffocws ar bobl a effeithir gan niwed gan gynnwys merched a genethod, diogelu data personol, cynnwys o bwysigrwydd democrataidd, a chamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Mae strategaeth Ofcom yn mynd i'r afael â'r gofynion hyn gan gydnabod bod nifer fawr o actorion eisoes yn gweithio mewn llythrennedd cyfryngau a mapio sut y bydd Ofcom yn gweithio gyda nhw i ddeall a hyrwyddo "beth sy'n gweithio" drwy ymchwil a gwerthuso. Mae Ofcom hefyd yn gweithio gyda llwyfannau i ddylanwadu ar ddyluniad ac yn y gymuned i ddatblygu sgiliau llythrennedd cyfryngau grwpiau blaenoriaeth mewn ardaloedd gydag anfantais ariannol, gan gynnwys mewn dros 150 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y DU.

Hefyd, o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, mae'n ofynnol i Ofcom gyhoeddi datganiad yn argymell sut y gallai gwasanaethau ddatblygu, hyrwyddo a gwerthuso gweithgareddau neu brosiectau perthnasol i lythrennedd cyfryngau. Dyluniwyd y Datganiad Argymhellion i helpu ystod eang o wasanaethau (gan gynnwys gwasanaethau ar-lein a darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus) i gymryd camau gweithredol i rymuso'r cyhoedd drwy roi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ei angen arnynt i ymgysylltu'n feirniadol a diogel â'r cynnwys a welant.

## Cefnogi plant yn yr ysgol

Mae gan ysgolion rôl hollbwysig i'w chwarae. Mae'r llywodraeth eisoes wedi diweddaru'r canllawiau Addysg Perthynas, Rhyw ac Iechyd fel bod plant yn dysgu am risgiau ar-lein, gan gynnwys merch-gasineb, ffugiadau dwfn a deallusrwydd artiffisial, a hefyd sut i adnabod a herio camwybodaeth. Byddwn yn adeiladu ar hyn drwy ychwanegu mwy o wybodaeth a sgiliau cymhwysol i'r cwricwlwm cenedlaethol, gan gynnwys llythrennedd digidol a chyfryngau. Byddwn yn ymgynghori nes ymlaen eleni ar newidiadau i'r cwricwlwm ac yn ymrwymedig i weithio gydag athrawon, disgyblion, rhieni, gofalwyr ac arbenigwyr er mwyn deall sut orau i gefnogi addysgu llythrennedd cyfryngau a digidol yn effeithiol.

Mae rhaglenni'r llywodraeth hefyd yn cefnogi athrawon a disgyblion yn uniongyrchol. Maen nhw'n cynnwys y rhaglen **Tech Youth** i helpu miliwn o ddisgyblion uwchradd i ddysgu am dechnoleg gan gynnwys AI, ac i ystyried gyrfaoedd posib; cymorth i'r **Ganolfan Addysg Gyfrifiadurol Genedlaethol**, er mwyn hybu hyder athrawon mewn llythrennedd digidol ac AI; gwaith gyda **Connect Futures** i greu hyfforddiant llythrennedd cyfryngau i athrawon ar wrth-eithafiaeth; a chyllid blaenorol i raglen **Empower** yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol sy'n helpu disgyblion i ymgysylltu'n hyderus â ffynonellau newyddion. Yn 2025 cyhoeddodd yr Adran Addysg ddeunyddiau cymorth ar-lein i addysgwyr ac arweinwyr ar sut i ddefnyddio AI yn ddiogel ac effeithiol, sydd wrthi'n cael eu diweddaru i gynnwys staff cymorth.

Bydd y cymorth hwn i ysgolion ac athrawon yn parhau i esblygu. Trafodwn y Cynllun Gweithredu Llythrennedd Cyfryngau sydd ar y gorwel yn fwy manwl isod. Un o'i brif flaenoriaethau fydd cryfhau'r cymorth i blant drwy ysgolion, gan gynnwys helpu athrawon i deimlo'n fwy hyderus i addysgu myfyrwyr sut i adnabod gwybodaeth ffug, deall gwaith cyfryngau cymdeithasol ac AI ac aros yn ddiogel ar-lein. Mae'r llywodraeth hefyd yn datblygu 'llwybr' sgiliau digidol i addysgwyr i gefnogi integreiddio a defnyddio technoleg yn ddiogel yn yr ysgol.

## Eu cefnogi yn y gymuned ac mewn lleoliadau eraill

Er bod gan ysgolion rôl bwysig, mae angen cyfle ar blant i adeiladu'r sgiliau hyn y tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd. Gall lleoliadau cymunedol fel llyfrgelloedd a chlybiau ieuenctid fod yn llefydd diogel a chyfarwydd i blant gael dysgu ac ymarfer y sgiliau hyn.

Rhwng 2021 a 2024, rhoddodd y llywodraeth bron i £2m mewn arian grant i fudiadau cymunedol a thrydydd sector i ddarparu prosiectau llythrennedd cyfryngau. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cefnogi ystod o brosiectau yn y gymuned sy'n gweithio i helpu cyfranogwyr i gryfhau eu sgiliau meddwl beirniadol, adnabod gwybodaeth ddibynadwy a deall sut y gall cynnwys ar-lein effeithio ar eu lles.

Yn y blynyddoedd diwethaf, comisiynwyd 13 o fudiadau i ddarparu prosiectau llythrennedd cyfryngau yn lleol ac yn y gymuned. Roedd ffocws y prosiectau ar bobl oedd naill ai wedi datgysylltu o gymorth llythrennedd cyfryngau neu'n anghymesur o fregus i niwed ar-lein. Dyfeisiwyd y rhaglenni hyn i wella sgiliau meddwl beirniadol y cyfranogwyr, cryfhau eu gwydnwch i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a'u helpu i ddeall effaith cynnwys ar-lein ar eu lles, gyda phob prosiect yn destun gofynion gwerthuso cadarn.

Dangosodd y gwaith hwn, a ddarparwyd gyda chymorth gan bartneriaid arbenigol, fod gweithgareddau hwyliog, creadigol ac ymarferol, fel gemâu a thasgau ymarferol, yn gweithio'n arbennig o dda, yn enwedig pan fydd plant yn helpu i'w dylunio.[51]

Gwyddom fod arfogi plant ag addysg ddigidol traws-ddisgyblaeth o ansawdd uchel yn greiddiol i sicrhau eu bod yn ffynnu ar-lein ac yn dysgu'r sgiliau fydd eu hangen arnynt yn economi ddigidol y dyfodol. Dyna pam y gofynnwn beth yn fwy sydd angen i blant ei gael o'u haddysg, yn yr ysgol ac mewn lleoliadau eraill. Rydym eisiau gwybod beth ddylai plant fod yn ei ddysgu a sut orau i'w haddysgu.

## Prosiectau diwydiant a chymdeithas sifil

Mae gan ddiwydiant rôl bwysig hefyd ac mae nifer o wefannau cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau technoleg wedi datblygu prosiectau llythrennedd cyfryngau. Mae gan hyn botensial sylweddol o ddatblygu cynnwys yn y ffordd iawn gyda mewnbwn arbenigol ac wedi'i ddosbarthu yn y ffordd iawn i'r cynulleidfaoedd iawn.

**Blwch 4.2.** Gan weithio gyda Barnados a Parentzone, nod rhaglen **Be Internet Legends** Google yw grymuso plant iau i ddefnyddio'r we'n ddiogel a doeth. Mae'r rhaglen yn cynnwys gêm ar-lein sy'n addysgu gwersi pwysig am ddiogelwch ar y we i blant, drwy bedair her hwyliog, llawlyfr i deuluoedd, cwricwlwm i athrawon a phecyn lles digidol i gefnogi addysgwyr. Gall ysgolion cynradd archebu gweithdai seiber-fwlio a diogelwch ar y we wedi eu darparu gan Barnados.

Erbyn Tachwedd 2024, roedd **Be Internet Legends** wedi hyfforddi ei 10fed miliwn o blant cynradd yn y DU. Gan gyrraedd bron i 70% o genhedlaeth gyda sgiliau llythrennedd cyfryngau a diogelwch ar-lein hanfodol ers 2018.[52] Mae hefyd yn cynnwys **Be Internet Citizens** i'r arddegau hŷn.

[51] DSIT (2023), Cynllun Gweithredu Llythrennedd Cyfryngau Ar-lein Blwyddyn 3 (2023/24)
[52] Parentzone (2026), Bod yn Arwyr y Rhyngrwyd: Hyfforddi 10 miliwn o blant

Mae mudiadau cymdeithas sifil hefyd yn cyrraedd cynulleidfaoedd mawr ac amrywiol, yn blant a rhieni a gofalwyr: Mae *Internet Matters* yn darparu canllawiau diogelwch digidol i grwpiau bregus penodol o blant ag anghenion SEND ac iechyd meddwl, plant gyda phrofiad o'r system ofal a rhai ag anawsterau cyfathrebu drwy ei Hỳb Diogelwch Digidol Cynhwysol. Gydag arian gan y DSIT, mae Parentzone yn darparu rhaglenni cenedlaethol i wella sgiliau digidol teuluoedd, er enghraifft 'Everyday Digital' a gyrhaeddodd dros 63,000 o rieni a dangos gwelliant o 45% mewn dealltwriaeth llythrennedd cyfryngau.[53] Mae'r NSPCC yn cryfhau'r darlun eto drwy roi cyngor a hyfforddiant diogelwch dibynadwy i rieni, ysgolion a gweithwyr proffesiynol fel ffynhonnell gymorth genedlaethol allweddol i deuluoedd.

Mae gan ymgyrchoedd gyrhaeddiad sylweddol pan fydd sectorau'n gweithio gyda'i gilydd. Cyrhaeddodd yr ymgyrch DISMISS, a grewyd gan Shout Out UK, ac a gefnogwyd gan Ofcom a'r Comisiwn Etholiadol, dros naw miliwn o bobl ifanc yn ystod Etholiad Cyffredinol 2024[54]; ac mae cwmnïau byd-eang fel Meta ac UNESCO yn rhedeg ymgyrchoedd rhyngwladol sy'n helpu pobl ifanc i feddwl yn fwy gofalus am beth a welant ar-lein. Mae Ofcom hefyd yn rhedeg prosiect i helpu pobl ifanc, yn enwedig rhai sy'n pleidleisio am y tro cyntaf, i ddeall sut i adnabod gwybodaeth gywir cyn yr etholiadau yng Nghymru a'r Alban yn 2026.

## Cefnogi oedolion, gan gynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd

Mae gan rieni, gofalwyr a theuluoedd rôl allweddol mewn helpu plant i ddysgu ac mae'n hanfodol iddynt deimlo'n hyderus i gefnogi a grymuso eu plant ar-lein.

Gwyddom fod llawer o oedolion eisiau cefnogi diogelwch ar-lein eu plant ond yn aml yn teimlo'n ansicr, dryslyd neu'n ddiddeall. Mae angen cymorth ymarferol a chanllawiau clir ar oedolion sy'n cefnogi plant er mwyn chwarae eu rôl yn effeithiol. Mae gan lywodraeth rôl alluogi bwysig yn hyn. Gan adeiladu ar waith a wnaed eisoes, rydym eisiau i oedolion gyda chyfrifoldebau gofalu gael cymorth clir, ymarferol.

Dyna pam ein bod yn datblygu Cynllun Gweithredu Llythrennedd Cyfryngau i rymuso rhieni, gofalwyr a theuluoedd. Daw'r cynllun hwn â gwaith ar draws llywodraeth at ei gilydd i roi cymorth cliriach a mwy cydlynus i oedolion, gan eu helpu i ennill y sgiliau a'r hyder i adnabod gwybodaeth ffug, cryfhau llythrennedd digidol a sicrhau y gall plant yn eu gofal gyfranogi'n ddiogel ar-lein. Gyda help gan gyngor arbenigol, bydd yn disgrifio sut fydd y llywodraeth gyfan yn gweithio gyda'i gilydd i wella diogelwch ar-lein plant.

Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu, byddwn yn creu hỳb o gyngor ymarferol ymddiriedol a gefnogir gan ymgyrch genedlaethol. Byddwn hefyd yn hybu prosiectau lleol sy'n helpu teuluoedd gyda risg uwch, gwella mynediad at wybodaeth ddibynadwy am

---

[53] Digidol Pob Dydd: Adroddiad Gwerthuso Terfynol (2025)
[54] Bergamini (2025), Diystyru Camwybodaeth: Gwersi gan Ymgyrch Llythrennedd Cyfryngau Cymdeithasol Arloesol

bethau fel iechyd, a gweithio gyda llwyfannau, gwasanaethau cyhoeddus a mudiadau lleol fel bod teuluoedd yn derbyn cymorth clir a chyson wrth chwilio am help.

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym eisiau gwybod pa gymorth sydd ei angen ar rieni a gofalwyr i'w harfogi i gael sgyrsiau gyda'u plant am aros yn ddiogel ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gofyn i rieni a gofalwyr o ble y maen nhw'n cael eu cymorth eisoes a'r math o gynnwys sy'n arbennig o anodd iddynt ei drafod.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

44. Pa elfennau o lythrennedd cyfryngau neu ddigidol y mae plant a theuluoedd fwyaf o angen help ychwanegol â nhw (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Rheoli amser sgrîn ac arferion ar-lein
    b. Adnabod hysbysebion, postiadau noddedig neu gynnwys AI
    c. Cadw gwybodaeth bersonol yn breifat
    d. Ymddygiad a phrofiadau ar-lein (bwlio, parch, cymharu neu bwysau gan gyfoedion)
    e. Gwirio a yw gwybodaeth yn wir
    f. Deall sut y mae cyfryngau cymdeithasol yn gweithio (e.e. 'hoffiadau' neu algorithmau)
    g. Aros yn ddiogel ar-lein (gan gynnwys sut i gael sgyrsiau am ddiogelwch ar-lein)
    h. Adrodd cynnwys niweidiol neu ddirdynnol
    i. Gwybod pa apiau neu wefannau sy'n iawn i'w hoed
    j. Yr un o'r uchod
    k. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    l. Ateb arall (rhowch fanylion)
45. Os ydych yn ymateb fel unigolyn preifat, ble'r ewch chi am gymorth gyda diogelwch ar-lein neu sgiliau llythrennedd cyfryngau? *Wrth ddiogelwch ar-lein neu sgiliau llythrennedd cyfryngau, golygwn bethau fel aros yn ddiogel ar-lein, deall cynnwys digidol a defnyddio'r we'n hyderus a chyfrifol.* (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Ysgolion neu leoliadau gofal plant
    b. Gofodau cymunedol neu ieuenctid (llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid neu elusennau lleol)
    c. Grwpiau neu rwydweithiau rhieni neu ofalwyr
    d. Gwasanaethau cyhoeddus (fel hybiau teulu, meddygfeydd neu ganolfannau cymunedol)
    e. Grwpiau ffydd neu ddiwylliannol (gan gynnwys addoldai)
    f. Ffynonellau ar-lein anllywodraethol (fel gwefannau, llwyfannau neu gymunedau ar-lein)
    g. Gwefannau llywodraeth
    h. Dulliau ac adnoddau ar lwyfannau ar-lein
    i. Yr un o'r uchod / Heb ddefnyddio'r un o'r rhain i ddod o hyd i gymorth

j. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
k. Ateb arall (rhowch fanylion)

Ym mha ffordd oedd y rhain yn ddefnyddiol? *Rhannwch unrhyw raglenni, adnoddau neu weithgareddau oedd yn ddefnyddiol.*

*46.* Ble, os rhywle, hoffech chi weld mwy o gymorth ar gael yn y dyfodol? *Gallai gynnwys llefydd a ddefnyddiwch yn barod sydd ddim yn cynnig cymorth ond byddech yn hoffi pe baent, neu lefydd a allai gynnig mwy o gymorth gyda help gan y llywodraeth neu eraill.* (Dewiswch bob un perthnasol)
   a. Ysgolion neu leoliadau gofal plant
   b. Gofodau cymunedol neu ieuenctid (llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid neu elusennau lleol)
   c. Grwpiau neu rwydweithiau rhieni neu ofalwyr
   d. Gwasanaethau cyhoeddus (fel hybiau teulu, meddygfeydd neu ganolfannau cymunedol)
   e. Grwpiau ffydd neu ddiwylliannol
   f. Ffynonellau ar-lein anllywodraethol (fel gwefannau, llwyfannau neu gymunedau ar-lein)
   g. Gwefannau llywodraeth
   h. Yr un o'r uchod / Ni fyddwn yn defnyddio'r un o'r rhain i ddod o hyd i gymorth
   i. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
   j. Ateb arall (rhowch fanylion)

47. Y tu allan i ysgolion, sut allai llywodraeth y DU helpu plant a phobl ifanc yn well i aros yn ddiogel a theimlo bod cymorth ar gael iddynt ar-lein? (Dewiswch bob un perthnasol)
   a. Drwy ddarparu canllawiau clir y gall plant eu defnyddio eu hunain
   b. Drwy gefnogi rhieni a gofalwyr i gefnogi plant ar-lein
   c. Drwy weithio gyda llwyfannau a gwasanaethau a ddefnyddir gan blant yn barod
   d. Drwy gefnogi mudiadau ieuenctid a grwpiau cymunedol i helpu plant ar-lein
   e. Drwy roi mynediad hawdd at help neu gyngor os bydd rhywbeth yn mynd o'i le ar-lein
   f. Drwy gynnwys plant a phobl ifanc mewn dylunio'r cymorth
   g. Yr un o'r uchod
   h. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

48. Pa fathau o gymorth fyddai'n helpu plant ag anghenion ychwanegol i aros yn ddiogel ar-lein ac ennill sgiliau digidol? *Wrth 'anghenion ychwanegol', golygwn blant a allai fod angen mwy o gymorth am wahanol resymau (fel anghenion dysgu, cyfathrebu, iechyd neu fynediad).* (Dewiswch bob un perthnasol)
   a. Gwybodaeth glir a syml mewn iaith hawdd ei deall

b. Cynnwys wedi'i addasu ar gyfer gwahanol oed, gallu neu anghenion
c. Fformatau gweledol, sain neu ryngweithiol
d. Cymorth drwy wasanaethau lleol neu gymunedol ymddiriedol
e. Cymorth hyblyg neu 'ar gais' sydd ar gael pan fo'i angen
f. Cymorth sy'n helpu rhieni neu ofalwyr i dywys plant ar-lein
g. Yr un o'r uchod
h. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
i. Ateb arall (rhowch fanylion)

## Hyrwyddo mynediad at gynnwys ansawdd uchel

Gwyddom y gall mynediad at gynnwys ansawdd uchel gael effaith bositif ar ddysgu a datblygiad plant. Mae cynnwys teledu a fideo ansawdd uchel i blant yn enghraifft o hyn. P'un ai drwy straeon arloesol sy'n helpu i danio dychymyg plant, neu raglenni addysgol sy'n eu helpu i ddysgu am y byd o'u cwmpas, gall plant ennill gwerth aruthrol o gynnwys o'r fath.

Fel gyda meysydd eraill, mae mynediad at wasanaethau ar y we wedi ehangu'n aruthrol y cynnwys sydd ar gael i blant a rhieni ei wylio. Mae gan wasanaethau fideo-ar-gais fel iPlayer a Disney+ lyfrgelloedd plant pwrpasol ac mae gan lwyfannau rhannu fideos fel YouTube ystod eang o gynnwys wedi'i greu gan ddefnyddwyr a ddyluniwyd i apelio at blant, gan gynnwys cartŵns, fideos miwsig a rhaglenni addysgol. Mae cynnwys ehangach hefyd ar gael i blant drwy'r cyfryngau hyn, gan gynnwys newyddion, rhaglenni dogfen a drama, ar ddyfeisiau llaw a'r teledu traddodiadol. Erbyn hyn, y llwyfan rhannu fideos mwyaf, YouTube, yw'r un sy'n cael ei wylio fwyaf gan blant 4-15 oed, gan gyfrif am 28% o'r fideos y mae'r grŵp oed hwn yn eu gwylio.[55]

Er bod llwyfannau rhannu fideos, yn draddodiadol, wedi cael eu hystyried fel rhai amgen i deledu darlledu, mae ganddynt bellach rôl gynyddol bwysig yn strategaethau digidol darlledwyr y DU, gan gynnwys darparwyr ein cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus - lanlwytho fideos hyrwyddo byr i benodau cyfan a chreu cynnwys digidol yn gyntaf. Er enghraifft, dywedodd y BBC yn ddiweddar eu bod am ehangu eu darpariaeth YouTube i ddod â chynnwys gwasanaeth cyhoeddus ymddiriedol i fwy o gynulleidfaoedd ifanc.

Er hynny, o gofio bod mwy o blant yn gwylio mwy o gynnwys ar-lein nag erioed bellach ac yn gwylio llai ar fformatau traddodiadol fel teledu darlledu, mae pryder bod plant yn llai tebygol o weld cynnwys neu raglenni addysgol a allai helpu eu datblygiad emosiynol a lles meddyliol. Tynnodd Adolygiad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus diweddar Ofcom sylw at effaith llwyfannau rhannu fideos ar ecosystem cyfryngau'r DU gan wneud nifer o argymhellion, gan gynnwys y dylai'r llywodraeth

[55] Ofcom (2025), Adroddiad Gwledydd Cyfryngau, t. 22

ystyried a oes angen gweithredu i sicrhau bod cynnwys cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (a chynnwys plant) yn ddigon amlwg ar wasanaethau fel YouTube.

I'r perwyl hwn, mae'r llywodraeth wedi cymell llwyfannau rhannu fideos a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i wneud deunydd plant addas yn fwy gweladwy. Mae'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon wedi cyhoeddi ymrwymiad y llywodraeth i gefnogi cynnwys fideo a theledu plant o ansawdd uchel sy'n addysgu, difyrru a gwella eu gwybodusrwydd. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig i Ymchwiliad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i gynnwys teledu a fideo plant yn nodi bod yn rhaid, mewn tirlun cyfryngau sy'n esblygu'n barhaus, i bob rhan o'r sector weithio gyda'i gilydd i gwrdd â chynulleidfaoedd lle y maen nhw, sicrhau mynediad hawdd at raglenni o ansawdd uchel a pharhau i greu cynnwys sy'n goleuo, addysgu a difyrru cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys ystyried beth yn fwy y gellir ei wneud fel y gall cynulleidfaoedd iau ddod o hyd i'r cynnwys hwn yn hawdd ar lwyfannau rhannu fideos.

**Blwch 4.3. Enghraifft ryngwladol:** Mae strategaeth yr UE ar gyfer Rhyngrwyd Gwell i Blant (BIK+) wedi creu canllawiau ymarfer gorau ar gynnwys ar-lein positif i blant. Mae'r canllawiau'n diffinio cynnwys positif ar-lein fel "cynnwys sy'n rhoi mynediad at brofiadau ar-lein ansawdd uchel i ddefnyddwyr ifanc ar y we i'w cynorthwyo a'u grymuso i ddod yn ddinasyddion cyfranogol a gweithredol." Eu nod yw hyrwyddo plentyndod digidol gwell gan annog creu gwasanaethau a dulliau newydd drwy roi enghreifftiau da o gynnwys digidol ar gyfer amrywiaeth o grwpiau targed.

Mae'r canllawiau'n cynnwys rhestr wirio o gynnwys i ddarparwyr ei ddefnyddio wrth greu cynnwys a gwasanaethau newydd fel bod eu cynhyrchion yn addas i'r pwrpas, ac i gymryd mesurau i sicrhau y gall plant fynd ar-lein heb risg o niwed, p'un ai gan gynnwys, cyswllt, ymddygiad neu ystyriaethau masnachol. Gall rhieni, gofalwyr ac addysgwyr hefyd elwa o'r rhestr wirio drwy fod yn fwy ymwybodol o'r nodweddion i chwilio amdanynt wrth ddewis profiadau ar-lein ar gyfer plant iau.

Mae'r rhestr yn cynnwys:

**Y pethau sylfaenol** - cynllunio manteision i'r plentyn, diffinio amcanion a phenderfynu ar yr ystod oed targed.

**Tryloywder** - ystyried yr ystod oed i bwrpas dyluniad y rhyngwyneb, ystyried galluoedd datblygu plant a diddordebau ar gyfer pob oed targed, ac unrhyw ffactorau cymdeithasol-ddiwylliannol.

**Profiadau ysgogol** – cynhyrchion creadigol, rhyngweithiol, ysgogol ac addysgol gyda delweddau, sain a fideos atyniadol.

**Defnyddioldeb** – sicrhau defnyddioldeb hawdd ar draws gwahanol fformatau

**Hygyrchedd a chynhwysiant** – sicrhau hygyrchedd (er enghraifft technoleg gynorthwyol, testunau / priodoleddau amgen)

**Dibynadwyedd** - sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth neu reoliadau a darparu cynnwys cywir a dibynadwy sy'n cael ei gynnal a'i adolygu'n rheolaidd.

**Diogelwch a phreifatrwydd** – elfennau o gyfryngau cymdeithasol a nodweddion cyfathrebu eraill sy'n 'ddiogel drwy ddyluniad', a ddatblygwyd yn sensitif gyda phreifatrwydd y plentyn yn flaenllaw a defnydd cyfrifol o elfennau masnachol.

Rydym yn holi barn am ba fath o gynnwys ar-lein all gael effaith bositif ar fywydau plant a beth yn fwy y gallwn ei wneud i gymell a chefnogi creu gofodau ar-lein positif i bobl ifanc. Ni fwriadwn gyflwyno gofynion gorfodol na newidiadau rheoleiddio. Mater o beth yn fwy y gallwn ei wneud yw hyn drwy gydweithrediad traws-sector ac ymdrechion gwirfoddol i amlygu ymarfer gorau a helpu plant, rhieni a gofalwyr i gael gafael ar gynnwys positif.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

49. Pwy fyddech chi'n ymddiried ynddynt i benderfynu beth y mae 'cynnwys ar-lein ansawdd da' i blant 13-16 yn ei feddwl? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Y llywodraeth
    b. Timau ymddiried a diogelwch llwyfannau ar-lein
    c. Rhieni, gofalwyr neu oedolion ymddiriedol
    d. Plant
    e. Arbenigwyr datblygu
    f. Addysgwyr
    g. Gweithwyr ieuenctid
    h. Elusennau a sefydliadau eiriolaeth plant
    i. Yr un o'r uchod
    j. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    k. Ateb arall (rhowch fanylion)
50. Pa gamau pellach sydd angen cael blaenoriaeth i gefnogi gofodau ar-lein positif i bobl ifanc? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Datblygu egwyddorion ymarfer gorau i'r diwydiant
    b. Datblygu canllawiau i rieni a gofalwyr
    c. Datblygu canllawiau i blant
    d. Adolygu dulliau rhyngwladol
    e. Y diwydiant yn hyrwyddo cynnwys ansawdd da i blant yn wirfoddol
    f. Yr un o'r uchod
    g. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    h. Ateb arall (rhowch fanylion)
*51.* Beth sydd angen ei ystyried wrth gymryd camau pellach i gefnogi gofodau ar-lein a chynnwys positif i bobl ifanc? *Er enghraifft, a fyddai hyn yn ymarferol i wasanaethau, gan ystyried ymarfer gorau ar waith eisoes yn y diwydiant, a phwy ddylai gyfrannu at ganllawiau yn y dyfodol.*

# Pennod 5: Cefnogi teuluoedd

Mae rhieni, gofalwyr ac oedolion eraill sy’n rhan o fagu plant – gan gynnwys neiniau a theidiau, teulu estynedig, gofalwyr sy’n perthyn ac oedolion ymddiriedol eraill[56] – yn chwarae rolau pwysig ym mywydau plant. Mae hyn yr un mor wir ar-lein ag all-lein.

Mae’r llywodraeth yn glir mai cyfrifoldeb y diwydiant, nid rhieni neu ofalwyr, yw gwneud gwasanaethau’n ddiogel a phriodol i blant. Dyma’r gyfraith ac mae Pennod 3 yn egluro sut y gallai hyn gael ei gryfhau. Fodd bynnag, mae gan rieni a gofalwyr rôl allweddol mewn gwneud penderfyniadau am beth sy’n iawn i’w plentyn, mewn gosod ffiniau a’u helpu i fwynhau gweithgareddau ar-lein cyfoethog. Gall hyn fod yn fyd cymhleth i rieni a gofalwyr ei ddeall, a thrwm ar eu hamser, yn enwedig i rai na thyfodd i fyny’n defnyddio’r cyfryngau cymdeithasol eu hunain.

Mae’r bennod yma’n gofyn beth yn fwy y gellir ei wneud i gefnogi rhieni a gofalwyr, yn holi barn am beth yn fwy y gellir ei wneud i ddarparu canllawiau ac adnoddau ar amser sgrîn a sut orau i drafod cynnwys ar-lein gyda phlant sy’n ei wylio.

## Gosodiadau rhiant

Dywedodd lawer o rieni a gofalwyr wrthym eu bod yn aml yn teimlo’n ddihyder, diddeall neu’n ddryslyd wrth geisio cefnogi plant ar-lein. Maen nhw’n aml yn ceisio ymdopi ag amgylchedd digidol sy’n newid o hyd, gosodiadau llwyfan cymhleth, a chyngor darniog.

**Blwch 5.1.** Blwch tystiolaeth: Yn ôl arolwg defnyddio’r cyfryngau ac agweddau 2025, mae cyfran uchel o rieni’n ymwybodol o osodiadau neu ddulliau gwarchod ar-lein, ond llawer ddim yn eu defnyddio. Mae’r rhan fwyaf (93%) o rieni i blant 3-17 oed yn ymwybodol o un dull technegol penodol-i-ddyfais neu seiliedig-ar-rwydwaith o leiaf i warchod eu plant wrth fynd ar-lein. Mae’r union ddefnydd ohonynt (tua 76%) yn llawer is.[57]

Mae’r diwydiant eisoes yn darparu ystod o osodiadau rhiant defnyddiol fel y gall rhieni a gofalwyr oruchwylio a gosod paramedrau ar weithgareddau ar-lein eu plant, gan gynnwys cyfyngiadau cynnwys, amser ac ar weithrediadau (er enghraifft Google Family Link, YouTube Kids Mode) ac rydym eisiau helpu oedolion i deimlo’n hyderus i ddewis a defnyddio’r rhain yn effeithiol.

Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth fod ymwybyddiaeth rhieni o osodiadau rhiant yn amrywio. Nid yw’r rhai sy’n ymwybodol o reidrwydd yn deall yr holl opsiynau sydd ar

[56] Diffinnir oedolyn ymddiriedol gan Young Minds fel un y mae’r person ifanc yn ei ddewis fel rhywun diogel sy’n gwrando heb farnu, agenda na disgwyliadau, ond gyda’r unig bwrpas o gefnogi ac annog positifrwydd ym mywyd y person ifanc. Fel arfer maen nhw y tu allan i gylch teuluol y plentyn a ddim yn perthyn i’r plentyn. Diffinio Oedolion Ymddiriedol (2024)
[57] Dadansoddiad y DSIT o ddata rhyngweithiol cyhoeddedig

gael, a gall cymhlethdod a natur newidiol gosodiadau ar-lein fod yn ddryslyd iawn i rieni. Hefyd, dywedodd rieni sydd heb hyder mewn gosodiadau rhiant eu bod yn ansicr o weithgareddau ar-lein eu plant.[58]

Nod yr ymgynghoriad hwn yw deall pa rôl y gall llywodraeth ei chwarae mewn sicrhau bod gosodiadau rhiant a gwybodaeth i rieni a gofalwyr mor hawdd i'w deall a hygyrch â phosib i bawb.

## Canllawiau amser sgrîn i rieni a gofalwyr

Diffinnir "amser sgrîn" fel arfer fel amser sy'n cael ei dreulio'n defnyddio dyfais gyda sgrîn ddigidol fel cyfrifiadur, ffôn symudol, teledu neu gonsol gêmio, gan gynnwys sgriniau at ddibenion addysgol a darllen ar ddyfais ddigidol.

Gwyddom fod ymgysylltiad plant yn dechrau'n gynnar yn eu plentyndod. Mae'r rhan fwyaf (85%) o blant 3-5 oed yn mynd ar-lein, efallai gyda ffôn symudol eu hunain (17%), a mwy na thraean yn defnyddio o leiaf un ap neu wefan cyfryngau cymdeithasol (37%). Nes ymlaen yn eu plentyndod – rhwng 10-17 oed, mae gan y rhan fwyaf ffôn clyfar (91%), yn mynd ar-lein (100%), a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol (90%).[59]

Gwyddom wrth i blant fynd yn hŷn eu bod yn treulio mwy o amser ar y cyfryngau cymdeithasol a llawer llai ar weithgareddau pwysig eraill fel chwaraeon ac ymarfer corff. Yn ôl arolwg diweddar gan *Public First*, dim ond 2% o blant blwyddyn 5-6 sy'n gwneud dim ymarfer corff neu chwaraeon a 36% yn treulio dim amser ar gyfryngau cymdeithasol. Erbyn blwyddyn 12-13, mae 9% yn gwneud dim ymarfer corff neu chwaraeon ac 1% yn treulio dim amser ar gyfryngau cymdeithasol (o'i gymharu â 47% yn treulio dros 6 awr yr wythnos ym mlwyddyn 12-13).

**Blwch 5.2.** Yn Ionawr, fe ofynnom i Gomisiynydd Plant Lloegr, y Fonesig Rachel de Souza, a'r Athro Russell Viner adolygu'r cyngor presennol ar amser sgrîn yn y blynyddoedd cynnar a chreu canllawiau newydd i'r llywodraeth ar gyfer rhieni plant dan 5 oed. Bydd y canllawiau newydd yn cael eu cyhoeddi yn Ebrill.

Fel y soniwyd ym Mhennod 2 – mae'r dystiolaeth ar gyfer amser sgrîn plant hŷn a'r effaith ar iechyd meddwl a lles ehangach yn gymysg, ond nid yw'n golygu nad yw'n bodoli. Mae tystiolaeth newydd yn dod i'r fei o hyd ac mae'r llywodraeth wedi comisiynu treial newydd wedi'i arwain ar-y-cyd gan Dr Lewer a'r Athro Orben ar gyfyngu amser sgrîn[60] gyda thua4,000 o fyfyrwyr o ddeg ysgol uwchradd yn Bradford ar draws blynyddoedd 8, 9 a 10 a rhwng 12-15 oed. Bydd y treial yn lansio yng ngwanwyn a haf 2026 gydag astudiaeth ymarferoldeb gychwynnol ac adroddiad, ac

[58]DSIT (2025), Llythrennedd Cyfryngau Rhieni, adran 6: Gosodiadau Rhiant
[59] Dadansoddiad y DSIT o ddata rhyngweithiol cyhoeddedig gan Ofcom (2025)
[60] Prifysgol Caergrawnt (2025), Miloedd y blant ysgol y DU i gymryd rhan mewn astudiaeth fawr o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl yr arddegau

astudiaeth lawn i ddilyn dros yr hydref a'r gaeaf yn para chwe wythnos i gyd. Nod yr ymchwilwyr yw bod wedi gorffen dadansoddi'r data erbyn dechrau'r haf 2027.

Er ein bod yn parhau i fonitro'r dystiolaeth newydd o'r berthynas achosol rhwng amser sgrîn, cyfryngau cymdeithasol ac iechyd plant yn agos, bydd yr Adran Addysg yn adeiladu ar y canllawiau newydd i blant dan 5 oed a chynhyrchu canllawiau amser sgrîn i rieni a gofalwyr plant rhwng 5-16 oed.[61]

Credwn y byddai canllawiau amser sgrîn i rieni a gofalwyr plant yn y grŵp oed hwn yn beth da oherwydd nid yw risgiau ar-lein yn lleihau gydag oed ond yn mynd yn fwy cymhleth. Yn y cyfnod hwn, gallai cymorth rhieni fod yn llai o fater o orfodi cyfyngiadau ac yn fwy o fater o feithrin sgyrsiau deallgar, hyrwyddo gwydnwch digidol, ac annog arferion cytbwys. Bydd canllawiau clir, priodol i oed yn helpu rhieni a gofalwyr i ganfod cydbwysedd rhwng parchu annibyniaeth gynyddol a darparu rhagofalon priodol, gan arfogi teuluoedd i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt nesáu at fod yn oedolion mewn byd cynyddol fwy digidol. Mae hyn yn cynnwys sut y gall dulliau EdTech fod yn gyfle gwerthfawr i wella creadigrwydd, dysgu a hyder plant.

Bydd y canllawiau hyn hefyd yn adlewyrchu canlyniadau'r ymgynghoriad hwn.

Gwyddom fod plant yn modelu ymddygiad yr oedolion o'u cwmpas. Yn ôl ymchwil gan Ofcom, er bod traean (33%) o blant 8-17 ar-lein yn meddwl bod eu hamser sgrîn yn rhy uchel, o'r rhain mae ychydig dros hanner (52%) hefyd yn meddwl bod amser sgrîn eu rhieni'n rhy uchel.[62] Dyna pam y byddwn yn gofyn yn yr arolwg penodol i rieni am ddefnydd ffôn rhieni.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

52. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "Dylai fod rhieni'n gallu rheoli profiadau ar-lein eu plant"
    a. Cytuno'n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno'n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

    Rhowch resymau am eich ateb os gwelwch yn dda.

*53.* Sut ddylai'r lefel yma o reolaeth newid i blant o wahanol oedrannau? *Er enghraifft, i rywun 16 oed ac i rywun 11 oed.*

54. Beth fyddai'n helpu rhieni a gofalwyr i ddefnyddio gosodiadau rhiant yn fwy effeithiol? *Er enghraifft, mwy o wybodaeth am sut i wneud hyn wrth brynu*

[61] Grŵp cynghori amser sgrîn y blynyddoedd cynnar (2026)
[62] Ofcom (2025), Plant a Rhieni: Adroddiad Defnyddio'r Cyfryngau ac Agweddau, t. 37

*ffôn, help gan lwyfannau ar sut i sefydlu gosodiadau rhiant, neu ddulliau wedi eu safoni mwy.*

## Cynlluniau peilot

Tra bo'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg, byddwn hefyd yn peilota ymyriadau ar draws y wlad i roi cyfle i rieni, gofalwyr a phlant weld drostynt eu hunain sut deimlad fyddai cael cyrffyw dros nos neu waharddiad cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft. Rydym eisiau i blant gyda phrofiad o'r mathau hyn o gyfyngiadau, a hefyd eu rhieni a gofalwyr, gyfrannu at ein penderfyniadau terfynol.

Bydd peilota'r ymyriadau hyn hefyd yn rhoi cyfle i ni ddeall yn well pa mor ymarferol y byddant i'w gweithredu. Ydyn nhw'n hawdd eu hosgoi? Beth yw eu heffaith ar gwsg, hwyliau a gweithgarwch corfforol plant? Ydy rhieni a gofalwyr yn deall sut y mae eu plant yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol? Bydd ennill dealltwriaeth uniongyrchol o'r atebion i gwestiynau fel hyn yn bwysig i oleuo ein penderfyniadau.

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

1. Ydych chi eisiau mynd ymlaen gyda'r ymgynghoriad hwn?
    a. Ydw
    b. Nac ydw
2. Ydych chi'n ateb fel unigolyn preifat neu ar ran sefydliad?
    a. Unigolyn preifat
    b. Ar ran sefydliad
3. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, a wnewch chi roi:
    a. Enw'r sefydliad
    b. Eich rôl
4. Math o sefydliad:
    a. Busnes / cymdeithas fasnach
    b. Cymdeithas sifil / mudiad cymunedol / trydydd sector
    c. Lleoliad addysgol
    d. Gwell gen i beidio ateb
    e. Ateb arall (rhowch fanylion)
5. Os ydych yn ymateb fel unigolyn preifat, a oes gennych gyfrifoldeb fel rhiant neu ofalwr am o leiaf un plentyn fydd yn 21 neu'n iau erbyn 26 Mai eleni (2026)?
    a. Oes
    b. Nag oes
    c. Gwell gen i beidio ateb
6. Fel rhan o'ch galwedigaeth bresennol, ydych chi'n gweithio gyda phlant 21 oed neu iau mewn lleoliad addysgol (er enghraifft athro / athrawes)
    a. Ydw
    b. Nac ydw
    c. Gwell gen i beidio ateb
7. Ble'r ydych yn byw?
    a. Yn y DU
    b. Y tu allan i'r DU
    c. Gwell gen i beidio ateb
8. Mae gan yr ymgynghoriad hwn bum pennod. Dewiswch y rhai yr hoffech roi atebion arnynt ar sail eich amser a'ch diddordeb. Ni fydd angen i chi gwblhau pob cwestiwn yn y penodau hyn.

**Pennod 1: Deall sut y mae plant yn defnyddio technoleg**

9. Beth yw <u>manteision</u> defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a bod ar-lein, i blant?
10. Beth yw'r <u>niwed neu risg</u> o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a bod ar-lein, i blant?
11. Ydych chi'n meddwl bod <u>manteision</u> defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a bod ar-lein i blant yn troi'r fantol yn erbyn y <u>risgiau</u>, neu fel arall?

a. Mae’r manteision yn troi’r fantol yn gryf yn erbyn y risgiau
b. Mae’r manteision yn troi’r fantol i raddau yn erbyn y risgiau
c. Mae’r manteision a’r risgiau fwy neu lai’n gyfartal
d. Mae’r risgiau’n troi’r fantol i raddau yn erbyn y manteision
e. Mae’r risgiau’n troi’r fantol yn gryf yn erbyn y manteision
f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

**Pennod 2: Ymyriadau ar gyfer profiadau mwy diogel a phositif**

<u>Cyfyngu gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn ôl oed</u>

Ar hyn o bryd nid yw’n gyfreithiol ofynnol i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol fod ag isafswm oed i’w defnyddio, er bod gan lawer bolisi isafswm oed o 13. Byddai isafswm oed i ddefnyddio gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol yn gyfystyr â gwaharddiad i rywun iau na’r isafswm oed.

12. A fyddech yn cefnogi gofynion cyfreithiol i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol fod ag isafswm oed i’w defnyddio?
    a. Byddwn
    b. Na fyddwn
    c. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
13. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiad canlynol: “Dylai fod gan wasanaethau cyfryngau cymdeithasol isafswm oed o <u>16 o leiaf</u> i’w defnyddio ac ni ddylai fod ar gael i blant iau”
    a. Cytuno’n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na’n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno’n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
14. A fyddech yn cefnogi gofyniad cyfreithiol i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol fod ag isafswm oed <u>iau na 16</u> i’w defnyddio? Os felly, pa oed?
    a. Byddwn - 13
    b. Byddwn - 14
    c. Byddwn - 15
    d. Na – dim iau na 16
    e. Ateb arall (rhowch fanylion)
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

Rhowch resymau dros eich atebion ynghylch gofynion isafswm oed.

*15.* Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau cyflwyno gofynion isafswm oed uwch na 13 ar gyfer gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

Oed caniatâd digidol

O dan GDPR y DU, rhaid i 'wasanaethau cymdeithas wybodaeth' yn aml ofyn am ganiatâd i ddefnyddio data pobl ar gyfer pethau fel proffilio i bwrpas hysbysebu. Gwasanaethau cymdeithas wybodaeth yw'r rhan fwyaf o wasanaethau ar-lein a ddarperir at ddiben masnachol gan gynnwys gwefannau, apiau, gêmio ar-lein, cyfryngau cymdeithasol, injans chwilio, marchnadoedd ar-lein, ayyb. Gall plant ond rhoi caniatâd i'w data gael ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion hyn os ydynt yn 13+ oed. I blant iau na hyn, rhaid i wasanaethau wneud ymdrechion rhesymol i ofyn i rai gyda chyfrifoldeb rhiant am y caniatâd hwn.

16. Ym mha oed y dylid gosod yr oed caniatâd digidol yn y DU ar gyfer gwasanaethau cymdeithas wybodaeth?
    a. 13
    b. 14
    c. 15
    d. 16
    e. Ateb arall (rhowch fanylion)
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
17. Pa risgiau neu feichiau allai fod yn gysylltiedig â chodi'r isafswm oed ar gyfer caniatâd digidol? *Er enghraifft, sicrhau caniatâd rhiant, cost i'r diwydiant, mynediad at wasanaethau, nifer y ceisiadau, ayyb.*
18. Beth ddylai gael ei ystyried i sicrhau bod codi'r oed caniatâd digidol yn effeithiol ac ymarferol? *Er enghraifft, dulliau addas o wirhau oed defnyddwyr (gan gynnwys lle y byddai angen caniatâd rhiant) neu ddulliau addas o wirhau hunaniaeth rhiant neu ofalwr, eu hoed a'u perthynas â'r plentyn.*
19. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "Mae dadl dros newid yr oed caniatâd digidol ar gyfer rhai gwasanaethau ar-lein ond nid eraill"
    a. Cytuno'n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno'n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

    Rhowch resymau am eich ateb os gwelwch yn dda.

Cyfyngu gwasanaethau gyda gweithrediadau sy'n creu risg

'Gweithrediad' yw nodwedd gwasanaeth sy'n galluogi rhyngweithio neu weithrediad rhwng ei ddefnyddwyr. Mae'n cynnwys ystod o gymwyseddau craidd a gynigir gan wasanaethau.

20. Mae rhai gwasanaethau ar-lein yn gadael i'w defnyddwyr ymgysylltu â'r gweithrediadau canlynol: Ydych chi'n meddwl y dylai fod cyfyngiadau oed ar

gyfer y gweithrediadau hyn fel na all plant dan oed penodol eu defnyddio? (Dewiswch bob un perthnasol)

   a. Ffrydio byw
   b. Gallu anfon delweddau neu fideos noeth
   c. Cynnwys sy'n diflannu
   d. Rhannu lleoliad
   e. Cysylltu neu siarad gyda dieithriaid
   f. Yr un o'r uchod
   g. Ateb arall (rhowch fanylion)
   h. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

21. Ar sail eich atebion blaenorol, nodwch yr isafswm oed a fyddai'n well gennych ar gyfer pob un o'r gweithrediadau isod:
   a. Ffrydio byw
   b. Gallu anfon delweddau neu fideos noeth
   c. Cynnwys sy'n diflannu
   d. Rhannu lleoliad
   e. Cysylltu neu siarad gyda dieithriaid
   f. Yr un o'r uchod
   g. Ateb arall (rhowch fanylion)
22. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "Byddai cyfyngu mynediad plant at y nodweddion / gweithrediadau hyn yn creu profiad ar-lein mwy diogel i blant". *Mae nodweddion / gweithrediadau'n cynnwys ffrydio byw, gallu anfon delweddau neu fideos noeth, cynnwys sy'n diflannu, rhannu lleoliad a chysylltu neu siarad â dieithriaid.*
   a. Cytuno'n gryf
   b. Cytuno i raddau
   c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
   d. Anghytuno i raddau
   e. Anghytuno'n gryf
   f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
*23.* Beth yn eich barn chi fyddai'r effeithiau pe bai'n ofynnol i rai gwasanaethau ar-lein gyflwyno cyfyngiadau oed ar gyfer rhai nodweddion a gweithrediadau? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

<u>'Natur gaethiwus', dylunio cymhellol a dadleoli</u>

24. Gelwir y nodweddion dylunio canlynol weithiau'n rhai 'perswadiol', sy'n golygu y gallent annog plant i aros ar-lein am hirach. O'r rhestr ganlynol, dewiswch y rhai y teimlwch sy'n arbennig o 'berswadiol' i blant: (Dewiswch bob un perthnasol)
   a. Sgrolio diddiwedd
   b. Awto-chwarae

c. Nodweddion cadarnhau (e.e. ‘hoffiadau’, sylwadau)
d. Neges-rybuddion a hysbysiadau gwthio
e. Algorithmau argymell cynnwys (sy’n cynnig argymhellion personol ar lif data defnyddiwr)
f. Yr un o'r uchod
g. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
h. Ateb arall (rhowch fanylion)

25. Pa rai o’r nodweddion hyn ddylai fod â chyfyngiadau oed? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Sgrolio diddiwedd
    b. Awto-chwarae
    c. Nodweddion cadarnhau (e.e. ‘hoffiadau’, sylwadau)
    d. Neges-rybuddion a hysbysiadau gwthio
    e. Algorithmau argymell cynnwys (sy’n cynnig argymhellion personol ar lif data defnyddiwr)
    f. Yr un o’r uchod – ni ddylent fod â chyfyngiadau oed
    g. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    h. Ateb arall (rhowch fanylion)
26. Ar sail eich atebion blaenorol, nodwch yr isafswm oed a fyddai’n well gennych ar gyfer pob un o’r nodweddion isod.
    a. Sgrolio diddiwedd
    b. Awto-chwarae
    c. Nodweddion cadarnhau (e.e. ‘hoffiadau’, sylwadau)
    d. Neges-rybuddion a hysbysiadau gwthio
    e. Algorithmau argymell cynnwys (sy’n cynnig argymhellion personol ar lif data defnyddiwr)
    f. Yr un o’r uchod – ni ddylent fod â chyfyngiadau oed
    g. Ateb arall (rhowch fanylion)
27. A fyddech yn cefnogi’r cyfyngiadau canlynol ar fynediad plant at wasanaethau ar-lein? (Dewiswch un)
    a. Cyfyngiadau amser sgrîn dyddiol ar gyfer apiau unigol
    b. Cyfyngu defnydd dros nos o apiau unigol
    c. Y ddau – cyfyngiadau amser sgrîn dyddiol a defnydd dros nos o apiau unigol
    d. Ni fyddwn o blaid yr un ohonynt
    e. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
28. Beth yn eich barn chi fyddai’r effeithiau pe bai’n ofynnol i rai gwasanaethau ar-lein gyfyngu nodweddion neu weithrediadau penodol, neu gyflwyno cyfyngiadau amser? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

Pa wasanaethau ddylai fod â chyfyngiadau oed

29. Pa ffactorau sy'n bwysig wrth benderfynu pa apiau, gwefannau neu wasanaethau i gyflwyno'r **cyfyngiadau isafswm oed** ar eu cyfer? *Er enghraifft, rhyngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gallu postio deunydd, nodweddion dylunio perswadiol, gweithrediadau ag elfen o risg, gallu creu cyfryngau di-destun fel fideo neu ddelweddau, y grŵp oed targed, maint y gwasanaeth.*
30. A oes unrhyw fathau o apiau, gwefannau neu wasanaethau y teimlwch y dylid eu cynnwys ar gyfer **cyfyngiadau isafswm oed**?
31. Pa ffactorau sy'n bwysig wrth benderfynu pa apiau, gwefannau neu wasanaethau y dylai **cyfyngiadau oed fod ar eu nodweddion neu weithrediadau penodol**? *Er enghraifft, rhyngweithio defnyddiwr-i-ddefnyddiwr, gallu postio deunydd, nodweddion dylunio perswadiol, gweithrediadau ag elfen o risg, gallu creu cyfryngau di-destun fel fideo neu ddelweddau, y grŵp oed targed, maint y gwasanaeth.*
32. A oes unrhyw fathau o apiau, gwefannau neu wasanaethau y teimlwch y dylid eu cynnwys ar gyfer **cyfyngiadau oed ar nodweddion / gweithrediadau**?
33. Mae rhai gwasanaethau wedi eu heithrio'n barod o'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Er enghraifft gwasanaethau busnes mewnol, rhai gyda gweithrediadau cyfyngedig neu sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr addysg neu ofal plant. A oes unrhyw fathau eraill o wasanaeth y teimlwch y byddai'n briodol eu heithrio o gyfyngiadau oed? *Gallent gynnwys gwasanaethau gyda'r prif bwrpas o ddarparu cynnwys addysgol sy'n cynnig cyfrifon neu fersiynau penodol i blant neu rai yn eu harddegau, neu wasanaethau'n cynnig gosodiadau rhiant.*

Botiau sgwrsio deallusrwydd artiffisial (AI)

System deallusrwydd artiffisial gyda rhyngwyneb iaith naturiol yw botiau sgwrsio AI, sy'n gallu efelychu sgyrsiau 'cig a gwaed'. Maen nhw'n gallu creu delweddau, fideos, testun a sain ar gais defnyddwyr mewn amser real. Maen nhw hefyd yn gallu cofio cyd-destun a phersonoli atebion i'r unigolyn. Gall y gwasanaethau hyn alw ar amrywiaeth o ddatasetiau gan gynnwys canlyniadau chwilio byw a modelau iaith mawr. Gall bot sgwrsio AI fod yn wasanaeth annibynnol neu wedi'i wreiddio mewn gwasanaeth arall. Mae enghreifftiau'n cynnwys ChatGPT (annibynnol) neu wedi eu gwreiddio mewn gwasanaeth fel Grok (yn X).

34. Beth yw'r manteision i blant o ddefnyddio botiau sgwrsio AI? *Er enghraifft, gweithrediad chwilio i bwrpas addysgol, ar gyfer creadigrwydd.*
35. Pa nodweddion botiau sgwrsio AI sydd fwyaf o risg i blant? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Realaeth y rhyngweithio, gan gynnwys realaeth y cynnwys a gynhyrchir
    b. Personoli'r rhyngweithio
    c. Sut y maen nhw'n efelychu perthynas (ffrind)
    d. Sut y maen nhw'n efelychu perthynas (ramantus)

    e. Sut y maen nhw'n efelychu empathi
    f. Iaith ffafriol / ganmol
    g. Nodweddion i annog mwy o gwestiynau / ceisiadau (e.e. gofyn cwestiynau'n ôl)
    h. Gallu cofio'r sgwrs ryngweithio o sesiwn i sesiwn
    i. Y math o gynnwys a gynhyrchir – a) fideo, b) testun, c) sain, ch) delwedd
    j. Gadael i blant gael cyfrifon
    k. Rhith-hunllefau neu atebion ffug, camarweiniol
    l. Gallu ymgysylltu gyda, a chreu, cynnwys aeddfed (e.e. chwarae rôl rywiol / ramantus)
    m. Ateb arall (rhowch fanylion)
    n. Yr un o'r uchod / nid yw nodweddion botiau sgwrsio AI yn risg i blant
    o. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
36. Pa weithrediadau botiau sgwrsio AI y dylid cyflwyno cyfyngiadau isafswm oed ar eu cyfer?
37. A ddylai fod gan fotiau sgwrsio AI gyfyngiadau isafswm oed?
    a. Dylai – gofynion isafswm oed ar gyfer botiau sgwrsio AI
    b. Dylai – cyfyngu mynediad at rai nodweddion a gweithrediadau
    c. Dylai – gofynion isafswm oed a chyfyngu mynediad at rai nodweddion a gweithrediadau
    d. Na ddylai
    e. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

    Rhowch resymau am eich ateb os gwelwch yn dda.

*38.* Beth yn eich barn chi fyddai effaith cyflwyno cyfyngiadau oed ar gyfer botiau sgwrsio AI neu rai nodweddion a gweithrediadau? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

**Pennod 3: Gorfodaeth a chydymffurfio**

Sicrhau oed

Pe bai cyfyngiadau isafswm oed yn cael eu cyflwyno, byddai angen i wasanaethau mewn sgôp brofi bod eu defnyddwyr dros yr oed gofynnol. Mae dulliau sicrhau oed yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, amcangyfrif oed wyneb, cyfateb i lun ID, systemau AI a biometrig, a dod i gasgliad am oed (AI yn darogan oed ar sail ymddygiad ar-lein).

39. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiad hwn: "Dylai oedolion gwblhau gwiriadau oed yn amlach, os yw'n golygu bod plant yn fwy diogel ar-lein"?
    a. Cytuno'n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno

d. Anghytuno i raddau
e. Anghytuno’n gryf
f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

40. Beth sydd angen ei ystyried i wneud cyfyngiadau isafswm oed yn effeithiol ac ymarferol? *Gallai hyn olygu cyfyngiadau oed i ddefnyddio gwasanaethau cyfan neu nodweddion neu weithrediadau ‘caethiwus’ neu gyda risg.*
*41.* Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau gwneud sicrhau oed yn ofynnol ar gyfer nifer fwy o lwyfannau ar-lein? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*
42. Sut, os o gwbl, y gellid gwneud sicrhau oed yn fwy effeithiol?
43. Beth ddylai gael ei ystyried wrth asesu effeithiolrwydd technolegau gwirio oed a sicrhau oed?

Osgoi cyfyngiadau oed

Dulliau yw Rhwydweithiau Preifat Rhithwir (VPN) sy’n creu cysylltiad preifat diogel rhwng eich dyfais a’r we. Defnyddir rhwydweithiau VPN at sawl pwrpas, i ddiogelu cyfathrebiadau sensitif a gwarchod preifatrwydd, gan gynnwys mewn cyd-destun corfforaethol.

44. Pa ddulliau o osgoi rheolau diogelwch ar-lein y credwch fod plant yn y DU yn eu defnyddio ar wahan i Rwydweithiau Preifat Rhithwir (VPN) neu dechnolegau tebyg?
45. Pa rai o’r opsiynau isod y credwch ddylai’r llywodraeth eu blaenoriaethu i leihau osgoi rheolau diogelwch ar-lein yn y DU? (Dewiswch yr un pwysicaf i chi)
    a. Mwy o addysg i blant
    b. Cyfyngu mynediad plant at rwydweithiau VPN
    c. Yr un o'r uchod
    d. Ateb arall (rhowch fanylion)
    e. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
46. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno gyda’r datganiad canlynol: “Dylai pawb wirio eu hoed i ddefnyddio VPN os byddai’n atal plant rhag eu defnyddio”
    a. Cytuno’n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na’n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno’n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
*47.* Beth fyddai effaith cyflwyno cyfyngiadau oed ar gyfer rhwydweithiau VPN? *Er enghraifft, effaith ar ddiogelwch a lles plant, neu effaith ar rieni a gofalwyr, a*

*hefyd ar ddefnyddwyr eraill. Gallech hefyd sôn am yr effaith ar breifatrwydd a data pob defnyddiwr, neu ar gostau, refeniw ac arloesi i fusnesau.*

48. Beth ddylid ei ystyried fel bod cyfyngiadau oed ar gyfer rhwydweithiau VPN yn effeithiol ac ymarferol? *Er enghraifft, hyder ac ymgysylltiad y cyhoedd â gofynion sicrhau oed pellach, hygyrchedd dulliau sicrhau oed a dulliau sicrhau oed amrywiol ar draws gwasanaethau, rhyngweithio gyda defnyddiau cyfreithlon o rwydweithiau VPN.*

Ffonau symudol mewn ysgolion

Yn Chwefror 2026, fe wnaeth yr Adran Addysg (DfE) ddiweddaru'r canllawiau ar ffonau symudol mewn ysgolion gan ragnodi y dylai pob ysgol fod yn amgylchedd di-ffôn symudol fel disgwyliad diofyn oni bai fod rheswm da dros ddefnyddio ffonau.

*49.* I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "I fynd i'r afael â rhai o'r heriau a wynebir gan ysgolion gyda ffonau symudol, dylid gwneud canllawiau anstatudol yr Adran Addysg (DfE) ar 'ffonau symudol mewn ysgolion' yn statudol." *Byddai hyn yn golygu bod gan ysgolion ddyletswydd gyfreithiol i ddilyn y canllawiau, sy'n egluro i ysgolion ac ymddiriedolaethau unigol sut i weithredu polisi sy'n gwahardd defnyddio ffonau symudol yn ystod y diwrnod ysgol, a rhoi rhesymau da dros beidio. Mae hyn yn cynnwys yn y wers, yr amser rhwng gwersi, amseroedd egwyl a chinio.*
   a. Cytuno'n gryf
   b. Cytuno i raddau
   c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
   d. Anghytuno i raddau
   e. Anghytuno'n gryf
   f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

*50.* Pa effeithiau fyddai pe bai'r canllawiau hyn yn dod yn statudol a pham? *Er enghraifft, effaith ar aflonyddu ar wersi, bwlio neu harasio, barn rhieni am bolisïau ffonau symudol, staff, ayyb.*

51. A oes amgylchiadau penodol pryd y dylai plant gael ffôn symudol neu ddefnyddio ffôn symudol yn ystod y diwrnod ysgol? (Dewiswch bob un perthnasol)
   a. Anghenion meddygol
   b. Gofynion Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND)
   c. Pryderon diogelu unigol
   d. Cyfrifoldebau gofalu
   e. Pwrpasau addysgol neu ddysgu
   f. Teithio i ac o'r ysgol
   g. Yr un o'r uchod, <u>ni ddylai</u> plant gael ffôn symudol neu ddefnyddio ffôn symudol yn ystod y diwrnod ysgol o gwbl.
   h. Yr un o'r uchod, dylai plant <u>bob amser</u> gael ffôn symudol neu ddefnyddio ffôn symudol yn ystod y diwrnod ysgol.

i. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
j. Ateb arall (rhowch fanylion)

**Pennod 4: Paratoi plant ar gyfer dyfodol digidol**

Llythrennedd cyfryngau a digidol

**Llythrennedd cyfryngau** yw deall, cwestiynu a gwneud synnwyr o'r cynnwys a welwch ar-lein. Mae'n helpu plant i wahaniaethu rhwng ffaith a barn, gwirio ffynonellau ac asesu a fedrant ymddiried ynddynt, ac i adnabod sut y gall cynnwys ar-lein effeithio ar feddyliau, teimladau ac ymddygiad.

**Llythrennedd digidol** yw bod â'r sgiliau ymarferol i ddefnyddio dyfeisiau a gwasanaethau ar-lein yn ddiogel, hyderus ac annibynnol. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i sefydlu a defnyddio dyfeisiau, adnabod sgamiau, diogelu gwybodaeth bersonol a rheoli tasgau digidol pob dydd.

52. Pa elfennau o lythrennedd cyfryngau neu ddigidol y mae plant a theuluoedd fwyaf o angen help ychwanegol â nhw (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Rheoli amser sgrîn ac arferion ar-lein
    b. Adnabod hysbysebion, postiadau noddedig neu gynnwys AI
    c. Cadw gwybodaeth bersonol yn breifat
    d. Ymddygiad a phrofiadau ar-lein (bwlio, parch, cymharu neu bwysau gan gyfoedion)
    e. Gwirio a yw gwybodaeth yn wir
    f. Deall sut y mae cyfryngau cymdeithasol yn gweithio (e.e. 'hoffiadau' neu algorithmau)
    g. Aros yn ddiogel ar-lein (gan gynnwys sut i gael sgyrsiau am ddiogelwch ar-lein)
    h. Adrodd cynnwys niweidiol neu ddirdynnol
    i. Gwybod pa apiau neu wefannau sy'n iawn i'w hoed
    j. Yr un o'r uchod
    k. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    l. Ateb arall (rhowch fanylion)
53. Os ydych yn ymateb fel unigolyn preifat, ble'r ewch chi am gymorth gyda diogelwch ar-lein neu sgiliau llythrennedd cyfryngau? *Wrth ddiogelwch ar-lein neu sgiliau llythrennedd cyfryngau, golygwn bethau fel aros yn ddiogel ar-lein, deall cynnwys digidol a defnyddio'r we'n hyderus a chyfrifol.* (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Ysgolion neu leoliadau gofal plant
    b. Gofodau cymunedol neu ieuenctid (llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid neu elusennau lleol)
    c. Grwpiau neu rwydweithiau rhieni neu ofalwyr
    d. Gwasanaethau cyhoeddus (fel hybiau teulu, meddygfeydd neu ganolfannau cymunedol)
    e. Grwpiau ffydd neu ddiwylliannol (gan gynnwys addoldai)

f. Ffynonellau ar-lein anllywodraethol (fel gwefannau, llwyfannau neu gymunedau ar-lein)
g. Gwefannau llywodraeth
h. Dulliau ac adnoddau ar lwyfannau ar-lein
i. Yr un o'r uchod / Heb ddefnyddio'r un o'r rhain i ddod o hyd i gymorth
j. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
k. Ateb arall (rhowch fanylion)

Ym mha ffordd oedd y rhain yn ddefnyddiol? *Rhannwch unrhyw raglenni, adnoddau neu weithgareddau oedd yn ddefnyddiol.*

*54.* Ble, os rhywle, hoffech chi weld mwy o gymorth ar gael yn y dyfodol? *Gallai gynnwys llefydd a ddefnyddiwch yn barod sydd ddim yn cynnig cymorth ond byddech yn hoffi pe baent, neu lefydd a allai gynnig mwy o gymorth gyda help gan y llywodraeth neu eraill.* (Dewiswch bob un perthnasol)
   a. Ysgolion neu leoliadau gofal plant
   b. Gofodau cymunedol neu ieuenctid (llyfrgelloedd, clybiau ieuenctid neu elusennau lleol)
   c. Grwpiau neu rwydweithiau rhieni neu ofalwyr
   d. Gwasanaethau cyhoeddus (fel hybiau teulu, meddygfeydd neu ganolfannau cymunedol)
   e. Grwpiau ffydd neu ddiwylliannol
   f. Ffynonellau ar-lein anllywodraethol (fel gwefannau, llwyfannau neu gymunedau ar-lein)
   g. Gwefannau llywodraeth
   h. Yr un o'r uchod / Ni fyddwn yn defnyddio'r un o'r rhain i ddod o hyd i gymorth
   i. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
   j. Ateb arall (rhowch fanylion)

55. Y tu allan i ysgolion, sut allai llywodraeth y DU helpu plant a phobl ifanc yn well i aros yn ddiogel a theimlo bod cymorth ar gael iddynt ar-lein? (Dewiswch bob un perthnasol)
   a. Drwy ddarparu canllawiau clir y gall plant eu defnyddio eu hunain
   b. Drwy gefnogi rhieni a gofalwyr i gefnogi plant ar-lein
   c. Drwy weithio gyda llwyfannau a gwasanaethau a ddefnyddir gan blant yn barod
   d. Drwy gefnogi mudiadau ieuenctid a grwpiau cymunedol i helpu plant ar-lein
   e. Drwy roi mynediad hawdd at help neu gyngor os bydd rhywbeth yn mynd o'i le ar-lein
   f. Drwy gynnwys plant a phobl ifanc mewn dylunio'r cymorth
   g. Yr un o'r uchod
   h. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

56. Pa fathau o gymorth fyddai'n helpu plant ag anghenion ychwanegol i aros yn ddiogel ar-lein ac ennill sgiliau digidol? *Wrth 'anghenion ychwanegol', golygwn blant a allai fod angen mwy o gymorth am wahanol resymau (fel anghenion dysgu, cyfathrebu, iechyd neu fynediad).* (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Gwybodaeth glir a syml mewn iaith hawdd ei deall
    b. Cynnwys wedi'i addasu ar gyfer gwahanol oed, gallu neu anghenion
    c. Fformatau gweledol, sain neu ryngweithiol
    d. Cymorth drwy wasanaethau lleol neu gymunedol ymddiriedol
    e. Cymorth hyblyg neu 'ar gais' sydd ar gael pan fo'i angen
    f. Cymorth sy'n helpu rhieni neu ofalwyr i dywys plant ar-lein
    g. Yr un o'r uchod
    h. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    i. Ateb arall (rhowch fanylion)

<u>Hyrwyddo cynnwys ansawdd uchel</u>

Gwyddom y gall mynediad at gynnwys ansawdd uchel fod yn llesol i blant. Wrth gynnwys ar-lein ansawdd uchel, golygwn gynnwys sy'n gallu cael effaith bositif ar ddysgu a datblygiad plant.

57. Pwy fyddech chi'n ymddiried ynddynt i benderfynu beth y mae 'cynnwys ar-lein ansawdd da' i blant 13-16 yn ei feddwl? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Y llywodraeth
    b. Timau ymddiried a diogelwch llwyfannau ar-lein
    c. Rhieni, gofalwyr neu oedolion ymddiriedol
    d. Plant
    e. Arbenigwyr datblygu
    f. Addysgwyr
    g. Gweithwyr ieuenctid
    h. Elusennau a sefydliadau eiriolaeth plant
    i. Yr un o'r uchod
    j. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    k. Ateb arall (rhowch fanylion)
58. Pa gamau pellach sydd angen cael blaenoriaeth i gefnogi gofodau ar-lein positif i bobl ifanc? (Dewiswch bob un perthnasol)
    a. Datblygu egwyddorion ymarfer gorau i'r diwydiant
    b. Datblygu canllawiau i rieni a gofalwyr
    c. Datblygu canllawiau i blant
    d. Adolygu dulliau rhyngwladol
    e. Y diwydiant yn hyrwyddo cynnwys ansawdd da i blant yn wirfoddol
    f. Yr un o'r uchod
    g. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb
    h. Ateb arall (rhowch fanylion)

59. Beth sydd angen ei ystyried wrth gymryd camau pellach i gefnogi gofodau ar-lein a chynnwys positif i bobl ifanc? *Er enghraifft, a fyddai hyn yn ymarferol i wasanaethau, gan ystyried ymarfer gorau ar waith eisoes yn y diwydiant, a phwy ddylai gyfrannu at ganllawiau yn y dyfodol.*

**Pennod 5: Cefnogi teuluoedd**

Gosodiadau rhiant

Mae gan lawer o lwyfannau ar-lein osodiadau rhiant fel y gall rhieni a gofalwyr oruchwylio a gosod paramedrau ar weithgarwch plant ar-lein, gan gynnwys cyfyngiadau cynnwys, amser ac ar weithrediadau.

60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiad canlynol: "Dylai fod rhieni'n gallu rheoli profiadau ar-lein eu plant"
    a. Cytuno'n gryf
    b. Cytuno i raddau
    c. Ddim yn cytuno na'n anghytuno
    d. Anghytuno i raddau
    e. Anghytuno'n gryf
    f. Ddim yn gwybod / Gwell gen i beidio ateb

    Rhowch resymau am eich ateb os gwelwch yn dda.

61. Sut ddylai'r lefel yma o reolaeth newid i blant o wahanol oedrannau? *Er enghraifft, i rywun 16 oed ac i rywun 11 oed.*
62. Beth fyddai'n helpu rhieni a gofalwyr i ddefnyddio gosodiadau rhiant yn fwy effeithiol? *Er enghraifft, mwy o wybodaeth am sut i wneud hyn wrth brynu ffôn, help gan lwyfannau ar sut i sefydlu gosodiadau rhiant, neu ddulliau wedi eu safoni mwy.*

E03557625

978-1-5286-6278-9